



[www,kimkat.org](http://www.kimkat.org)

Gwefan Cymru a Chatalonia

Cyfeiriad y tudalen hwn:

[www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_133_profiad-par-ifanc_1899_FDG-PDF_3601k.
\[\]pdf](http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_133_profiad-par-ifanc_1899_FDG-PDF_3601k.[]pdf)

Profiad Par Ifanc. Papur Pawb.

1899.

Ceir fersiwn ar ffurf tudalen IAH (= Iaith Arwyddnodi Huperdestun) / HTML (= Hypertext Markup Language) yn y fan hon:

www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_133_profiad-par-ifanc_0219k.htm

Dyddiad creu'r tudalennau IAH a FDG: 01-12-2021



(delwedd 8112)

Papur Pawb. 10 Mehefin 1899.

PROFIAD PAR IFANC

Set Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD I.—GOLCHI LETTUCE—TATO DRWY'R PIL—ORDRO CIG I GINIO.

Fuodd gyda chi gymydog drws nesa eriod? Tebyg gen i taw to fe. Ond pun a fuodd gyda chi neu bido, fe fuodd gen i, a hyny fwy nag unwaith. Ac wrth gwrs, i bob cymydog drws nesa fuodd gen i, fi oedd cymydog drws nesa hwnw. Dyna beth od, ond taw e?

Ond byd y pethau od yw hwn, ac o bobpeth od weles i yn y mywyd eriod, y peth oda o bobpeth oedd y cymydogion drws nesa diwetha fuws gen i. Welsoch chi shwd gambotsh ariod yn eich bywyd!

Pan ddethon nhw gynta i fyw drws nesa i ni fe gymeres i eu mesur nhw'n go agos.

"Liza," myntwn i wrth y wraig.

"Nan," mynte Liza.

"Liza," myntwn i. "Wyddot ti beth?"

"Fe wn llawer peth, pun a wn i hwna neu bido," mynte hithau.

"Gad dy lap, a grondo," myntwn i. "Rhyw greduried rhyfedd yw pobol drws nesa."

"Rhai od yw pobol drws nesa pawb bob amser gwlel," mynte Liza.

"Ie, ie, mae hyny'n brion yn i le. Ond rwy'n gweyd wrthat ti mai rhai od ymbeidus yw'r rhai hyn."

"Beth gest ti i feddwl hyny, Wil?"

"Nid meddwl netho i, ond gwbod. Gei di wel'd yto mod i'n right, ac mai rhai od yw pobol drws nesa."

Ac fe gas wel'd hefyd, a fe geso innau wel'd, a chi gewch chithau wel'd os darllenwch chi dipyn bach.

Par ifanc newydd briodi oen nhw, druain bach, heb fod yn cadw ty ariod o'r blaen, ac yn gwbod fawr ddim, neu lai na hyny, am ofidiau'r byd presennol. Roedd y wraig ifanc wedi cael ysgol anghyffredin, yn gallu hware'r piano'n rhwyddach na all Daf'r Gof hoelo scitshe. Ac am neyd cwaifers a gweill pren ynte, rhyw bethau, chi wyddoch, i ddodi ar gefnau stolau yn y parlwr, a shwd bethach a hyny, dirdishefo ni! fe gnese nhw fel ci yn trotian—er na weles i ddim ci yn gneyd antimacassars chwaith, pun ai wrth drotian neu wrth sefyll.

G4011a

Roedd hi wedi cael ysgol gwyr mawr, chi wyddoch, wath rodd hi'n dod o deulu go genteel dybygsw'n i, a digon o fodd gyda nhw allsw'n i feddwl. Ond os cas hi ysgol boarding school merched, chas hi ddim ysgol cadw ty na chw'rdd a gofidiau'r byd ariod, druan ohoni! Tae hi'n fapa shawl, fyse hi ddim yn gw'bod llawer llai am fyw nag a wyddai hi pan ddaeth hi i fyw drws nesa i ni. Ond chymersai hi ddim o'r byd am adael i neb feddwl nag oedd hi'n gw'bod y cw'bw' hefyd.

Wydda chi shwd dethon ni i w'bod. Mae morwn drws nesa, Sarah, a Jane, y morwn ni, yn bartners anghyffredin—weithiau. Wel ta beth, dyma'r stori fel ceso i hi o ben Jane, y morwn ni, a hithau wedi ei chael hi'n ffresh y pryd hyny gan Sarah, morwn drws nesa.

Y diwarnod cynta wedi iddyn nhw ddod i fyw i'r drws nesa oedd hi. Dyma my lady, gwraig drws nesa, yn dod nol o'r dre, a'i basged bach ar ei braich, wedi bod yn negeseua esgus. Ac yn y fasged roedd tipyn o lettuce a radish, a phethau felny. Rhai embed yw'r Saeson, medden nhw, am fwyd glas. Ond ta beth, i fi gael gweyd wrtho chi, dyma'r wraig ifanc a'r fasged i'r gegin, ac yn ei doddi hi ar y ford.

"Sarah," mynte hi, ond taw yn Saesneg oedd hi'n gweyd, waeth Seisnes rhonc oedd hi. "Sarah," mynte hi. "Golchwch y lettuce a'r radish yna erbyn te."

G4011b

"Olreit, mym," mynte Sarah.

"Ie, mindwch chi ei golchi nhw'n lan, Sarah," mynte'i meistres wrth fyn'd mas drwy'r drws. "Does dim byd yn gasach gen i na chael pethau ar y ford heb fod yn eitha glan."

"Olreit, mym," mynte Sarah wed'yn. "Fe ofala i, mym."

"Cym'rwch ddwr twym, cofiwch, Sarah. Chewch chi ddim graen ar bethau, chi wyddoch, heb uso dwr twym."

"Olreit, mym," mynte Sarah, er na chlyws hi ariod o'r blaen chwaith am neb yn uso dwr twym at olchi lettuce a radish.

"Oh ie, Sarah," mynte i mishtres wed'yn, gan droi nol. "I fi gael gweyd wrtho chi. Uswch ddigon o sebon, da merch i."

Wel, fe fuodd Sarah jest a byrsto. Rwy'n shwr bysw'n i!

Meddylwch o brysur calon am y fenyw ddwl yn myn'd i uso sebon at olchi defnydd bwyd! Dyn helpo pwy bynag fyse'n gorffod byta'r lettuce hyny os gnath Sarah beth oedd ei meistres wedi gweyd wrthi! Mae llawer i wraig i withwr bach yn Nghymru yma yn ddigon pell ar ol falle mewn llawer peth, yn enwedig am daclu dipyn bach o fwyd yn rhadus ac yn ei flas, ond fe fentra i na fyse neb ohonyn nhw byth yn meddwl am uso sebon a dwr twym at olchi lettuce!

Chi allwch wel'd nawr pa'm rwy i'n gweyd mai hanes Profiad Par Ifanc o'vda gofidiau'r byd presennol sy gen i i adrodd wrthoch chi. Neu os nag y chi'n deall rhaid i fi weyd stori gwesyn wrthoch chi.

Cyn i Gwesyn fyn'd bant i'r Merica, roedd e'n myn'd aboutu'r wlad i ddarlithio, a'i destyn e oedd Caru, Priodi, a Byw. Rwy'n cofio'n nobl am dano fe yn darlithio ar y testyn hyny, ac wrth gwrs adrodd lot o hen storians caru. A dyma un ohonyn nhw.

Roedd hen chan yn shir Aberteifi, yn gryn dipyn bach o gybydd yn ei ffordd e, wedi cwmmpo mewn cariad a merch i ffarm fach yn yr ardal hyny. Ond doedd dim shwd beth a'i gael e i'r rhyd nac i'r bont. Fe dreiws yr hen lances yn mhob ffordd ar wyneb daear i'w dynu e i'r point, welwch chi, ond 'doedd dim a fynse fe a phriodi. Roedd e'n lico cael noswaith o garu yn nobl, ond keep off oedd hi os byse son am fyn'd i'r eglwys neu i office y registrar yn Llambed, neu rywbeth felny. Ond doedd dim o'r lodes yn lico hyny, a hware teg iddi, all merch ddim ffwrdo gwel'd ei hamser goreu yn myn'd hibo heb wneyd ei dyfodol yn siwr. Wel, un noswaith, roe nhw'n ishtech dou fach ar ben y star, a'r hen bobol, wrth gwrs, yn y gwely yn y parlwr bach, a dyma'r ferch yn tynu sharad am briodi.

G4011c

"Oh," mynte fe, "peth mowr yw gwynebu gofidiau'r byd presennol."

"Beth y chi'n feddwl wrth hynny?" mynte hithau.

"Oh," mynte fe, "meddyliwch am yr holl gost sy'n myn'd i gadw ty. Dyna'r sebon, a'r blue, a'r starch —"

On d cyn gallse fe fyn'd yn mhellach dyma hi'n rhoi gwith iddo nes oedd e lawr bendramwny dŵmbwr-dambar o dop y star i'r gwaelod!

Wel, fe ddihunws yr hen wr ei thad, a dyma fe'n gwaeddi,

"Betty! Beth sy na, los!"

"Oh," mynte hithau'n dawel fach, "does dim niwed yn y byd, towlu gofidiau'r byd presennol lawr i'r star nes i."

"Gofidiau'r byd presennol?" mynte'i thad.
"Beth wyt ti'n feddwl, los?"

"Oh, sebon, blue, a starch Tomos Tyhen sy'n ei flino fe," mynte hithe, a dyma Twm yn ei choeso hi maes am ei fywyd.

Wel, nid yn yr un shwt yn gwmws roedd gofidiau'r byd presennol yn becsu pobol drws nesa ag o'e nhw'n blino Tomos Tyhen, ond gofidiau

G4011d

oedd pethau amgylchiadol bywyd i'r par ifanc run shwt. Ofni'r gost oedd Twm druan; ffeilu gw bod 'shwd i neud a'r arian oedd genty nhw oedd pobol drws nesa.

Hware teg i'r gwr ifanc, roedd e'n cyd-ddwyn a'r wraig ifanc i'r tipyn. Doedd e nemor byth yn achwyn, er na wyddai hi ddim mwy na mwl-syn shwd oedd cadw ty. Nid ei bai hi, poor thing, oedd hyny chwaith, ond bai y rhai cododd hi.

Ond roedd bai arni hithau hefyd. Fynse hi ddim am y byd i neb feddwl llai nag oedd hi'n gw bod y cw bwl—a rhagor hefyd.

Ar ryw sharad rhwng mishtres a hi rhyw ddiwarnod, fe wedws Mary mod i'n lico tato trwy'r pil. Nawr mae Mary, fel gwyddoch chi, yn eitha Seisnes, wedi cael tipyn o ysgol yn Lloegr, ac yn gw bod y gair right i uso yn Saesneg am bobpeth. A mae'n debyg mai "boil in their jackets" yw "berwi trwy'r pil" yn Saesneg. Felny dyma Mary'n gweyd,

"My husband likes his potatoes boiled in their jackets. He says they are ever so much nicer."

"So they are, of course," mynte'r wraig ifanc, false hi'n gw bod y cw bwl, welwch chi.

Wel, fe fuodd y fenyw fach yn fishe ymbeidus am rai diwrnodau wedi hyny, gyda'i nedwydd a'i defyn, a chalico newydd o'r shop, a wyddai Sarah ddim ar wyneb daear beth oedd hi'n neyd. Ond rhyw foreu dyma hi i'r gegin, ac yn gweyd wrth Sarah,

"Sarah," mynte hi, "rw i am gael tato drwy'r pil i gino heddy. Mae eich mishtir yn ffond iawn ohonyni nhw felny."

"Olreit, mym," mynte Sarah.

Ry chi'n deall, wrth gwrs, mai "in their jackets" wedws y wraig ifanc ac nid "drwy'r pil."

"A Sarah," mynte'i mishtres wrth fyn'd mas, gan estyn pecyn bach iddi mewn papur, "dyma'r jackets."

A beth y chi'n feddwl oedd y fenyw fach wedi bod yn neyd ar hyd yr amser? Gneyd lot o hen jacedi bach fel jacedi dol, i ddodi am bob taten!

G4011e

Ie, tawn ni'n marw.

Wn i yn y byd shwd gnath Sarah, pun a rows hi'r jacedi am y tato neu bido, rhyngty hi a'i busnes am hyny. Y ngwaith i yw adrodd y stori fel digwyddws pethau.

Wn i ddim pun ai'r jacedi anghytunws a stymog y gwr ifanc, neu beth, ond ta pun fe wedws wrth y wraig y prydawn hyny licse fe gael tipyn bach o newid ar ei gino weithiau.

"Rwy'n lico cig gwedder yn burion ambell dro," mynte fe. "Ond fe licswn dipyn bach o newid weithiau."

"O'r goreu, nghariad i," mynte hithau, "beth licsech chi? Tipyn bach o gig eidon?"

"Dyna chi!" mynte fe. "The very thing! Mae gen i housekeeper bach first-class!"

A dyma fe'n rhoi cusan iddi, nes ei gneyd hi mor falch a phaen.

Wel, i chi gael deall, leg o mutton oedd hi wedi ordro bob dydd hyd hyny. Ond dyma hi tranoeth i shop y twtsher, a hwnw'n bowo, waeth roedd hi'n gwsmer splendid, welwch chi.

"A leg of mutton to-day, mym?" mynte fe. "Beautiful mutton. Real Welsh, mym."

"No," mynte hi. "Rwy'n credu myna i rhywbeth arall heddy. Shwd gig eidion sy gyda chi?"

"Splendid, ma'am, welsoch chi ddim o'i well e erioed. Un ginog ar ddeg y pound, mym."

Roedd y blagard yn codi dwy ginog y pound fwy na ddylse fe, am nag oedd hi, poor thing, ddim yn deall.

"That will do then," mynte hi. "Send me in to-day a nice leg of beef!"

A bant a hi wedi ordro legen gyfan o gig eidion erbyn cino!

(I'w barhau.)

G4011f

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD II.—SOCIETY FOR PREVENTION OF CRUELTY TO HUSBANDS. — CAWL SGWARNOG.

'Roedd tipyn bach o "come up," welwch chi, yn dynon drws nesa' pan ddetho nhw gynta i fyw i Laurel Villa—a mae yto o ran hyny, yn enwedig i rai sy' ddim yn eu nhabod nhw. Ond dynon bach ffein ymbeidus ceson ni nhw wedi i ni ddod i nhabod nhw unwaith. Ry' chi'n gwel'd, mae nhw'n dod o ddynon go uchel—fel mae gwaetha'r modd iddyn' nhw, druain bach, a'r wraig ifanc, poor thing, ddim wedi arfer cael gneyd dim byd a'i deg ewin eriod.

A nawr, gwedwch chi, pwy synwyr yw codi merched fel'ny, a'u dod i nhw i gadw ty? Mae'n waeth o'r ddou na hala shopwr i gadw ffarm, neu withwr odd'ar ochor yr hewl i gadw shop milliner yn Llynden! Fe ddyl'se fod cosp ar rieni sy'n codi merched heb wbod dim byd am-boutu cadw ty. Fe ddyl'se'r Parliament gymeryd y mater mewn llaw. Mae gyda ni Society for Prevention of Cruelty to Animals, ac un arall i ofalu am y plant. Ac os ceir ffarmwr yn gwitho ceffyl fydd a thipyn bach o gig roeth o dan y cyfrw, neu lle bo'r harness yn rhwto yndo fe, fe fydd yn "come to book" arno fe yn go handi. Ac os bydd dynon yn esgeuluso'r plant, a pido'u cadw nhw'n lan, a rhoi tamed o ryw-beth rhesymol iddyn nhw fyta, fe gaiff y tyuon hyny lodging yn y jail. Nawr, dw i'n gweyd dim gair o'm mhen yn erbyn pethau fel 'ny, welwch chi, ddim gair! Pethau nobl y nhw, os dim dowt, waeth mae gofyn i ddyn ddryched ar ol ei anifel fel ar ol 'i blentyn, ac ar ol ei blentyn fel ar ol ei anifel. Nid achwyn am y rheiny w i.

J4225

Ond dyma beth sy' gen i i weyd. Pa'm ry' ni'n cyfyngu'n gofal i'r anifeiled a'r plant? Dyna'r peth ag e, yw hwna! Pa'm na bai ni yn dryched ar ol y gwyr priod ifenc, poor things?

Pa'm na fyse rhyw un yn starto Society for Prevention of Cruelty to Husbands? Fe join-swn i yn un ta beth---nid cofiwch am fod Mary yn greulon ata i, dim shwd beth; mae Mary'n gystal menyw fach a garnodd ddaear erioed. Ond meddylwch o brysur calon am yr holl greu-londeb sy'n cael ei gyflawni bob blwyddyn, a bob dydd o'r flwyddyn o ran hyny, wrth adel i fachgen ifanc bach nice gwmpo i ddwylo merch na wyr hi ddim mwy am gadw ty nag a wyr hi am hedfan, na dim cymen o ran hyny, wath mae gyda hi ddigon o feathers gall'se hi hedfan, ond dim mwy o noshwn am gadw ty na thaclu pryd o fwyd na sy' gyda'r gwcw am hware piano!

A nawr, rwy i'n gweyd mai Cruelty to Husbands yw peth fel 'ny, a dyl'se'r Parlament gym-ryd y mater mewn llaw. Ddyl'se dim un merch gael priodi nes byse hi wedi enill certifi-cate ei bod hi'n gallu golchi a swmddo, glychu tos a chrasu bara, cyneu tan a golchi llestri,—a glanhau lettuce heb uso dwr twym na sebon atyn nhw! Dyna chi beth w i yn ei gredu, a dos dim ods gen i pwy fo'n ei wbod e' hefyd, dyna chi!

Ond ta p'un, i fi gael gweyd wrtha chi am y par ifanc drws nesa', a shwd daeth Mary ni gynta i nabyddiaeth a nhw.

Roe nhw—Mr Clifford Cleveland a Mrs Maud Cleveland yw eu henwau nhw — wedi bod yn byw drws nesa am rai wthnosau cyn i ni sharad dim un gair a nhw. Nid am nag o'en ni'n ddi-gon parod i dori sharad os licsen nhw, nac am wn nag oen nhwnte'n ddigon parod i dori shar-ad hefyd os licsen ni; ond rywffordd neu giddyl,

J4226

'doedd neb ohonon ni wedi gneyd,—a phob un yn meddwl mai ar y llall 'roedd y bai. Ond ta beth, dyna shwd y buodd hi.

Wel, 'roedd y wraig ifanc yn arfer myn'd bob boreu gyda'i gwr i lawr hyd at gat y ffrynt pan byse fe'n myn'd at ei fusnes yn y boreu amboutu deg o'r gloch, neu rywbeth fel 'ny, a dyna lle bysen nhw yn caru spel fach fan 'ny cyn iddo fe fyn'd. Fe gweles nhw a'n llyged y'n hunan lawer gwaith, a fe glwes Mary'n gweyd eu bod nhw'n gneyd fel 'ny bob boreu yn gyson.

Gweyd hyn w i, cofwch chi, i chi gael gwel'd mai par bach cytunus cariadus anghyffredin oe'n nhw, a nid gweyd er mwyn hala clecs. Does dim byd yn waeth gen i na dynon sy'n edrych ar ol busnes pawb ond eu hunain.

Ond ta p'un, 'roedd Mary ni ma's yn yr ardd yn y ffrynt rhyw foreu yn mhen ychydig fynydau wedi i Mr Cleveland fyn'd at ei fusnes, a dyma hi'n clywed fel'se rhyw un yn llefain.

Wel, dyma hi'n grondo, wrth gwrs, a fe ddeallws yn union mai rhywle tua'r ty nesa 'roedd y llefain. Fe ath at y railings rhwng y ddwy ardd ffrynt, ac fe edrychws, ond welws hi ddim byd ar y cynta. Ond yn mhen spel fach, fe welws fod ffenest parlwr y ffrynt drws nesa yn gil agored, ac yn ishte gan bwysu ei phen ar y ford, ac yn llefain jest tori ei chalon, 'roedd y wraig ifanc drws nesa, Mrs Cleveland.

I chi gael deall, nawr, mae ffenest parlwr y ffrynt y ddou dy yn agor lawr i'r llawr, jest fel drws glass yn gwmws, a ry' ni'n gallu myn'd mewn a maes ffor'ny i'r ardd neu'r lawn.

Wel, pan welws Mary ni'r fenyw fach yn llefain fel 'ny jest tori ei chalon, fuodd hi fawr o dro cyn myn'd ati. Whiw a hi maes trwy gat y ffrynt ni, a whiw a hi miwn trwy gat y ffrynt nhw, ac heb aros i ystyried beth oedd hi'n neyd dyma hi mewn drwy ffenest parlwr drws nesa, ac yn penlino ar bwys ochor y fenyw fach, ac yn tynu ei phen hi ar ei hysgwydd hi, ac yn sisial yn ei chlust hi.

J4227

"Dere di, merch fach i! Paid ti a becsio fel 'na, nghalon i! Os rhywbeth alla i neyd i ti?"

Fel bydd menywod a'u giddyl, chi wyddoch!

"Oh, Mrs Roberts fach! Rwy'n falch eich gwel'd chi!" mynte'r fenyw fach,—ond mae yn Saesneg, wrth gwrs, 'roedd y p'le i gyd gan na wyddai Mrs Cleveland ddim Cymra'g, welwch chi.

Fe sylws mishtres mewn mynyd fod y fenyw fach yn gwbod ei henw hi, er na fuodd dim gair o sharad rhyngty nhw a'u giddyl eriod cyn hyny. A fe ddeallws, wrth gwrs, ar unwaith fod y fenyw fach wedi bod yn holi Sara'r forwm am dano ni, a hono, mynta chi, wedi gweyd wrthi pwy o'en ni, a phobpeth fel 'ny.

Ond ta beth, dyna shwd dechreuws y sharad.

"Oh, Mrs Roberts fach! rwy'n falch eich gwel'd chi!" mynte hi, a dyma hi'n towlu ei breichiau am wddwg Mary, welwch chi, ac yn llefain y dwr yn hiledd!

"Dewch chi, merch i! Gwedwch wrtha i beth sy'n eich blino chi," mynte mishtres, fel'se hi'n sharad a phlentyn bach, yn gwmws.

"Oh, Mrs Roberts anwl! All Mr Roberts neyd rhywbeth i fi?"

"Fe gaiff drio ta beth," mynte mishtres.

"All e'n helpu i i ddala sgwarnog?" mynte hi, gan blethu ei dwylo fel'se hi'n gofyn am bardwn am ei bywyd.

Fe gredws mishtres fod y fenyw fach wedi colli arni ei hunan, a dyma hi'n dechreu meddwl shwd gell'sid fyn'd a hi i Gaerfyrddin, lle mae'r sylum, chi wyddoch.

"Dewch chi, merch fach i," mynte hi, gan dreio'i pherswado hi, er mwyn ei chael hi'n dawel am dipyn bach. "Ga i hala William i moyn Mr Cleveland?"

"Oh! for heaven's sake, no! Don't! Na. Pidwch, er mwyn daioni, pidwch!" mynte hi, gan ddechreu llefain o'r newydd.

J4288

Wel, wyddai Mary ddim ar wyneb y ddaear beth i neyd, a 'roedd hi'n hanner dyfaru ei bod hi wedi myn'd miwn o gwawl, waeth peth embed welwch chi yw bod y'ch hunan gyda rhyw un a cholled arnyn nhw.

Ond ta p'un, fe lwyddws i dawelu tipyn ar y fenyw fach bob yn dipyn, a mhen spel fach, dyma hono'n gweyd ei stori.

"Ry' chi'n gwel'd," mynte hi. "Mae Clifford yn meddwl nag oes dim fath fenyw a fi yn y byd."

"Does e' ddim chwaith," mynte mishtres,—gan weyd yndi ei hunan; "a diolch i'r Mowredd am hyny."

"Wel, rw i wedi bod yn trio ngoreu i gael y bwyd goreu all'swn i gael iddo. Ond fe flinws ar leg of mutton, a fe dreies leg of beef—ond rywffordd neu giddyl, 'doedd dim o hwnw fel licswn i ei wel'd e' wedi iddo ddod i'r ford."

(Roedd y bwtshwr, hware teg iddo fe, yn lle hala quarter ol eidon, na hyd yn nod rounding cyfan, wedi hala pishyn bach nice o gig eidon at rosto—tae hi'r, ffoles fach, yn gwbod y ffordd i'w drin e' ar ol ei gael e'.)

"Ie," mynte mishtres.

"Wel, fe etho i prydawn ddod i'r shop, a fe brynes cookery book, i fi gael gwel'd yn gwmws shwd oedd gneyd."

"Hm," mynte mishtres.

"A boreu heddy fe ofynes i Clifford beth licse fe gael i gino heddy."

"Ie."

J4229

"A fe wedws—fe wedws,"—a dyma'r dagrau'n dechreu dod wed'yn.

"Ie, gwedwch chi, merch i," mynte Mary yn dyner, er mwyn rhoi calon iddi.

"Fe wedws licse fe gael 'stewed hare,' cawl sgwarnog, chi wyddoch."

"Ie," mynte Mary. "Peth digon rhwydd ei wneyd yw hyny. Fe ddangosa i'r ffordd i chi, os licwch chi."

"Oh, Mrs Roberts bach! Nid dyna'r drafferth. Ond shwd galla i ddala'r sgwarnog, dyna'r cwestiwn!" a dyma hi'n llefain o'r newydd.

"Los fach ddwl," mynte mishtres. "Beth sy' arnat ti! Dala'r sgwarnog wir! Ond does digon i gael yn y shop yn y dref?"

"Oes, oes! rwy'n gwbod hyny. Ond naiff hyny ddim mo'r tro. Dishgwylwch yna, dyma beth mae'r cookery book yn ei weyd."

A dyma hi'n troi dail yr hen lyfr nes dod at y fan oedd yn gweyd yn nghylch stewed hare.

"Dyma fe," mynte hi. "Dyma mae e'n ei weyd."

"First catch your hare." (Yn nghyntaf oll, daliwch eich sgwarnog!)

"A dyna chi!" mynte hi, "a shwd galla i ddala sgwarog! Oh, Mrs Roberts, gaiff Mr Roberts y'n helpu i?"

Wel, fe hwarddws mishtres maes dros y lle. All'se hi yn ei byw beido, mynte hi. 'Roedd y fenyw fach ddwl wedi meddwl fod yn rhaid iddi hi ei hunan ddala'r sgwarnog cyn byse'r cawl sgwarnog yn iawn yn ol y risait yn y llyfr!

Wel, fe perswadws Mary hi, ac yn mhen hanner awr, dyna lle 'roedd y ddwy yn myn'd lawr i'r dre' i ddala sgwarnog o'r shop, yn lle ar y caeau, a fe ddangosws Mary'r ffordd iddi neyd y cawl sgwarnog, a fe fentra i weyd fod Mr Cleveland wedi cael cinio mwy blasus y diwrnod hyny nag a ga's e' er's tro!

(I'w barhau.)

J4230

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD III.—EXAMINATION I FERCHED IFENC.—AELODAU SENEDDOL YN FEIRNIAID.—SHWD I FERWI WYAU.

Fe ddaeth Mari ni a gwraig ty nesa'n bartners anghyffredin ar ol i Mari ddangos i Mrs Cleveland shwd oedd gwneud cawl sgwarnog heb iddi hi ei hunan ddala'r sgwarnog yn nghynta. Ond dyn anwyl! 'Roedd yn annodd gyda'r fenyw fach ar y cynta i gydnabod nag oedd hi'n gwbod y cwbl—a mwy hefyd. A doedd dim o mish-tres, welwch chi, yn lico fforso ei hunan ar y fenyw fach, na gweyd llawer o ddim wrthi yn lle ei digio hi, welwch chi. Ond roedd e'n ofid calon gyda hi, sereh hyny, nid yn unig i wel'd y fenyw fach yn dishtriwfa gwerth arian o bethau o ishe gwbod y ffordd i huso nhw, ond ei bod hi hefyd yn dishtriwfa cysur y teulu, y gwr a hithau—heblaw rhoi achos i'r forwm i sharad.

Fe ddysgws bob yn dipyn, mae'n eitha gwir, ond fe gymrws amser ymbeidus cyn iddi ddod yn ffit i fod a gofal ty arni,—ac am wn i na fyse hi cynddrwg heddy ag eriod onibai fod Mari ni wedi cymryd ati, ac wedi gneud beth ddylse ei mam fod wedi wneud a hi o'r dechreu, sef ei dysgu hi i neud rhywbeth a'i deg ewin heblaw rhyw hen facrami a fal lal felny. Hen beth digon gwael mewn cylla dyn ag ishe bwyd yw tipyn o macrami, a dyw antimacassar fawr werth i fagu plant arno fe. Ac eto i gyd dyna jest y cwbl wyddai'r fenyw fach shwd i neud —er, hware teg iddi, fe nesai hi rheiny'n brion. Ond beth oedd hi well o hyny pan oedd pethau pwysicach o lawer na wyddai hi ddim ar wyneb daear am denyn nhw?

J4231

Rwy'n gweyd yto, a waeth gen i pwy fo'n ei wbod e, mae'n gwilydd, ar odi, fod merched yn cael eu hala i briodi, ac esgus cadw ty, heb wbod mwy na gwddihw yn nghylch gofidiau'r byd presennol na dyledswyddau gwraig a mam plant. Pwy synwyr, nawr, oedd hala Mrs Cleveland fel ny i reoli yn Laurel Villa, na wyddai hi ddim mwy na chos cabetshen am gadw ty! Mae peth fel ny'n gwilydd, ar odi, a rwy'n synu fod dou ddyn call fel Abel Thomas a Lloyd Morgan, un yn witman, a'r llall yn hen fachgen gwedd, wedi bod cyd yn y Parliament a heb neud dim byd i wella peth fel hyn. Fe allse dyn feddwl mae'r peth cynta' ddylse aelod Seneddol neud fyse gneud cyfraith nag oedd neb i gael priodi heb baso examination mewn cadw ty.

Falle'ch bod chi'n gofyn pwy fyse'n cadw'r examination? Wel, mae hwna'n gwestiwn prion, ond pidiwch chi a meddwl ych bod chi wedi nala i nawr drwy ei ofyn e chwaith. Rw i'n rhy wide awake i hyny. Dw i ddim wedi bod yn briod a Mari ni yr holl flynyddau hyn heb ddysgu mindo'n hits, credwch chi fi.

Wel, nawr te, am inspectors, neu examiners, beth pe byse ni'n gweyd yn shir Gaerfyrddin nawr, am neud Abel Thomas a Lloyd Morgan, y ddou aelod Seneddol, ei hunain yn arholwyr? Mae Abel, fel gwddoch chi, yn gwbod beth yw ty a theulu, ac fe ddylse Lloyd Morgan fod yn gwbod erbyn hyn hefyd, rhog cwiddyl iddo. Ac am y dull o gario'r examination yn mlaen, beth fyse i bob merch ifanc oedd yn moyn priodi fyn'd i gadw ty am wthnos neu bythewnos, i'r member of Parliament? Os nag yw Lloyd Morgan yn briod, fe allse farnu shwd oedd y lodes yn gneud ei gwaith yn y ty, pun a oedd y bwyd yn cael ei bartoi fel dylse fe neu bido, pun a oedd y dillad gwelyau'n galed, pun

J4232

a oedd bytynau ar ei gryd e, a phethau fel ny, ta beth. A dyn a wyr, falle byse'i brofiad e o ambell i ferch yn ddigon o swmbwl iddo ynte i neud ei ddyledswydd yn y byd yma hefyd.

Ond nid hyny oedd gen i mewn llaw, chwaith, ond profiad y par ifanc sy'n byw drws nesa', sef Mr a Mrs Cleveland, a nawr, i fi gael gweyd gair bach yto am denyn nhw, waeth dyw hi ddim yn amser lecshwn nawr ini fyn'd i bwysu Abel Thomas a Lloyd Morgan.

Wel, ta, rwy'n diolch i'r mowredd na ddath dim o Mrs Cleveland i'n rhan i, ta beth! Dw i ddim yn gweyd nag oes beiau yn Mari ni, weithiau, weles i ddim menyw heb ryw fai eriod; heb ei fai heb ei eni, medde'r hen hweddel ontefe. Ond ta beth yw bai Mari dyw ffaelu taclu pryd o fwyd yn ei flas ddim yn un o henyn nhw, a dyw dishtriwa bwyd a defnydd bwyd ddim yn un o henyn nhw. Fe wyr Mari shwd mae cadw ty, a shwd mae gneud y goreu o bob gwerth cinog yndo fe, hware teg iddi. Ond shwd mae Mr Cleveland wedi gallu byw gyda'i wraig fach drws nesa am gymaint o amser heb dori'r llechi, wn i ddim!

Fe aeth mishtres miwn yno mewn diwarnod neu ddou ar ol dala'r sgwarnog, er mwyn cael tori ple a'i chymdoges, a chael gwel'd os gallse hi agor llygid y fenyw fach yn mhellach ar ryw-beth. Ar ol spel o sharad am y peth hyn a'r peth arall, dyma wraig drws nesa' yn gweyd yn syden:—

"Oh, gwedwch wrtha i, Mrs Roberts, shwd mae berwi wyau? Rwy'n ffeilu'n lan a berwi nhw wrth fodd Clifford."

"Shwd mae e yn ei lico nhw?" mynte mishtres, "yn galed neu ynte'n soft?"

"Oh, yn soft mae e'n eu lico nhw, ond rwy'n ffaelu'n deg a'u cael nhw'n soft. Rwy'n meddwl weithiau mai natur y calch all fod yn y dw'r ffor' hyn, gan taw o'r Mynydd Du mae'r dw'r yn dod, a chi wyddoch fod tuedd mewn dw'r calch i galedi."

J4233

Ry chi'n gwel'd roedd y fenyw fach wedi cael pŵer o ysgol, ac yn gwbod peth ymbeidus yn nghylch geography, a geology, a geo pobpeth ond geo cadw ty. Roedd ar mishtres ofan treio ei hateb hi ar y cynta' rhag ofan iddi hwerthin maes, mydde hi, waeth roedd hi jest a byrsto gan hwerthin, wrth glywed y fenyw fach yn gweyd mai dw'r calch oedd yn gneud yr wyau yn galed.

Wrth wel'd mishtres yn gweyd dim, dyma'r fenyw fach yn magu calon ac yn myn'd mlaen.

"Bryd arall, rwy'n meddwl weithiau, fod eich wyau chi yn Nghymru yma'n wahanol i'n rhai ni yn Lloeger, a rw i wedi bod yn meddwl er's tro i ofyn i chi, Mrs Roberts, shwd i chi'n berwi wyau ffordd hyn?"

"Oh, run peth a rhywle arall am wn i," mynte mishtres.

"Odych chi'n doddi halen a finegar yn y dw'r i'w berwi nhw?"

"Na fydda i," mynte mishtres.

"Wel, rw i wedi treio nhw bob ffordd jest iawn, ond yr un peth yn gwmws mae nhw wed'yn," mynte'r fenyw fach. "Rw i jest a danto, a gweyd y gwir. Wysh a nese chi gymwynas fach a fi, Mrs Roberts?"

"Gna i, merch fach i, yn union os galla i," mynte mishtres.

"Wel wir, te, berwch cwpwl o wyau i fi erbyn te i Clifford fory, fel galla i wel'd am shwrnô, a falle galla inau neud wedyn."

"Gna i, os licwch chi, mewn myned," mynte Mari. "Fe gna i e heddy, os liciwch chi."

"Oh fe licswn tae digon o amser," mynte hithau. "Ond ry chi'n gwel'd fe fydd Clifford gartre mewn llai nag awr, a rwy'n ofni felny na fysen nhw ddim yn ffit."

"Ddim yn ffit mewn awr?" mynte mishtres mewn syndod.

J4234

"Na fyddan wir!" mynte'r fenyw fach yn siriws ei gwala. "Fe berwes i nhw'n hunan ddoe am dros awr a hanner, a fe'i treies nhw a'r ffore ddwsen o weithiau, rwy'n shiwr o hyny—ond roe nhw'n teimlo mor galed yn mhen awr a hanner ag oe nhw pan ddodes i nhw miwn gynta!"

A fe ddrychws mor druenus yn llygid Mari fel i hono jest a myn'd i lefen gyda hi yn lle hwerthin.

Wel, ta pun, fe ddangosws Mari iddi shwd i ferwi wyau, er nag oedd dim awr o amser cyn te. A roedd yn ddigon o sight i chi wel'd y fenyw fach byth wed'yn yn berwi wyau. Fe dynse'i watch maes,—watch aur splendid, a fe ddodse hono ar y ford, gan farco i'r dim pryd byse hi'n dodi'r wyau yn y sospan. A dyna lle byse hi wed'yn, a'i llwy yn ei llaw, a'i llygid ar y watch nes dese'r pedair myned i ben, a wed'yn dyma hi'n neido a chodi'r wyau o'r sospan—a meddwl, poor thing, ei bod hi'n gneud rhyw wyrth anghyffredin ei bod hi'n gallu berwi wy yn soft yn lle yn galed!

(*l'w tarhau.*)

J4235

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD IV.—DYSGU NOFIAD.—ENILL BRECWAST.—BEUDY FFASIWN NEWYDD.

Falle na chredech chi ddim, ond mae e'n eitha gwir beth w i'n weyd wrtha chi am y par ifanc yma. Dw i ddim yn beio cyment arno chi am bido credu—os y chi mor ddwl a gneud hyny—wath prin y credsw'n i'n hunan onibai mod i wedi gweld a chlywed Mr a Mrs Cleveland a'n llygid a'n nghlustau'n hunan. Mae'n syn meddwl, a gweyd y gwir, fod dou shwd fapa i gael yn y byd yma. Ond os nag w i'n camsyned, mae llawer dou run shwt a nhw, neu'n go debyg iddyn nhw, i'w cael,—mor debyg, yn wir, fel y gallech chi weyd mai "dou frawd yw'r ddou freuddwyd."

Ond, nawr, rhag i chi feddwl fod hiten gen i at y menwod, ac mai arni hi, y wraig ifanc, poor thing, roedd y bai i gyd, gedewch i fi weyd wrtho chi rhywbeth am llano yntau, Clifford, os galwodd ei wraig e.

Roedd yntau, welwch chi, fel hithau, wedi cael codiad da ymbeidus, wedi cael pwer o ysgol a phwer o foethau, a phwer o dolach—ond yn gwobod dim mwy am ofidiau'r byd presennol cyn priodi nag a wyr gwdihw am y Crystal Palace. Dyna shwd bartoians gas e, welwch chi, at fyn'd i gwrdd ac ymladd a'r byd, cadw'r gwynt rhag hwthu arno, cael gweishon a morwnion i neud pobpeth drosto, ac am un i ddodi'r bwyd yn ei ben e—a weithiau roedd e false hi'n ormod o job iddo fe i fyta'r bwyd ar ol ei gael e yn i ben. Does gen i ddim amynedd gyda pheth felna.

J4236

Rw i'n gweyd riod dylse pob un gael ei ddysgu o'r gadair i ymdopi drosto'i hunan.

Mae nhw'n gweyd wrtha i fod rhai pobol baganaidd sy'n byw ar lan y mor yn cymryd babis bach newydd eni jest, yn mhell cyn bo nhw'n gallu cerdded, ta beth, a'u towlu nhw i'r mor i gael betlo a'r tonau goreu gallan nhw. Mae'r fam yn eu bugeilia nhw, wrthi gwrs, fel na cha nhw ddim boddi, a mae'r hen wrdrwg-iaid bach yn dysgu nofiad fel hwyaid cyn bo nhw'n gallu cerdded. A meddylwch chi gyment o beth yw hyny iddyn nhw nawr.

A fe glywais i weyd am rhyw genedl o bobol oedd yn uso bwa saeth, eu bod nhw er mwyn dysgu'r cryts i saethu'n gwmws, yn dodi brecwast pob crwt allse ddala bwa, ar ben polyn, a allse fe ddim cyrhaedd hwnw, a'r unig ffordd allse fe gael ei frecwast fyse trwy ei saethu e i lawr a'r bwa saeth. Falle'ch bod chi'n meddwl fod hyny'n gyfraith go galed a'r cryts, ond pan feddyloch chi doedd e ddim. Yn wir, y caredigrwydd goreu ellsid byth neud a nhw oedd e, wath, ry chi'n gweld, roedd e'n eu dysgu nhw shwd i gael eu bywoliaeth ar ol llaw, pan taw ar y bwa saeth roe nhw i ymddibynu am frecwast a chino, a the a swper, ie, a dillad a phob peth.

Rw i wedi meddwl lawer gwaith byse hi'n dda i neud rhyw gyfreth tebyg i'r ddwy yna gyda chryts y dyddiau hyn. Nid yn gwmws falle, eu towlu nhw'n fabis bach i ganol y dŵr, a nid dodi eu brecwast nhw ar ben polyn i'w saethu cyn cesen nhw i fyta fe. Ond yr un egwyddor, chi wyddoch, eu dysgu nhw o'r gadair i enill eu bywoliaeth, neu o leia i neud rhywbeth ddese yn help iddyn nhw shag at hyny. Rhy fach o hyny lawer iawn sydd yn ein dyddiau ni, nes bo llawer bachgen ifanc yn mynd i dreio cadw gwraig cyn bo fe'n gwbod y ffordd i gadw ei hunan.

J4237

Nid, mindwch chi, na allse Mr Cleveland gadw'i hunan a'i wraig yn nobl yn ei fusnes ei hunan. Roedd e'n eitha mishter ar ei alwedigaeth, hware teg iddo fe, a rw i'n parchu dyn fo'n fishtir ar ei waith, ta ble bydd e, pun ai rhwng dou corn yr arad, neu lapston ar ei arffed, neu'n sefyll uwch ben yr eington, neu tu ol i'r cownter, neu'n cownto arian yn y bank, neu'n tori cerig ar ochor y ffordd. Bod yn fishtir ar ei waith gan nad beth y bo fe, dyna sy ishe, welwch chi. A fel rw i'n gweyd wrtha chi, roedd Mr Cleveland yn eitha mishtir ar ei fusnes ei hunan.

Ond druan ag e! Unwaith esech chi ag e tu fas iddi fusnes ei hunan, roedd e fel bapa yn gwmws. Chi allsech ei dwyllo fe dan ei drwyn. A dyna'r cebyst, welwch chi, roedd e fel hithau'n ormod o ddyn i ofyn i neb. Fynse fe ddim i neb feddwl nag oedd e'n gwbod y cwbl.

I fi gael gweyd wrtha chi nawr. Fe ddaeth now arno fe i gadw buwch, a chan nag oedd dim boudy wrth Laurel Villa, fe ath yn nghyd a bildo un yn ngodreu'r ardd. Wel, yn lle gweyd wrth y meiswn a'r saer mai ishe boudy oedd arno fe, dyma fe yn nghyd a thynu plans mas iddyn nhw fildo'r lle. A roedd y plans mor grand, welwch chi, fel na feddylws y nghalon i erioed mai dim ond boudy i fuwch oedd gydag e mewn golwg—a feddylws y crefft-wyr ddim chwaeth. Fe dreison yn mhob ffordd gwydden nhw am dano fe i dynu orwtho fe beth oedd y lle dda. Ond wedse fe ddim.

Roedd yno wad o bortsh mawr o flaen y drws, a ffenestri mawr yn agor fel ffenest drawing-

J4238

room, a phanel's coed tu fewn felse chi'n mynd i dy plas gwr bynheddig. Ac ar y llawr roedd gydag e ryw fath o garped tew o wellt wedi ei blethu yn gywrain anghyffredin, felse chi'n meddwl nawr am Indian matting yn hwech neu saith trwch nawr.

Yn y pendraw roedd yno ffram gwely mawr, gyda'r mwya weles i eriod, a phystwn hwnw wedi eu carvo felse chi'n meddwl am bystion star pwlpud ty cwrdd mawr. Ac ar hwnw roedd yno fattras gwellt splendid, cymaint a'r ddou wely mwya weles i eriod yn y mywyd.

Ac ar draed y gwely dyna lle roedd cwilt a blancedi mawr trwmon.

Ar ryw sharad rhynto fe a finnau fe wedes i ei fod e'n gneud building pert ymbeidus yn ngodreu'r ardd.

"Odw," mynte fe. "Rwy'n credu gneith e'r tro. Dewch i weld e."

A bant a ni'n dou i weld y lle, heb fod gen i y drychfeddwl lleia ar wyneb y ddaear beth oedd y lle dda.

A dyna shwd ceso i weld y lle.

Ond fe weda i ragor wrtho chi am dano fe y tro nesa.

(I'w barhau.)

J4239

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PENNOD V.—CARTRE'R FUWCH FENYW.

Wel, fel own i'n gweyd wrtho chi wyddwn i ddim byd beth oedd gan Mr Cleveland ar waith yn yr ardd. Down i eriod wedi gofyn iddo fe, er fod digon o hwant wedi bod arna i lawer gwaith, a gweyd y gwir, wath rown i'n ffeilu a deall beth yn enw'r gwr drwg allse fod gydag e ar waith, welwch chi.

Ond wedi iddo fe geisho gen i felny i fyn'd gydag e i wel'd y lle, fe feddyles, welwch chi, fod gen i eitha shawns o'r diwedd i ddod o hyd i'r holl ddirgelwch. Ond feddylws y nghanon i ddim gallse neb byth fod mor ddwl ag oedd y gwr drws nesa' wedi bod gyda'r fusnes yma.

A fel rown i'n gweyd, fe aeth a fi miwn trwy'r ardd i wel'd y lle, a roedd golwg beautiful arno a gweyd y gwir, building hanswm anghyffredin oedd e. 'Roedd portsh agored mawr llydan o flaen y ty, a bargoedydd mawr llydain i'r to round about, a gwelydd y ty wedi cael eu gweithio'n gywain mewn bricks o bob lliw—welsoch chi, rwy'n siwr o hyny, ddim lle pertach eriod.

Cofiwch, wyddwn i ddim pryd hyny at beth oedd y lle dda, a dyma fi'n gweyd:—

"Wel yn y ngwir i'r dyn mae gyda chi le pert afnadw yma."

"Ody chi'n ei lico fe?" mynte fe.

"Does dim ishe i neb i bido'i lico fe, gwlei," myntwn inau. "Hidswn i ddim llawer byw yma'n hunan."

"Jocan y chi, nawr," mynte fe, gan wenu, ond rown i'n gwel'd pe eitha da ei fod e wrth fodd ei galon mod i'n rhico tipyn ar y lle hefyd.

"Wel nage, o brysur," myntwn inau. "Dw i ddim yn jocan. Weles i ddim pertach lle bach ariod am wn i."

"Mae'n dda gen i'ch bod chi'n ei gymeradwyo fe," mynte fe. "Mae gen i ymddiried mawr yn eich barn chi am bethau sy'n perthyn i'r wlad, welwch chi. Ond rown i'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i gael lle tlws o gwmpas. Chi wyddoch gymaint yw dylanwad amgylchoedd, influences of environment, chi wyddoch. A rown i'n teimlo fod hyny yn bwysig iawn."

"Ody mae e, ry chi'n eitha right," myntwn inau—er na wyddwn i ddim ar wyneb y ddaear beth oedd e'n feddwl wrth "influences of environment" nes ar ol i fi fyn'd nol sha'r ty a gofyn i Mari, a hwilo yn y dictionary. A chan na wyddwn i ddim beth oedd e, y peth calla allsw'n i neud, am wn i, oedd cytuno ag e yn lle'i fod e'n ffindo mas na wyddwn i ddim yn nghylch y peth oe ni'n sharad am boutu e.

Rw i wedi cael hyny yn beth useful afnadw droion. A rhag eich bod chi'n meddwl mai fi yw'r unig ddyn call sy wedi ffindo hyny mas, drychwch chi yn eich Beibil, a chi gewch fod Solomon yn gweyd yr un peth: "Y ffol," mynte Solomon, "Y ffol tra y tawo a gyfrifir yn ddoeth." A felny teui wnes inau mewn ffordd, welwch chi, drwy gytuno a gwr ty nesa yn nghylch "influences of environment."

Ond i fi gael myn'd mlaen a'r stori.

Cyn myn'd mewn i'r lle, fe ethon ein dou round about iddo fe o'r tu fas, i gael eitha golwg arno; a dyna lle 'roedd eitha gravel walk round am boutu, a stripyn llydan o dywarch glas beautiful rhwng hwnw wedi hyny a'r building.

"Ry chi wedi gofalu am ddigon o gysgod, ta beth," myntwn i gan bointo a'r ffon at y portsh mawr a'r bargoedydd llydain.

"Odw," mynte fe, "cysgod rhag yr houl a'r glaw. Rw i wedi treio goreu gallsw'n i i ofalu

J6222a

(delwedd J6222a) (8 Gorffennaf 1899)

am bobpeth fel ny. Does dim byd yn waeth, medde nhw, na bod yn gorffod aros yn yr houl heb ddim cysgod, neu bod a'r cefnau yn wlyb."

"Nag oes, ry chi'n eitha right," myntwn i.

"Peth embed yw bod yn yr houl weithiau pan bydd hi'n boeth iawn. Mae llawer yn cael sunstroke wrth beido gofalu am beth ar eu penau."

"O rwy i wedi gofalu am hyny, fel cewch chi wel'd, pan ewn ni mewn," mynte fe.

A gwir y wedws e, fel cewch chithau wel'd maes law fach.

Rown i'n ffaelu deall hefyd pwy ishe son oedd arno fe am gael cefen gwlyb fan ny ar bwys y ty, wath neno rheswm fe allse dyn rhedeg i'r ty mewn wincad tae hi'n dod yn gawod arno fe yn yr ardd—ag ese neb mas i'r ardd i enjoyo'i hunan ar y gwlaw.

Wedi gwel'd y cwbwl oedd i wel'd o'r tu fas, fe ethon miwn i gael golwg ar y lle yr ochr tu fiwn. Felny miwn a ni'n dod drwy'r portsh mawr w i wedi son am dano, ac ar hyd y stripyn matting gwellt tew hyny, ac i mewn i'r room.

Room mawr splendid oedd e, y gwelydd yn waith panels splendid i gyd, a ffenestri mawr yn yr ochrau, a top rheiny yn agor wrth gordynon o'r tu fiwn, ac yn nghanol y to ar y top wad o bishyn mawr arall o do glass, a chordynon wed'yn wrth hwnw iddi agor e.

"Mae e'n lle goleu beautiful," myntwn i, wath fe welswn ei fod e'n dishgwl i fi weyd rhywbeth, welwch chi.

"Ody, ond dyw e'?" mynte fe. "Mae yr awdurdodau uchaf yn gweyd nawr fod digon o oleu a digon o awyr ffresh yn ddou o angenrheidiau penaf iechyd. A nawr, rw i wedi treio gofalu am ddigon o bob un o'r ddou."

A dyma fe'n cangos i fi rhyw gynllun rhyfedd oedd gydag e' at gael ventilation i'r lle, fel byse yno ddigon o awyr ffresh pryd y mynse fe dim ond twtsh rhyw handle fach.

"A ry chi'n gwel'd," mynte fe, "dyma'r beauty ohono fe. Fe allwch gael digon o ventilation heb gael dim drafft o gwbl. Dishgwylwch yma nawr."

A dyma fe'n troi'r handle, a fe glywn rhyw wish-wish-wish yn y wal round ambottu; a dyma fe wed'yn yn towlu dyrned bach o bapur wedi ei dor'n fan man lan, a rheiny'n codi a whiw a nhw ma's trwy'r twll yn nghanol y to fry, a dim tipyn o ddrafft i'w deimlo o gwbl. Roedd e'n syndod a gweyd y gwir.

All'swn i ddim llai na theimlo'i bod hi'n biti ymbeidus na all'sen ni gael rhywbeth fel'ny i'r ty cwrdd. Mae mor glos yno pan fydd y ty cwrdd yn llawn, a'r lampau wedi eu cyneuo, fel mae dyn yn cael gwaith cael ei anal. Ac os agorwch chi'r drysau a'r ffenestri, wed'yn, fe fydd yno ddigon o wynt i nithio gwenith, a dyna lle bydd pawb yn trwshan fel pe byse nhw mewn preimin trwshan. A fel rwy'n gweyd, all'swn i ddim llai na meddwl ei bod hi'n biti na ellid gneyd yn y ty cwrdd beth oedd Mr Cleveland wedi ei neyd yn y ty newydd yn yr ardd.

"Shwd y chi'n gneyd yn y nos?" myntwn i.

"Mae ishe goleu yn y nos, ond does e'?" mynte fe, gan gochi hyd ei ddou clust.

"Wel, oes, with gwrs, beth y chi'n feddwl?" myntwn innau'n fflelu deall fod y dyn yn gofyn cwestiwn mor ddwl.

"Wel, ro'wn innau'n meddwl hyny," mynte fe, "ond do'wn i ddim yn eitha shiwr. Ond rhag ofan byse ishe hyny, rw i wedi trefnu ar gyfer hyny hefyd. Dishgwylwch yma."

A dyma fe'n myn'd i gornel o'r room, yn agor drws bach fan 'ny, ac yn troi tap bach fan 'ny, a whiw! dyma oleu mor ddishglaer a'r houl ganol dydd yn tywynu uwchben.

"Dyn! Mae'n rhy damedd i fi!" myntwn i, wath all'swn i ddim dryched arno fe.

"O, neiff e' ddim gwahaniaeth iddi hi," mynte fe.

"Ry chi'n gwel'd nawr fydd ei llygid hi byth yn dryched tuag i'r lan."

"Llyged pwy?" myntwn i.

"Llyged y fuwch," mynte fe.

"Llyged pwy fuwch?" myntwn i wed'yn.

"Ond llyged y fuwch fydd yn y boudy hyn," mynte fe.

"Diwch anwl!" myntwn i. "Beudy! Nid beudy yw hwn! Diwedd anwyl, mae hwn yn edrych yn debyeach i bartwr menyw nag i feudy buwch!"

"Ie," mynte fe, "ond—ond ry' chi'n gwel'd buwch fenyw yw hi, a mae eishe mwy o foethau ar fenyw nag eydd ar wryw!"

(I'w barhau).

J6222b

(delwedd J6222b) (8 Gorffennaf 1899)

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD VI.—Y PRACTICAL A'R THEORETICAL FARMER.—CLEFYDAU ANIFEILLIAID, A SHWD I'W GWELLA NHW.

Fel gallwch chi feddwl nawr, fe etho i i stwmp wrth glywed 'y nghymydog yn gweyd mai beudy wedi'r cwbl oedd y building orand oedd e' wedi godi yn yr ardd. 'Roedd y'n stwmp i gymen fel na all'swn i ddim a gweyd gair am dipyn tawn i'n cael sofran am i weyd e'.

Fe feddylws Cleveland, welwch chi, mai wedi llesmeirio gan edmygedd o'wn i. Falle na wyddoch chi ddim beth yw ystyr y geiriau yna, ond os drychwch chi yn y dictionary, chi gewch afel yndi nhw. Rw i'n lico iwso ambell i air mawr fel na fel galwch chi wel'd nawr mai nid rhywbeth rhywbeth w i'n sgrifennu, ac mai nid dyn heb fod yn gwobod beth mae e'n neyd w i.

Gan feddwl fel'ny mai wedi cael 'y nhaw'n fud gan fawredd ei gynllun e' o'wn i, dyma wen foddhaus yn lledu dros ei wyneb e' o glust i glust, nes i fi hanner meddwl hyse dou pen y wen hono yn cwrdd rhwle tua chym'dogaeth ei wegil e'.

"Ody," mynte fe, fel'so fe am weyd rhywbeth er mwyn i fi gael amser i ddod ato i'n hunan. "Ody," mynte fe, fel'se fe'n y'n aped i, er nag o'wn i ddim wedi gweyd gair wrtho fe. "Ody," mae e'n lle bach digon twt, a gweyd y gwir. Ry' chi'n gwel'd pan fydda i'n myn'd yn nghyda rhwbetha rw i'n lico gneyd eitha job ohono fe, welwch chi. Ys gwedwn ni'r Saeson, "If a thing is worth doing at all, it is worth doing well." Ac ar yr egwyddor yna rw i'n lico gweithredu. A rhyngto chi a finnau, er nag w i am fragio dim, rw i'n cael y'n ahueddi i gredu na welwch chi ddim beudy arall tebyg i hwn ar hast."

"Ry' chi'n eitha right am hyny," myntwn i, gan ddryched amboutu ar yr holl drefniadau costus oeda gydag e'. "Do's dim dowl amboutu hyny."

Wel, fe nath hyny iddo gredu'n fwy nag eriod mod i wedi cwmpo mewn cariad a'r beudy. A ro'wn i hefyd, hware teg, er mai nid fel beudy o'wn i'n i lico fe chwaith. Ond wydde fe ddim o hyny pryd hyny, ta beth. Fel'ny, dyma fe'n wado mlaen wed'yn gan rwtio i ddwylo fel'se fe'n bles anghyffredin.

"Fe dreuliais i," mynte fe, "rai wythnosau i studio hwn ma's. Nid job bach oedd hyny, credwch chi fi. Ro'wn i am neyd pethau yn y dull goreu, according to the dictates of modern science, a fel'ny fe gym'es i dipyn bach o amser i ystyried yr holl beth, a'r awduron goreu; ac os nag w i'n twyllo'n hunan, fe fydc yn annodd i chi bigo unrhyw fai ar hwn, na nodi dim sy'n eische ar anifail nag w i wedi darparu ar ei gyfer e'."

A dyma fe'n dryched arua i wedi 'ny, a'i ben ar gam, fel gwelsoch chi ambell i dderyn bach weithie yn troi ei ben naill ochor i gael dryched beth y chi'n myn'd i neyd.

"Dewch nawr," mynte fe, "treiwch chi ryw-beth nawr i gae gwel'd os w i wedi anghofio neu adael rhywbeth ar ol. Dyma'r beudy cyn-ta gynlluniais i ariod, ond rwy'n meddwl ei fod e'n un go lew ag ystyried."

Wel, nawr, 'roedd hyn, welwch chi'n eitha cwpa shalenj, a danco fe benderfynes innau roi lesson fach iddo fe byse fe'n debyg o gofio dro am dani hefyd, credwch chi fi.

Ond wyddwn i ddim yn iawn shwd na b'le i

J6223a

ddechreu chwaith. Nid am nag oedd yno ddi-gon o ddewish, ond fod yno gyment o bethau mor afnawd o ddwl fel mai'r anhawdsder niwya' oedd gwobod b'le i daro gynta.

Ond fe feddylles os oedd e' wedi bod yn drefnus yn ei gynllun, gall'swn innau fod yn drefnus hefyd yn 'y nghynllun innau o'i aped e, a fel'ny dyma fi'n penderfynu dechreu tu fa's, a dod miwn gam bwyll fach.

"Fel'ny, ar ol carthu ngwddwg i fi gael eitha hware teg, dyma fi'n dechreu arni.

"Mae gyda chi walks bach neis ymbeidus amboutu'r lle," myntwn i.

"Os shiwr," mynte fe. "'Roedd hyny'n boint gen i, welwch chi."

"Ond," myntwn i, "prin mai gravel fel hyn yn siwto traed buwch. Ry' chi'n gwel'd, mae buwch yn fforchogi ewin, ac wrth fod y droed yn agor wrth gerdded, fe fyse'r gravel, all'swn i feddwl, yn go debyg o fyn'd mewn rhwng y ddou ewin, a gneyd dolur i'r creadur, a falle gneyd clwy', a llygru yno."

Ro'wn i'n meddwl 'y mod i'n rhoi hwampen fach gas mewn ffordd fach neis iddo fe, welwch chi; wath do'wr i ddim am ddolurio'i ddaillad-
au fe fwy nag oedd raid, welwch chi.

Ond dyn a'ch helpo chi! 'Roedd ei aped gydag e'n barod, ac aped na fyswn i byth yn meddwl am dano, am wn i.

Dyma fe'n gwenu wed'yn yn fwy ples o'r ddou na'r tro cynta'.

"Da iawn," mynte fe. "Rw i'n gwel'd eich bod chithau wedi studio'r cwestiwn fel ffinau. Ro'wn innau wedi gwel'd y point yna, ac mae'n dda gen i eich bod chithau wedi ei godi e' nawr, fel galla i ddangos i chi shwd w i wedi cwrdd a'r anhawdsder. Aroswech fynyd."

A dyma fe'n tynu allweddi ma's o'i boced, ac yn myn'd at gwpbwrdd glass bach yn y cornel fan'ny, ac yn dadgloi'r drws, gan dynu rhywbeth ma's o'r cwpbwrdd, a'i estyn i fi.

"Dyna," mynte fe. "Beth wedwch chi am hwna?"

Wel, fe ddryches ac fe ddryches ar y peth oedd e' wedi estyn i fi, ond allwn i yn 'y myw neyd na phen na chynffon ohono.

'Roedd e' fel'se chi'n meddwl am hosan ac esgid yn un, ond mai hosan ishel ac esgid at droed twp oedd e'. 'Roedd revings yn nhop yr hosan, a lastic drwy rheiny, fel gall'sech chi ei mestyn e' ma's faint fyn'sech chi jest iawn. 'Roedd e' wedi cael ei neyd o ryw fath o ledr soft, ryw wash neu chamois leather, am wn i. Ond 'roedd y gwaelod o leder caletach, fel lleder tapiau yn gwmws. Fe ddryches tufiwn, a jaist rodd yr echor tufewn ar y gwaelod wedi cael ei lanw a rhywbeth soft fel'se chi'n meddwl am lint neu gotton wool, neu rywbeth fel'ny nawr. Ond doedd dim o hwnw yn y golwg chwaith, ond 'roedd e' wedi cael ei gyfro a ryw stwff soft, ystwyth, ond cryf a gwyddyn hefyd.

"Dyna chi," mynte fe wed'yn, gan doryched yn fuddugoliachus arna i, "beth wedwch chi am hwna?"

Doedd gyda fi ddim byd i weyd, a dim byd i neud chwaeth ond crafu mhen.

"Wel wn i ddim yn y ngwir i beth i weyd," myntwn i. "Ry chi'n gwel'd weles i ddim un run peth ag e yn y mywyd."

Dyma fe'n hwerthin mas.

"Mae'n dda gen i feddwl hyny," mynte fe. "A mae'n dda gen i'ch bod chi'n gwel'd a chyfaddef hyny. Dw i ddim yn lico bostio, fel gwedes i o'r blaen; ond rwy'n credu mod i wedi talu mwy o sylw i'r peth hyny na nemor i neb sy'n fyw."

Gan na tebes i ddim gair, dyma fe mlaen wedyn.

"Rw i wedi credu er's llawer dydd," mynte fe'n mbellach, "nag os dim cyment o sylw yn cael ei dalu i anghenion cyffredin anifeiled, ac

J6223b

mae dysgeidiaeth gwyddonwyr iechydol, scientific sanitarian or sanitary scientists, penaf oes yn dangos mod i'n right, welwch chi."

Roedd e'n iwsio geiriau Seisnig mawr a dysgedig ofnadw weithiau, a chryn dipyn o job yw i fi allu rhoi yr ystyr mewn Cwmrag plaen i chi, ond fe na i ngoren, a phan bydda i'n meddwl y gall fod rhyw edwyt pun a odw i wedi rhoi'r Cwmrag yn iawn ai pldo, fe dreia i gofio roi ei eiriau fel i hunan yn Suesneg fel gwedws e nhw, a felny fydd dim camsyned i fod.

Ond dyw hyn ddim ond gair bach wrth baso. I gael mynd mlaen a'r stori.

Gan na wyddwn i ddim beth i weyd fe dewes a son, a wedes i ddim. Ond fe wedws o ddigon tros w i, druan ag e.

"Nawr," mynte fe. "Beth yw'r clefyd sy wedi gneud mwya o niwed i'r ffarmwr, hyny yw, clefyd yn mllith y gwartheg?"

Wel, doedd dim ishe i fi studio llawer iawn cyn aped hyny. Dw i ddim wedi byw yn y wiad eriod a bod yn cadw ffarm y'n hunan heb wbod rhywbeth am bethau felny, a dyma fi'n aped straight off.

"Mae sawl un," myntwn i. "Dou neu dri, neu falle bedwar, o glefydau sy'n gneud hafoc i'r ffarmwr anifeiled."

"Eitha da," mynte fe. "Beth y nhw?"

"Wel," myntwn i, gan gosi nghern er rawn cael bod yn shiwr o'r tir own i'n shengid. "Wel, dyna glefyd y traed a'r genau i, ddechreu."

"Ie," mynte fe, gan rwtio'i ddwylo wedyn. "Quite right. Foot and mouth disease i ddechreu. A beth wedyn?"

"Wel," myntwn i wedyn, gan gosi'r gern arall, er mwyn cael cydbwysu'r synhwyrau. "Dyna glefyd y gwt."

"Dyna chi," mynte fe, gan rwtio'i ddwylo fwy nag eriod. "Dyna theory and practice yn cydweld eto. Ry chi'n ffarmwr ymarferol, a practical farmer, a ffinnau'n theoretical farmer heb gadw anifail eriod yn y mywyd, a dyna ni'n cytuno i'r dim!"

Down i ddim yn lico hyny'n rhyw dda iawn chwaeath, y nghlymu i fyny gydag e, felsw'n i'n debyg o fildio boudy tebyg i lwnw!

Ond cyn i fi gael amser i weyd dim, dyma fe'n mlaen wedyr.

"Ie, clefyd y gwt. Eitha right yto. Nawr, beth arall?"

"Wel," myntwn i, gan grafu mhen nawr, gan mod i wedi crafu'r ddwy gern ishws. "Wel," myntwn i. "Dyna'r clefyd du."

"Quite so!" mynte fe. "Dyna ni'n cytuno yto i'r dim! Rw i'n fwy balch na alla i byth a gweyd i gael gweld fel hyn fod practical farmer fel chi yn cymeradwyo'r hyn w i wedi neud."

Rown i'n teimlo wedyn fod hyn yn myn'd dipyn bach rhy bell, ac eto, rywffordd neu giddyl doedd yno ddim lle gen i na lle i fi grosbledo ag e yn y fan ny, wath roedd y peth own i wedi weyd a'r peth oedd e'n weyd ei fod e wedi neud, yn cydfyn'd i'r tipyn.

"Ie," mynte fe. "Y clefyd du. Eitha right. Nawr beth arall."

Wel, wyddwn i ddim ble oedd cosi nesa, waeth dyna fi wedi crafu nghernau a nghopa; a fel ny dyma fi'n plyco'r whiskers ar y ngen. Ond allsw'n i ddim meddwl ar y pryd am ddim arall.

"Wn i ddim am ddim arall, am wn i," myntwn. "Hyny yw ddim byd pwysig iawn i'w gymharu a rheina."

Dyma fe'n dryched yn dosturiol arna i.

"Rwy'n synu'n clywed chi'n gweyd shwd beth a hyna," mynte fe. "Dyn call fel chi! Rown i'n meddwl byse chi, falle, fel practical farmer, yn gwbed mwy na rhyw mere theorist fel fi am bethau fel hyn."

A dyma fe'n aros felse fe'n dishgwl i fi weyd

J6223c

rhywbeth. Ond doedd gen i ddim byd i weyd, a felny wedes i ddim ohano fe.

Pan welws e mod i wedi dod i ben draw'r llinyn, dyma fe'n gweyd:

"Mae yna un arall ta beth y dylsech chi ar bob cyfrif ei gownto mewn yn mhlith gelynion pena'r ffarmwr anifeillied."

"Beth yw hyn?" myntwn i.

"Decline," mynte fe. "Consumption. Tuberculosis. Dyna'r peth sy'n lladd gwartheg, a thrwy ladd gwartheg yn lladd dynon hefyd sy'n yfed llath gwartheg. Dyma un o broblems mwyaf dyrys gwyddoniaeth ddiweddar. Mae meddyliau mwyaf galluog yr oes wedi talu sylw manwl i'r cwestiwn yma. Mae gwyddoniaeth yn gallu profi nawr tuhwnt i bob amheuaeth ym ei gylch e fod rhan fawr iawn o'r achosion o decline yn y deyrnas yma, hynny yw, yn mhlith bodau dynol, i'w briodoli i'r ffaith eu bod nhw'n yfed hadau consumption yn laeth y fuwch!"

A dyma fe'n sefyll o'n mlaen i fel un ag awdurdod i sharad.

"Ond," medde fe, "fe gewn sharad mwy am hwna eto. Y cwestiwn nawr yw gwbod shwd mae cwrdd a'r afiechydon hyn."

"Ie," myntwn i. "Dyna'r point."

"Wel," mynte fe. "Rw i wedi gneud hynny, ac wedi llwyddo i gwrdd a phob un ohonyn nhw. A nawr fe ddangosa i chi."

A dyma fe'n dechreu arni, gan weyd y pethau rhyfedda fu eriod. Ond fe fyse'n biti dechreu arnyn nhw fan hyn ar ddiwedd pennod, felny fe gadawn nhw hyd y bennod nesa, a rwy'n shiwr y gwedwch chithau gyda fi, na chlywsoch chi ddim shwd beth a'ch clustiau erioed!

(I'w barhau)

J6223d

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD VIII.—CADAIR A THETH BUWCH FFASIWN NEWYDD.

Wel nawr pan wedws Mr Cleveland witha i ei fod e wedi ffindo'r ffordd i wella clefydau gwaetha anifeiled, wyddwn i ddim yn iawn beth i weyd. Ry chi'n gwe'd, rown i wedi dod i feddwl hai hanner ffwl oedd e, hyd nes i fi gael y ple hyny gydag e yn nghylch yr anifeiled. Ond roedd yn ddigon am'wg fod y dyn yn gwobod rhywbeth am anifeiled,—gryn dipyn fwy nag a feddyles i, ta beth, eriod.

Felny, pan wedws e fod gydag ei giwr i glefyd y traed a'r genau, a'r pethau ereill hyny, fe gredes mod i'n mynd i glywed rhywbeth newydd—a felny rown i hefyd fel cewch chithau weld mewn mynyd.

Rown i bron tueddu i feddwl falle gan fod Mr Cleveland yn gyment o ysgolhaig—a mae e'n hyny fel gall unrhyw un weld—falle byse fe'n mynd i ysgrifenu llyfr newydd ar ffarieraeth. A chan fod peth delight gen i mewn ffarieraeth, rown i'n meddwl byswn i'n cael goleuni newydd gan y cymydog drws nesa ar bethau y gwyddwn i ishws rhywbeth yn eu cylch nhw—a fe geso hefyd.

"Wel, nawr te," mynte fe, gan gitsho wedyn yn y peth dynws e mas o'r cwprwrd, a'r peth o ddiffyg gwell enw arno rw i ishws wedi ei alw yn short o esgid a hosan yn joint, "wel nawr te," mynte fe, "i gael dod a'r peth i boint."

"Ie," myntwn i, yn awchus.

"Ry chi'n gwobod mai drwg yn fforchogaid yr ewin yw un o arwyddion clefyd y traed a'r genau?"

"Ie," myntwn i wedyn, "mae hyny'n ddigon plaen i undyn, wath mae'r anifeiled druen yn mynd yn gloff right, a ffeitu symud, a dyna pam mae e'n cael ei alw'n glefyd y traed a'r genau."

"Dyna chi," mynte fe, "yn union. Nawr fel y sylsoch chi gyneu, mae bod rhywbeth yn mynd mewn rhwng y gwinedd yn fforchogiad yr ewin, rhyw gravel neu geryg man neu ryw-beth fel ny, yn tueddi i greu anghysur ac enyniad, irritation, yn y rhanau hyny, ac mae hyn'n bound o fod yn ddrwg i'r creadur."

"Ody, wrth gwsr," myntwn innau.

"O'r goreu, ta, beth yw'r peth goreu i neud?"

Fe gymes funud fach i ystyried, waeth nese hi ddim mo'r tro i fi neud ffwl o hanw i'n hunan wrth ateb dyn call a sglaig mawr yn fyrbwyll, welwch chi.

"Wel, am wn i nad y peth goreu yw treio rhwystro dim byd all neud drwg i fynd mewn i'r fforchogiad."

"Dyna fe'n gwnws," mynte fe. "Mae'n dda gen i'n bod ni'n cydweld."

"Ond beth am y gravel walks yma?" myntwn i.

"Arhoswch chi funud," mynte fe. "Fe ddowa i at yna nawr. Y peth cynta, fel y gwedsoch chi, yw hadel dim drwg i gynhyrfu y lle tyner i fynd mewn rhwng y gwinedd. A dyna beth mae hwn dda!"

A dyma fe'n dala'r hen Wellington boot ffashwn newydd i'r lan o flaen y'n llyged i.

Fe edryches, a fe dryches, ond down i ddim tipyn callach wedyn.

"Dw i ddim yn deall," myntwn i, o'r diwedd.

"Wel," mynte fe, "pan ddaw'r fuwch a ben y llwybyr gravel yma, fe fydd y gwas sy'n

J6224a

gofalu am dani yn gwisgo'r botasau hyn am ei thraed hi. Mae gen i bedward o honyn nhw, un i bob troed, a ry chi'n gweld fod y top yn revo wrth india rubber. Felny fe agorithd yn ddigon llydan i'r fuwch saco'i throed mawn, a wedyn fe geuith yn ddigon tyn i ddala am y droed.

Fe ddryches, ond wedes i ddim.

"A nawr," mynte fe. "Nid dyna'r cwbwl. Mae gwaelod isha'r botasau yma fel gwelwch chi, yn galed. Ond tufewn mae nhw yn ddigon sofft ac esmwyth, fel i bido dolurio traed y fuwch, welwch chi. Fel ny, fe all gerided dros y gravel heb gael dim drwg na dolur o un math yn y byd."

A dyma fe'n dryched arna i wedyn felse fe'n dishgwl i fi weyd rhywbeth.

Ond wedes i ddim.

"Beth y chi'n feddwl am dano?" mynte fe, o'r diwedd.

Fe ystyries am fynud cyn aped.

"Ody'r fuwch i gadw'i esgidiau ar ei thraed yn y ty?" myntwn i.

"Fyse'ch mishtres yn gadel i chi gadw'ch sgidiau brwnton ar eich traed yn y parlwr goreu?" mynte fe.

"Fe fyse'n amser go ddiogel arna i tawn i'n gneud!" myntwn innau.

"O'r goreu te," mynte fe. "Fel ny, pan ddaw'r fuwch i'r portsh fan hyn, fe gaiff y gwas dynu ei sgidiau hi bant. A wedyn, fel gwelwch chi, mae gen i fath o garped ar y llawr yn ddigon sofft iddi thraed hi heb ddim sgitshe."

"Hym!" myntwn innau.

"Fe fues yn meddwl unwaith," mynte fe, "i neud set o slippers bach ysgon iddi wishgo yn y ty, ond fe feddyles bysw'n i'n treio shwd byse'r sgitshe yn gwitho gynta."

"Hym!" myntwn innau wedyn.

Ac ar ol ystyried am fynud, dyma fi'n gofyn cwestiwn arall iddo.

"Ond beth am draed y fuwch cyn gwisgo'r sgitshe? Fe fyddan yn frwnt ymbeidus o'r pridd a chwbl."

"Ha!" mynte fe. "Ry chwithau'n ddyn call, rwy'n gweld! Ond rw i wedi meddwl am y pethau hyn i gyd, a wedi studio nhw'n fanwl. Dewch gyda fi i chi gael gweld!"

A dyma fe'n mynd a fi i lawr i odreu pella'r ardd, lle roedd y walks gravel yn dechreu. A dyna lle roedd short o badell fawr o geryg, marble, rwy'n credu, a dwr yndo fe.

"Nawr," mynte fe, "dyma bath y fuwch. Pan fydd hi'n dod sha'r ty, fe geiff ei hala i'r bath, a dyma frwshe i'r gwas gael golchi ei thraed hi yn lan cyn gwishgo'r sgitshe. A wedyn, wrth gwrs, lan a hi sha'r ty. Ry chi'n gweld, nawr, mae yna ddou beth yn cael ei enill felny. Dyna chi'n symud unrhyw achos niweidiol all fod rhwng gwinedd troed y fuwch, a dyna chi'n cadw ei thraed hi'n lan erbyn yr aiff hi i mewn i'r ty, fel na bydd hi ddim yn trochi'r llawr.

Erbyn hyn rown i wedi mynd i amheu os oedd y cymdog drws nesa mor gall ag own i wedi meddwl ar y dechreu; ond wedes i ddim pryd hyny.

"A nawr," mynte fe, gan gredu ei fod e wedi'n argyhoeddi i ar y pwynt cynta, "a nawr," mynte fe, "gan ein bod ni wedi setlo'r rhan yna o'r mater, y cwestiwn nesa yw shwd mae rhagflaenu drwg i'r genau."

"Hym!" myntwn i, o ishe rhywbeth gwell i weyd.

"Wrth gwrs, ry ni wrth ofalu am y traed yn mynd yn mhell i achub y blaen ar y drafferth yn y genau hefyd, wath fel gwddoch chi er fod y traed a'r genau yn mhell orwth eu gilydd, mae yna gysylltiad agos rhyngty nhw."

J6224b

"Os e?" myntwn i, er mwyn gweyd rhywbeth.

"O'r anwyl, os," mynte fe. "Dishgwylwch chi ar ddyn nawr, a traed a'r pen yw'r ddou fan bella orwth eu giddyl, ond gwelwch mor agos mae nhw at eu giddyl wedyn mewn cy-sylltiad."

"Shwd hyny?" myntwn i.

"Wel," mynte fe. "Meddylwch eich bod chi a'ch traed yn y dŵr, beth fydd y canlyniad?"

"Gwynegon," myntwn i'n gwmws, gan gofio mod i wedi cael y gwynegon ar ol golchi defaid y spring cyn hyny.

"Ie, ie," mynte fe, "ond ddaw ddim mo'r gwynegon am dipyn bach. Beth sy'n dod yn gwmws ar ol glychu neu oeri'r traed?"

"Wn i ddim," myntwn i. "Beth hefyd?"

Nawr i chi gael deall roe ni wedi bod yn sefyll o hyd ar bwys bath y fuwch, welwch chi, a fe ddigwyddws fod llynwen fach o ddwr wedi aros yn gwmws yn y man lle'r own i'n sefyll, a'n sgidiau inau'n digwydd bod yn rhai bach go deneu fe ddampes y nhraed heb yn wbod i fi, a'r clyw cynta geso i am hyny oedd trwsian.

"Atishw!" myntwn i. "Atishw! atishw!"

"Dyna chi!" mynte Cleveland. "Dyna'ch trwyn chi'n gwbod yn well na chi nawr!"

"Beth y chi'n feddwl?" myntwn i, gan symud o'r llynwen dŵr i le sych ar y llwybr.

"Wel," mynte fe, "dyna'ch trwyn chi'n gweyd beth yw'r canlyniad o lychu'r traed! Ody chi'n gwel'd? Y traed un pen i'r corph yn glychu a myn'd yn oer, a'r trwyn, y pen arall i'r corph yn teimlo gynta, ac yn trwsian i weyd wrtho chi

J6224c

“am fyn’ d a’ch traed o’r dwr!”

A wir, erbyn styried, mae rhywbeth yn hyny hefyd—er na wedes i ddim wrtho fe, ond fe dynes y’n hancitcher mas o mhoced, a fe hwthes y nhrwyn gyment a allsw’n i.

Dyma fe mlaen wedyn.

“Nawr,” mynte fe, “fel mae’ch trwyn chi yn teimlo o achos bod eich traed chi’n oeri, felny’n gwmws mae geneu’r fuwch yn myn’ d yn dost pan fydd y clefyd yn ei thraed hithau. Chi wyddoch fod rhai dynon yn cael gwddwg tost pan bo nhw’n glychu eu traed.”

“Ie,” myntwn i, wath rown i’n cofio nobl am mishtres; dim ond iddi lychu ei thraed fe gese wddog tost yn union.

“Wel, dyna fe,” mynte fe. “A dyna shwd mae’r fuwch. Os bydd y clefyd yn y traed, fe eiff i’r genau hefyd, ac un ffordd i stopo fe i fyn’ d i’r genau yw i stopo fe i fyn’ d i’r traed, ry chi’n gwel’ d?”

’Roedd eitha reswm yn y peth, hware teg iddo fe.

“Ond nawr,” mynte fe wedyn. “Un ffordd o gael y clefyd yw drwy’r traed—a ry chi’n gwel’ d shwd w i’n stopo hyny. Ond ffordd arall i gael y clefyd yw trwy’r genau, a nawr mae ishe stopo hwnw hefyd.”

“Trwy’r genau?” myntwn i. “Beth y chi’n feddwl?”

“Wel,” mynte fe. “Chi wyddoch fod doctor-iaid y dyddiau hyn yn gweyd fod pob clefyd bron yn cael ei fagu orwth hadau, the germs of disease, chi wyddoch, bacteria mae rhai yn eu galw nhw.”

Fe wyddwn rywbeth am hyny, a fe gymres arno i mod i’n gwbod mwy, er mwyn cael ei dynu e’n mlaen, chi wyddoch.

“Wel nawr te,” mynte fe. “Mae nhw’n gweyd fod buwch yn cael y clefyd trwy yfed dwr lle bydd da a’r clefyd wedi bod yn sefyll yndo fe, neu’n yfed yndo fe. O ganlyniad rhaid stopo buwch iach i yfed dwr felny.”

“Eitha right,” myntwn i. “Mae hyna’n syn-wyr prion.”

“Ond,” mynte fe. “Shwd galla i hadel y muwch i i yfed dwr afiach? Dyma’r nant lle

J6224d

rw i'n cael y dwr yn rhydeg trwy diroedd dwsin neu ragor o ffermydd. Shwd gwn i nag os buwch a'r clefyd arni wedi bod yn sefyll neu'n yfed yn y nant?"

"Ie'n wir," myntwn inau.

"Wel nawr alla i ddim puro dwr y nant i gyd."

"Na," myntwn i. "Tipyn bach o job fyse hyny hefyd."

"Ond," mynte fe, "fe alla i ofalu na chaiff y muwch i ddim yfed dim heb gael ei buro'n gynta."

"Shwd hyny'r dyn?" myntwn i.

"Wel fe weda wrtha chi. Dowch lan yto sha ty'r fuwch a fe ddangosa i chi."

Wel lan a ni, ac ar y ffordd dyma fe'n gweyd mai'r ffordd saffa bob amser oedd cisho bod mor debyg i natur ag oedd yn bosib. Natur y llo, mynte fe, oedd sugno teth y fuwch.

"A nawr," mynte fe, gan dynu rhywbeth arall mas o'r hen gwprwrdd, "dyma fi wedi mynu peth mor debyg a galla i feddwl am dano i deth a chadair y fuwch."

A dyna lle'r oedd gydag e gwddyn india rubber, a phib india rubber o hano fe, fel teth a chadair buwch yn gwmws.

"Nawr," mynte fe. "Yn y cwddyn yma mae gen i chemicals sy'n lladd pob bacteria niweidiol. Fe fydd y dwr i'r fuwch yn dod mewn pib o'r nant i mewn i'r cwddyn, a hithau yn ei yfed neu ei sugno fe yn hytrach, drwy'r deth yma, a fel'ny dyna fi yn rhagflaenu dou' ddrwg; dyna 'fin stopo muwch i i yfed dwr afiach, a dyna fi'n gofalu na chaiff y muwch i neud y dwr yn afiach i wartheg erill yn is lawr."

"Ond ody chi'n meddwl y gallwch chi ddysgu buwch yn ei maint i sugno o'r newydd?" myntwn i.

"Nature, my dear sir! Revert to nature!" mynte fe. "Natur, y machgen i! Myn'd nol at natur! Dyna'r cwbl! A fe fyse'n dda pe bysid yn myn'd nol at natur!"

"Ody chi'n sugno'r botel?" myntwn i'n ddiniwed fach fel na.

Fe drychodd arna i fel pe byse fe mewn doubt pun a own i'n siriws ai peidio; a wedyn, mynte fe:—

"Oh, mae dyn, welwch chi'n fod deallus, a f'wedi cael ei fwrriadu i fyn'd yn mlaen o hyd mewn gwybodaeth."

"A dyw'r fuwch ddim?" myntwn i.

"Wel, nag yw, wrth gwrs!" mynte fe.

"Wel, fe allwn i feddwl ynte," myntwn i, "mai anhawdda i gyd fydd hi i'r fuwch fyn'd tuag yn ol at y sugno ar ol iddi ddysgu unwaith i yfed fel rhyw greadur arall."

"Camsyned i gyd!" mynte fe. "Camsyned i gyd. A fe ddangosa i chi. Glywsoch chi ddim son am wartheg yn sugno'u giddyl?"

Wel mae'n rhaid i fi gydnabod iddo roi wad i fi fan'ny a gweyd y gwir. Rown i'n cofio mod i'r fwyddyn cyn hyny wedi bod gyda'r crydd yn gneud strap lleder a hoelon a'u penau maes drwyddi i ddodi am drwyn fuwch oedd wedi dysgu'r gamp o sugno'r gwartheg erill,—a roedd Cleveland wedi gwel'd y muwch i a'r ornament hyny am ei thrwyn. A dyn a wyr, falle fod hyny wedi bod yn help i Cleveland i feddwl am neud esgus cadair a theth i'w fuwch yntau yfed dwr. Ond trwy'r cwbl allsw'n i yn y myw gredu y suguse'r fuwch y dwr drwy'r deth os gallse hi ei gael e ffordd arall.

(*I'w barhau.*)

J6114e

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD IX.—I BETH MAE CYNFFON
BUWCH DA? SYSTEM Y CYMYDOG
DRWS NESA'.

'Roedd 'y nghymydog, welwch chi, mor shiwr o'i boint fel mai annodd ymbeidus oedd i fi ddangos b'le 'roedd e'n camsyned. Wrth gwrs, fe wyddwn yr eitha da ei fod e'n camsyned, a byse 'run peth iddo dreio hedfan a cheisho cael gan y fuwch : wishgo 'sgidiau, a sugno'r botel fel babi. Ond all'swn i ddim profi hyn iddo fe heb iddo fe gael y profiad ei hunan.

"Wel," myntwn i, gan baso hibo i fusnes clefyd y traed a'r genau, "shwd y chi'n myn'd i neyd a chlefyd y gwt?"

"Ah!" mynte fe, gyda gwen o glust i glust, ac yn dychwed mor falch a'r paun, "gadewch i fi ddangos i chi."

A dyna fe'n myn'd i'r cwpbwrdd wed'yn, ac yn tynu rhodyn o bapur ma's, fel'se fe'n blannu ty, neu rhywbeth felny, nawr.

"Ry' chi'n gwbod, wrth gwrs," mynte fe, "am glefyd y gwt mai short o ddolur yw e' o dan y gynffon, a dyna pa'm mae dynon yn ei alw fe'n glefyd y gwt."

Fe ddryches arno fe, ond wedes i ddim byd.

"Wel, nawr, 'te," mynte fe; "meddylwch am beth arall. Meddylwch am blentyn bach wedi cael y frech. Beth mae'r fam yn dreio neyd y peth cynta i gyd i'r fraich pan fydd hi'n llidio, a'r grachan arni?"

"Cadw'r fraich rhag bo dim yn rhwto yndi, wrth gwrs," myntwn innau.

"Dyna chi i'r dim," mynte fe. "Ry' chi'r un farn a fi'n union. A dyna beth w innau'n myn'd i neyd gyda chlefyd y gwt, cadw'r gwt rhag rhwto yn y dolur. A nawr, dishgwylwch yma."

A dyna fe'n agor y peth o'wn i'n feddwl oedd yn blannu ty, a'i ddangos e' i fi.

Ond nid plan ty oedd e', ond llun buwch, a'i chynffon wedi ei godi yn y gwrthwyneb, a'i neyd yn rhyw fath o hanner cylch dros ei chefn hi, a blaen y gynffon wedi ei glymu wrth ddwy goeden yn sound wrth gyrnau'r fuwch!

"Beth yn enw'r gallu da yw hyn sy' gyda chi?" myntwn i.

"Chredwch chi byth mor falch w i o hwna!" mynte fe. "Fe fues i'n pyslan yn hir cyn flindo hwna ma's. Ry' chi'n gwel'd mai'r amcan yw cadw'r gynffon rhag rhwto i neyd y clwyf yn waeth. Fe fues i'n meddwl unwaith am ddodi astell ar hyd gefen y fuwch, ac yn mestyn ma's rhyw ddröfodd a hanner dros ei chrwper hi, a chlymu'r gynffon wrth hono i'w chadw hi i'r lan. Ond fe feddyls wed'yn byse'r astell yn drwm, a falle yn gneyd clwyf ar gefen y fuwch, a wed'yn fe feddyls am y plan hyn. Ry' chi'n gwel'd, dyna'r gynffon lan o'r ffordd; dim posib i ddim sefyll o dan y gynffon, a dim posib i'r gynffon rwto yn y clwyf; a chyda hyn, dim traferth a dim pwysau i'r fuwch i gario. Rwy i'n credu na fyse dim posib gneyd dim byd yn well na hwna."

A 'roedd e'n dryched mor bles fel mai prin gall'swn i gael ar 'y nghalon i dreio 'i berswado fe ei fod e'n gneyd camsyned ymbeidus. Ond ta beth, fe ofynes un cwestiwn iddo fe.

"Beth mae cynffon buwch dda?" myntwn i.

Fe ddrychws arna i yn hurt.

"Beth mae cynffon buwch dda?" mynte fe.

"Ie," myntwn i, gan saco'n nwyllaw i mhocedi, "beth mae cynffon buwch dda?"

"Wel, yn 'y ngwir i," mynte fe, gan hwerthim. "Dyna gwestiwn od!"

J6225a

(delwedd J6225a) (5 Awst 1899)

"Ie, ie," myntwn i; "chi allwch chi hwerthin, was i, ond gwedwch chi wrtha i nawr beth mae cynffon buwch dda?"

"Ro'wn i'n meddwl fod pawb yn gwbod hyny," mynte fe.

"Eitha da," myntwn i. "Os yw pawb yn ei wbod, ry' chithau yn ei wbod e', a nawr, gwedwch chi wrtha i, os gwelwch yn dda, beth mae cynffon buwch dda?"

"Wel, i neyd swp, wrth gwrs!" mynte fe.

"Nan?" myntwn i, waeth do'wn i ddim wedi catsho'n gwmws beth y wedws e'.

"Ond taw, i neyd swp," mynte fe, "ex-tail soup, chi wyddoch! Ro'wn i'n meddwl fod pob un dwl yn gwbod hyny!"

Wel, gwedwch chi nawr o brysus beth neswn i a dyn felny?

Ond do'wn i ddim am ei adel e' yn ei dywyllwch barnol, a dyma fi'n gweyd wrtho fe:

"Dyna use y gynffon i'r dyn ar ol lladd y fuwch; ond i beth mae'r gynffon dda i'r fuwch ei hunan tra bydd hi'n fyw?"

Fe ddrychws arna i wed'yn.

"Wel, yn wir!" mynte fe; "feddyles i ddim am hyny," mynte fe.

"Naddo, mynta," myntwn i, "nag am lawer peth arall chwaithe. Ond fe alla i weyd wrtho chi, a fe all pob un arall sy' a llygid yn ei ben, weyd wrtho chi hefyd. Amcan cynffon i'r fuwch fel i'r ceffyl yw i gadw'r cler a'r gwybed bant."

"Nan?" mynte fe.

"Dishgwylwch chi ar fuwch neu geffyl yn cael eu poeni gan y cler," myntwn i, "fel mae nhw'n wado'r cer bant, a'u cynffonau yn myn'd fel whip o'r un ochr i'r llall."

"Ie, ontefe?" mynte fe.

"Nawr," myntwn i, "os clymwech chi gynffon y fuwch round dros ei chefen hi yn sound wrth ei chyrnau hi, shwd gall hi hala'r cler off?"

"Ie, ontefe?" mynte fe wed'yn. "Arhoswch fynyd i fi gael ystyried."

A dyma fe'n pleto 'i aeliau, ac yn enoi ei winedd, ac yn crafu tu cefen i'w glust, fel'se fe'n stydio'n galed ymbeidus.

Yn mhen spel, dyma fe'n codi ei ben, ac yn dryched yn bles anghyffredin.

"Rw i yn ei gwel'd hi!" mynte fe. "Rwy'n cydnabod yn dligon rhwydd nag o'wn i ddim wedi ystyried dim tipyn am y peth yna, welwch chi. Ond rwy'n gwel'd fod eitha synwyr yn y peth ry' chi'n weyd."

"Chi e'lyngwch gwt y fuwch yn rhydd, ynte?" myntwn i.

O'r anwyl, na wna i!" mynte fe. "Ry chi'r gwel'd, helpu natur yw'n amcan i, a nawr rwy'n credu mod i'n gwel'd y ffordd i gadw'r cler rhag poeni'r fuwch heb iddi hi orfod uso 'i chynffon o gwbl."

"Wel, shwd?" myntwn i.

"Wel," mynte fe. "Chi wyddoch fid genty nhw yn y gwledydd poethion lle mae'r mosquitoes yn pigo'n ymbeidus, sort o gurtains fuslin mae nhw'n alw yn mosquito curtains i ddodi amboutu'r gwely yn y nos i gadw'r mosquitoes ma's."

"Ie?" myntwn i.

"Wel, meddwl o'wn i am gael mosquito curtains i'r fuwch," mynte fe.

"Ie, ond fe fydd isbe cadw'r cler-off ar hyd y dydd fel ar hyd y nos," myntwn i.

"Bydd, bydd! wrth gwrs! rwy'n deall hyny!" mynte fe. "A both w i'n feddwl yw ffio rhyw sort o ffram ysgon ar gefen y fuwch, a dodi'r mosquito curtains dros hwnw. Fe all y fuwch bori felny heb gael ei phoeni o gwbl gan y cler."

"Dyn helpo dy fuwch fach di!" myntwn i wrtho i'n hunan, "rhwyng y 'sgidiau, a'r ffram curtains, a chlymu dy gynffon di, a chwbwl!" Ond wedes i ddim yn uchel.

"Wel, 'te," mynte fe wed'yn. "Dyna ni

J6225b

wedi setlo yna. Rhaid i fi fesur buwch a gwel'd sawl llath o gurtains fydd ishe, a wed'yn fe geiff mishtres ei dori a'i wlio fe at shap, a fe fydd pobpeth yn all right. A nawr, beth sy' gyda chi i weyd am y plan gyda'u giddyl?"

"Wel," myntwn i, ddim yn lico gweyd dim byd yn gas chwaith, ond am agor ei lygid e' gam bwyll fach nawr. "Gwel'd y lle'n ray dda i anifel w i."

"Dyna lle ry' chi'n gneyd camsyned," mynte fe. "Po oreu edrychwch chi ar ol cysur yr anifel, goreu i gyd y talith ei ffordd i chi. Dishgwylwch chi ar gwestiwn y cler a'r curtains yna, a rwy'n falch ymbeidus i chi am ddangos y poeth i fi; chi wyddoch pan fo gwartheg yn cael eu blino gan y cler, ac yn rhydeg i'r cysgod ar dywydd poeth, nag os dim agos cymment o laeth gyda nhw. Wel, 'te, dyna'r egwyddor sy' gen i yn rhydeg drwy'r holl system i gyd. Rw i'n dryched ar ol cysur y fuwch, a wed'yn fe ddrychith y fuwch ei hunan ar ol y laeth!"

"Ond," myntwn i wed'yn, "mae'r lle yma yn rhy dda i fuwch i fyw yndo fe. Mae e'n well na nemor i barlwr yn y cwmpasodd yma, ond sha Tregib neu Dinefor, neu rhywle felny. Fe fydd yn drueni ymbeidus i'r carped hyn gael ei swardo."

"Ei swardo?" mynte fe. "Gan beth?"

"Wel, gan dail y fuwch," myntwn i.

"Oh, ie, fe anghofies ddangos i chi," mynte ie. "Dewch yma!"

A dyma fe'n agor drws bach naill ochor fan 'ny.

"Nawr," mynte fe, "dyma'r closet."

"Y closet?" myntwn i.

"Ie," mynte fe, "y closet i'r fuwch. Dw i ddim yn bwriadu iddi hi gael teilo yn y rwm arall yna. Fel ry' chi'n gweyd, fe fyse'n spwylor lle a'r carped a chwbl. A felny, dyma fi wedi gneyd closet fan hyn at hyn."

"Closet i'r fuwch?" myntwn i mewn syndod.

"Ie," mynte fe; "pa'm lai? Mae closet gyda chi yn y ty i'r teulu, a pha'm na cheiff y fuwch gloset yn ei beudy hithau?"

"Ond," myntwn i, "ody chi'n meddwl y gallwch chi ddysgu'r fuwch i fyn'd i'r closet i deilo pan fydd ishe am?"

"Pa'm lai?" mynte fe. "Ry' chi'n dysgu'r ei a'r gath i fyn'd ma's yn lle trochi'r ty. A pha'm na allwch chi ddysgu buwch yr un shwt? Na, credwch chi fi. Dyw ffermwyr y wlad yma ddim yn talu banner digon o sylw i gysur a glanweithdra yn nglyn a'u hanifeilied. Chi gewch chi wel'd gymaint gwell laeth fydd gan y muwch i na chan wartheg erill! Rw i'n myn'd i greu revolution yn y ffordd o ymddwyn at anifeiled direswm, ac os nag w i'n camsyned fe fydd son am y'n system i drwy'r holl deyrnas."

A ma's a ni o'r beudy,—Cleveland a'i ben yn yr awyr a'i ddychymyg yn y cymylau, a finnau'n ysgwyd y mhen mewn tipyn o ddowt p'un a ddyl'swn i hala at y relieving officer i fyn'd ag e' i Gaerfyrddin ai pido.

(Iw barhau.)

J6225c

PROFIAD PAR IFANC

Ser Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD X.—ARGRAPHIADAU CYNTA'.
— PROFIR INVENTIONS NEWYDD. —
TRECH NATUR NA DYSG.

Onibai mod i wedi clywed Cleveland a'n nghlustiau y'n hunan yn gweyd y pethau hyn, ac onibai mod i wedi gwel'd a'n llygid y'n hunan y pethau oedd e' wedi invento at wneyd y fuwch yn hapus, yn ol ei farn e', fyswn i byth yn credu. Felny, fydda i'n synu dim byd, welwch chi, os na fyddwch chithau'n credu, er taw fi sy'n gweyd y stori. Ond eich lwc-owt chi yw hyny. Gweyd y stori fel y digwyddws hi yw'n musnes i; rhyngto chi a chredu neu bido jest fel y mynoch chi.

Ond ta bett. Dyma fi'n wado mla'n a'r hanes i gael dybenu ag e'.

Fe a'th Cleveland i'r ffair i Landilo i brynu buwch, ac er mwyn dangos ei fod e'n gallach nag oedd e', ac yn gwobod mwy nag e' wyr e', beth na'th y fwlwyn ond myn'd i edrych danedd y fuwch felse hi geffyl, er mwyn cael gwel'd ei hoedran hi.

Wel, wrth gwrs, fe welws y gwerthwr mai iolyn oedd y prynwr, a dyma fe'n gollwng arni am rinweddau'r fuwch, a'i phedigree hi, fel'se hi'n darw first prize yn yr agricultural show. Wel, chi allwch farnu beth fu'r diwedd i beth felny, mynta. Fe brynws Cleveland y fuwch pedigree yma am ei gwerth hi ddwywaith.

Ro'wn i'n digwydd bod ar y drws pan ddaeth cowman drws nesa' a'r fuwch sha thre'. 'Roedd Cleveland, welwch chi, yn gorffod cael cowman iddi fuwch fach e', felse fe'n ffarmo Glau'rafon! Tae gydag e' ugan buwch o wartheg, fyse fe byth yn gneyd mwy o gynnal amboutu nhw nag a na'th e' am yr un hyny, druan ag e'.

Wel, fel ro'wn i'n gweyd, ro'wn i'n sefyll ar y drws pan dda'th y cowman a'r fuwch sha'r ty. Ar ei ol e', 'roedd Cleveland, a fe gwelwn e'n rhydeg mewn trwy gat y ffynt, a fel bollt mewn ag e' i'r ty, a'r fynydd nesa' dyma'r wraig ac yntau ma's wed'yn a hi, a rhyw barsel bach yn ei llaw hi.

"Dewch!" mynte fe wrtha i. "Dewch!"

"I b'le?" myntwn innau.

"I wel'd mishtres yn taclu'r fuwch!" mynte fe.

"Wel," myntwn i yndw i'n hunan, "pwy lol sy' gydag e' nawr, wish?"

Ond fe darewais y'n hat ar 'y mhen, a ma's a fi ar ei hol nhw.

'Roedd y cowman yn myn'd i hala'r fuwch sha'r boudy, onibai iddi fishtir i hadel e'.

"Na! na!" mynte fe. "Rhaid gofalu am yr argraphiadau cyntaf, — the first impressions. Rhaid i'r fuwch gael ar ddeall y tro cynta' daw hi mewn i'r boudy fod ei boudy hi yn wahanol i bob boudy welws hi ariod o'r blaen, a rhaid iddi ddeall hefyd ei bod hithau nawr yn ods i ddim fuodd hithau o'r blaen. Cerwch a hi lawr i gael ei golchi."

Fe winws y cowman arna i, gan weyd:

"All right, syr!"

A dyma fe'n hala'r hen fuwch lawr sha'r pwll yn dwr w i wedi weyd wrtha chi am dano fe.

"Beth sy' gyda chi fan 'na, Mrs Cleveland?" myntwn i.

"Oh, cwplwl o ribanau i'r fuwch!" mynte hi.

"Rhubanau i'r fuwch?" myntwn i mewn syn-dod.

"Ie," mynte Cleveland. "Mae meistres yn cydwel'd a fi yn hollol am bwysigrwydd ar-graphiadau cynta', the importance of first im-

J6226a

(delwedd J6226a) (12 Awst 1899)

pressions. A mae hi am daclu'r fuwch cyn eiff hi i'r boudy am y tro cynta'."

"Oh!" myntwn i. "Rwy'n gwel'd."

Er nag o'wn i ddim yn gwel'd chwaith mwy na phost lliidiart!

"Ie," mynte hithau. "Ry' chi'n gwel'd, Mr Harris, mai buwch fenyw yw hi, a mae menywod fel gwyddoch chi yn lico cael tipyn o feathers a rhibanau. Do'wn i ddim yn lico rhoi plyf iddi ar ei chyrnau, er fod gen i ddot ostrich feather beautiful nese'r tro yn gampus lefyd."

"Pa'm nag ee chi'n lico rhoi feathers?" myntwn i.

"Ofan oedd arna i," mynte hi, "byse hi'n magu delight mewn plyf, a falle digon hawdd yn myn'd i rydeg cyn bo hir ar ol yr adarn bach ar hyd y caeau er mwyn cael eu plyf nhw!"

Trwy lwc, fe ddaeth y cowman ar hyn just mewn pryd i rghadw i rhag bursto ma's.

"Mishtir," mynte fe, "beth ga i neyd nawr?"

"Oh, golchwch y fuwch, fachgen. Golechwch y fuwch gael ei gwishgo ddi wed'yn. Chi gewch y spongs a'r brwsheŷ yn y cwpbwrdd yn y boudy. Fe finda i at y fuwch tra bo chi'n rhydeg i mhoya nhw."

Gyda fod Tom yn troi ei gefen, dyma Mrs Cleveland yn gweyd:

"Oh, Claud! B'le mae'ch hancitsher poced chi?"

"I beth?" mynte fe.

"I sychu trwyn y fuwch," mynte hi. "Dish-gwylwch shwd mae ei thrwyn hi'n rhedeg, poor thing!"

Ac, wrth gwrs, fel gwyddoch chi, 'roedd ei thrwyn hi yn rhydeg, fel trwyn pob buwch arall.

Ond pan dynws Cleveland hancitsher shidan coch ma's o'i boced, ac yr a'th e' i dric sychu trwyn y fuwch, dyma hono'n rhoi cornad tuagato fe nes i'r hancitsher gitsho am ei chorn hi, a'i tharfu hi, a bant a hi a'i chynffon ar ei chefen, lan sha'r ty. A fel digwyddws hi, 'roedd Twm, y cowman, yn dod ma's o'r beudy a'r spwnj a'r gienyn gydag e' at olchi'r fuwch pan rowndws y fuwch y tro, a chyn iddo gael amser i neidio o'i ffordd hi dyma hi am ei draws e', a lawr ag e' dwmbwr-dambar, a phan godws e', 'roedd e'n rhegu fel sailor—er ei fod e'n aelod yn y ty cwrdd.

J6226b

Wel, bant a'r hen fuwch whiw trwy'r gat ac i ganol yr hewl, — a fuodd dim shwd gynnal ariod a'i chael hi nol wed'yn i'r pwllyn.

Ond fe'i cawc hi o'r diwedd, a fe ddechreuwyd ar y gwaita o'i glanhau hi. Doedd dim o Cleveland, hware teg iddo fe, wedi meddwl gneyd dim byd mwy na golchi ei choesau a'i thraed hi i gael gwishgo'r 'sgidiau newydd iddi. Ond nese hyny ddim tro i'r wraig.

"Claud bach!" mynte hi. "Dishgwylwch ar ei hochor hi, ya hen faw a thail i gyd! A meddylwch am dani'n myn'd i'r gwely yn y ddrych yna! A dishgwylwch ar ei chynffon hi! Alla i byth a chribo gwallt ei chwt hi heb ei gael yn lanach na hyna!"

A dyma Twm ati i gael ei golchi hi fel oedd ei fishtres am iddo, er y gorffu i ni gael y forwm a dou neu dri o ddynon i'n helpu ni i chadw hi yn y pwllyn tra 'roedd Twm yn ei golchi hi.

Wel, wedi cael ei hochrau a'i chwt hi'n weddol syber, dyma nhw nghyd a'i thraed hi. Ond os drwg cynt, gwaeth wed'yn.

'Roedd yn rhaid codi pob troed, wrth gwrs, i golchi nhw, ond doedd dim shwd beth a phar swado'r hen fuwch, welwch chi, i godi ei thraed yn right.

"Danco!" mynte Twm, yn hwys difera fan 'ny, yn nghanol y dwr. "Rhaid cael Sam, y gof at hyn, gwlel. Mae e'n gyfarwydd a gneyd i geffylau godi eu traed i gael eu pedoli."

Ond fyn'se 'i fishtir ddim hala i moyn y gof, o leia pryd hyny.

"Allwn i byth hala i moyn y gof bob tro bo ni'n myn'd i olchi ei thraed hi a gwishgo ei sgitshe hi," mynte fe. "Treiwch eto, Twm."

"Dowch chi i'n helpu i, ynte, mishtir!" mynte Twm. "Safwch wrth ei phen hi."

A dyma Cleveland, y ffwlcyn, mewn i'r dwr, a sefyll wrth ben y fuwch, tra Twm yn bwlffagan tu ol iddi i lanhau rhwng gwinedd ei throed ol hi.

Ond dyma'r hen fuwch yn rhoi spenc nes tynu Twm ar ei wyneb i'r dwr, a bwrw ei fishtir ar ei gesen i'r pwllyn, a'r lleill o hano ni howl-bi-tag yn ei hadel hithau i ddianc o'r pwllyn!

(*1st to 7th au.*)

J6626c

PROFIAD PAR IFANG

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XI.—GOOD-BYE I'R FUWCH!— BOUDY A BILLIARDS.

Wel welsoch chi ddim shwd amser ariod ag y buodd hi'n pyrnavn hyny am boutu'r pwll yn dwr. 'Roedd son am y peth wedi tynu'r holl gymydogaeith yn nghyd, a dyna lle roedd y boys oddar ben y clawdd yn gwaeddi at Twm y Cowman nes hala hwnw mas o'i go.

"Pwy sebon sy genty, Twm?" mynte un.

"Os sent yndo fachgen?" mynte'r llall.

"Mindwch sychu'r fuwch yn sych rhag ofon iddi gal anwyd?" mynte'r trydydd.

"Gofalwch na neiff y sebon ddim niwed iddi chomplecshon hi!" mynte un arall, a dyma hi'n hwerthin mawr drwy'r trwch.

Ond hware teg i Cleveland, fe ddalws e ati fel y boy.

"Allwch chi ddim dishgwl i ddynon fel hyn sy ddim wedi gwel'd dim byd yn ods ariod, i allu deall ac amgyffred syniadau newydd fel rhain ar unwaith. Rhaid i ni gyd-ddwyn a nhw hyd nes y bo'n nhw wedi gwel'd y peth mewn gweithrediad," mynte fe.

Wel fe geson wel'd y peth mewn gweithrediad yn ods i beth oedd e wedi feddwl, druan ag e!

O'r diwedd fe gawd carnau'r fuwch yn ddigon glan i blesio Cleveland, a'r peth nesa', wrth gwrs, oedd gwishgo ei sgidiau hi.

"Pwy size mae hi'n gymryd mewn sgitshe, Twm?" mynte un o'r boys o ben y clawdd fan draw.

"Gobeithio mai nid sgitshe leison sy gyda chi!" mynte un arall. "Mae rheiny wedi myn'd mas o'r ffashiwn yn awr!"

"Ie sgitshe bytymau, neu lastic sides ddylse chi gael ar bob cyfrif!" mynte'r trydydd — a felny mlaen o'r naill i'r llall digon i neud ceffyl i hwerthin.

Ond ta beth, trwy gael help hanner dwysen o'r boys oedd yn dangos leia ond yn enjoyo fwya, fe lwyddwyd i wishgo'r sgitshe am draed yr hen fuwch, a'i chael hi'n barod, debygse ni, i hala hi sha'r boudy.

Ond dyma Mrs Cleveland yn gweyd:—

"Oh, Claud! Arhoswch i gael y rhibanau!"

Ond yr oedd Cleveland jest cael digon erbyn hyn ar sport y bobol amboutu, a dyma fe'n gweyd yn go gwtu wrthi:—

"Chi gewch wishgo rheina iddi yn y boudy."

A bant a ni yn brosession mawr sha'r boudy, a'r fuwch yn cered yn fwy clemog nag arfer o achos y sgitshe ar ei thraed hi.

Ond o'r diwedd fe gyrhaeddwyd y boudy, a thu fewn i'r portsh 'roedd yno gynnal arall—i dynu'r sgitshe off yn awr. Ond fe lwyddwyd i neud hyny hefyd, a mewn a'r fuwch sha'r boudy yn falch, debygse hi, i gael gwared o'i thrafferthion.

"Diolch i chi, gyfeillion am eich help," mynte Cleveland, gan droi at y boys oedd wedi bod yn ein helpu ni. "Ni ymdopwn ni nawr, gwlel. Dyma hanner coron i chi fyn'd i yfed iechyd da i'r fuwch. Prydnawn da."

A dyma'r hen foy's off, er byse'n well o lawer genty nhw gael aros i wel'd y diwedd.

Ond druan o'r hen fuwch! 'Roedd digon rhyngty hi a gwel'd y diwedd ar ei thrafferthion!

Fe'i cawd hi mewn i'r boudy yn go rwydd fach ar ol tynu ei sgitshe hi. Ond 'doedd hyny ddim ond dechreu'r sport.

J6277a

Dyma Mrs Cleveland nawr yn sacco'i phig mewn.

"Oh! Claud!" mynte hi. "Fe fydd yn bert pan fyddwn ni wedi ei gwishgo hi! Ody chi'n shiwr fod y rhubanau yn matsho lliw ei gwallt hi?"

Meddylwch am y fenyw yn galw blew buwch yn wallt!

Wel, ta pun, y gynnal nesa oedd golchi cynffon yr hen fawch i Mrs Cleveland gael ei chribo. Adewse hi ddim i neb neud hyny ond ei hunan.

"Menywod," mynte'r gwr, "yw'r rhai sy'n deall trafod gwallt."

A wir wn i ddim yn iawn pun ai hyny neu beth, ond fe fu'r hen fawch mor llonydd a fyse'n bosib tra roedd Mrs Cleveland wrthi yn "cribo ei gwallt" ys cywed hithau—hyny yw, welwch chi, yn cribo blaen y gynffon.

Wedi cael pobpeth i'r tipyn, ac iddi hithau blethu blaen y gynffon yn ddwy bleth fach dwi, a chlymu pishyn o rhuban ar bob pleth.

"Dyna," mynte hi. "Dyna hi'n barod i chi, Claud, yn awr."

"Nawr, Twm," mynte fe wrth y cowman. "Rw i am gwne'r ddwy ddolen rhuban yma un dros bob corn iddi."

"Hym!" mynte Twm, gan gosi ei gem.

"Wel, nawr, te, dere, da, machgen i, yn lle'n bod ni'n colli rhagor o amser."

Wn i ddim p'un ai syndod yr hen fawch, neu beth, oedd y cheswm, ond fe adawodd iddyn nhw godi ei chynffon hi i'r lan, a chyn iddi wbod yn iawn beth oedd yn bod, roedd blaen y gynffon yn sound wrth ei chyrnau hi.

Ond fe welwn wrth lygad yr hen fawch ei bod hi'n dechreu gwylltu.

"Mrs Cleveland," myntwn i, "fe fydd yn well i chi fyn'd ma's nawr am dipyn bach."

Doedd dim o'r hen fawch wedi cael ei chlymu na dim byd, welwch chi, a ro'wn i'n hanner dishgwel ei gwel'd hi'n chwareu'r andros a'r lle yn go glou fach.

Er na ddeallws Mrs Cleveland ddim beth oedd gen i, fe goelws, a fe aeth maes.

"Gwell i chi adael iddi nawr am dipyn bach," myntwn i wrth Cleveland. "Mae hi wadi cael pŵer o'i phoeni. Gadewch iddi gael tipyn bach o orphwys wrthi ei hunan iddi gael tawelu dipyn bach."

"All right," mynte fe. "Ond gadewch i fi wel'd shwd mae hi'n edrych o'r ffrynt."

A mlaen a fi at ei phen hi, i gael golwg arni. Ond roedd anynedd yr hen fawch wedi dibennu'n lan erbyn hyn. Wn i ddim p'un a ddishgynws cleren lwyd o dan ei chynffon hi, a hithau'n ffeilu ei lysgwd hi bant am fod ei chynffon hi'n sound neu beth. Ond dyma hi'n rhoi sponc, ac am draws Cleveland, nes towlu hwnw druan yn bendramwnwgl dan ei thraed hi, a dyma hi off fel creadur gwyllt round aboutu'r boudy.

tains muslin ar y ffenest, felse'r boudy yn dy byw muslin ar y ffenest, felse'r boudy yn dy byw yn gwmws, ac wrth fod yr hen fawch yn galapo, fe gitshws blaen ei chorn hi yn y curtains, a lawr daeth y cwblwl am ei chfen hi, yn gurtains, a window pole, a brackets, a phobpeth, nes ei tharfu hi'n waeth nag ariod.

A gyda hyny, dyma hi'n dechreu sciffo, a dim rhyfedd yn y byd, pan ystyri'ff dyn beth oedd hi wedi myn'd trwyddo'r prydawn hyny, a chyn pen dwy fynyd nabyddsech chi ddim mo'r lle.

Ac i neyd y drwg yn wa'th, roedd dou neu dri o'r boys wedi dod nol o'r ty tafarn i gael gwel'd shwd oedd y fawch yn enjoyo yn y parlwr goreu, ys gwedson nhw am foudy Cleveland.

Ond es do fe, fe geson eu talu yn eu dŵrn am hyny. Wa'th gyda'u bod nhw'n agor y

J6277b

drws, fe welws yr hen fuwch le o ymwarded, a
ma's a hi fel bollt, ac am eu raws nhw, a
dyna'r olwg gynta' geso i arnyn' nhw oedd
gwel'd y tri bor, yn mhob shap yn y byd, ar
lawr y portsh, a'r olwg ddiwetha geso i ar yr
hen fuwch yn galapo am ei bywyd lawr ar hyd
y gravel walk heb aros i wishgo ei sgitshe na
dim byd!

Wel, does dim ishe i fi weyd wrthoch chi i
Cleveland werthu'r fuwch y nosweth hyny am
lai na hanner beth dalws e' am dani. A nawr,
mae e' wedi ffio'r boudy i fywy yn smoking-
room splendid, a bord billiard a bagatel yn
mhob pen iddi, a ry' ni'n hala llawer i getyn
bach digon difyrus ian 'ny.

Felny, dos dim drwg yn ddrwg i gyd. Os
ffeilws e' neyd boudy, fe na'th rywbeth gwell
o lawer ohono f.

(In' barhau.)

J6227c

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XII.—ANLWC Y PLENTYN
CYNTA.—DYSGU COMMON SENSE
I RIENI.

Feallse dyn feddwl byse pobol drws nesa wedi cael digon ar wartheg tra bysen nhw byw ar ol y profiad geson nhw gyda'r hen fuwch, ond nid feily buodd hi. Er na threison nhw ddim myn'd i gadw gwartheg eu hunain wed'yn, fe nethon gamsyned arall jest cynddrwg a hyny.

I chi gael deall nawr fe aned plentyn bach i deulu drws nesa. 'Does dim byd yn rhyfedd yn hyny pan ystyriwch chi, wath mae'r un peth wedi digwydd droion mewn teuluoedd erill w i'n nabod, a mynta i fod e wedi digwydd mewn teuluoedd ry chithen'n nabod hefyd. Ond gan ta pun am hyny, dyna shwd y buodd hi yno ta beth,—fel rwy'n gweyd fe aned plentyn yno, clobyn o fachgen yn iawn, hware teg iddyn nhw, plentyn braf o blentyn plant, os gwedws y dyn.

Hwn oedd y plentyn cynta iddyn nhw. Dos dim byd yn rhyfedd yn hyny chwaith. Rhaid i ryw un fod yn blentyn cynta yn mhob teulu lle bo plant o gwbwl.

Ar ryw ystyriaeth, falle, cryn dipyn o beth yw bod yn blentyn cynta. Dyna Earl Cawdor nawr, hwnw oedd yn Viscount Emlyn llynedd, chi wyddoch, fyse fe ddim yn Earl Cawdor o gwbwl nawr oni byse mai fe oedd y plentyn cynta. A dynai i fab ynte, sy'n Viscount Emlyn nawr, fyse yntau ddim yn Viscount Emlyn oni byse mai fe oedd plentyn cynta'i dad a'i fam yntau. A dyna i chi Twm Tycerig; chi wyddoch, nag os dim llawer yn ei ben e, poor fellow, ond serch hyny mae gydag e fwy yn ei boced na sy gan Daf, ei frawd, sy'n gallach bedair gwaith ar ddeg nag e. Ac o achos pam? Dim ond am taw fe oedd y plentyn cynta, y mab hena, a felny fe gas y benshar ar ol yr hen wr ei dad.

Oh, os! Mae pwer mewn bod yn blentyn cynta—weithiau.

Ond nid bob amser chwaith! Oh! na! Credwch chi fi. Nid bob amser.

Ac os dy chi'n dowto'n ngair i dishgwylwch chi ar hanes y boy bach drws nesa. Fe oedd y plentyn cynta—ond fe fyse'n well o'r hanner iddo fod yn gyw melyn ola'r hatch neu'r gor-dedwin y lot i gyd na bod yr hyn oedd e.

Pam? medde chi. Wel fe weda chi ffraint. Am fod ei dad a'i fam e'r peth oe nhw — yn credu eu bod nhw'n gwobd pobpeth, a nhwnte'n gwobd dim wedi'r cwbl!

'Roedd Mrs Cleveland yn credu nag oedd dim fath ddyn a "Claude" os dywed hithau, i'w gael yn y byd. A hware teg iddi dos dim llawer chwaith, diolch i'r Mowredd! Rhyw fyd rhyfedd fyse hwn tae pawb yndo fe'n debyg i wr drws nesa!

Ond gan ei bod hi'n credu nag oedd neb yn debyg iddo fe yn y byd, 'roedd hi'n credu fod pobpeth wedse fe yn Ysgrythyr, a pobpeth nese fe yn right. Yn ei barn hi 'roedd amen doeth-ineb Claude mewn rhywbeth yn debyg i'r pechod anfadduol—a phechodd hi ddim yn y peth hyny eriod—o leia, ddim yn yr amser w i'n son am dano.

A hware teg i Cleveland. Fe dreiws yntau ei oreu i ddod fyny a'i dishgwyliadau hi. 'Roedd hi'n credu ei fod e yn mron bod yn holl-wybodol, neu o leia mor agos at hyny ag y gallse dyn fod. Ac er mwyn peidio ei shomi hi, 'roedd yntau yn treio ei oreu i gasglu pob

J6228a

gwybodaeth oedd yn bosibl ar unrhyw bwnce fyse'n digwydd bod yn llanw eu sylw nhw ar y pryd. Dyna shwd y buodd hi gyda'r hen fuwch, chi wyddoch. 'Roedd e wedi darllen cymaint am wartheg, ac am iechyd, a phethau felny, nes oedd e wedi balu yn lan. A dyna shwd gnath e gyment o gamsyniadau.

Nid, cofiwch chi, mod i am weyd nag yw darllen a stydio yn brion yn eu lle. Fyse'r byd yma ddim mor gall ag yw e nawr onibai fod rhywrai o'n blen ni wedi syrthio lawer, ac wedi ysgrifenu llwyrth eu hastudio, a rhywrai erill ar eu hol nhw wedi darllen a stydio y peth stydiodd e a ysgrifonodd y lleill. Oh na! dw i ddim yn dibrisio dim ar ddarllen a stydio yn eu lle priodol. Ond b'le mae eu lle nhw, dyna'r cwestiwn! A rw i'n gweyd wrtho chi fod pum' mynydd o synwyr cyffredin weithiau yn werth mwy na blwyddyn o ddarllen a stydio, os na fydd synwyr cyffredin yn cydfyn'd a'r darllen.

Wel, heblaw'r holl wybodolrwydd, 'roedd gwraig drws nesa yn credu fod ei gwr yn anffaelledig—neu mor agos at hynny ag y gall neb ond y Pab ei hunan fod! A hware teg i Cleveland, 'roedd e'n cisho byw yn deilwng o fydd ei wraig yndo fe, a phan fyse fe'n gweyd rhywbeth, 'roedd e yn ei weyd e gydag arddeliad ac awdurdod, a felse dim posib iddo fe gamsyned. A dyna shwd y buodd hi, fel y gwyddoch chi, yn hanes yr hen fuwch, druan.

Tae'r drwg wedi dibenu gyda'r hen fuwch fyse dim rhyw lawer iawn o ods. Fuodd neb lawer iawn gwaeth ohono—ond poced Cleveland. Ond y drwg ag e oedd fod yr un egwyddor ag oedd wrth wraidd y drwg amboutu'r hen fuwch wedi dod i weithrediad yn nglyn a'r plentyn cynta, druan bach.

Fe ddarllenws ei dad fwy am boutu plant nag a ddarllenws e hyd yn nod am boutu arifeiled. 'Roedd e'n darllen, darllen, hwyr a bore a chanol dydd; Sul a gwyl a gwaith, tra buodd y fenyw fach yn ei gofal, a wedi geni'r plentyn. A druan ag e! Fe allse'r hen Nansi: Fela weyd mwy wrtho fe mewn cwarter awr am y ffordd i drin a bwydo plentyn nag a allws e ddysgu mewn blwyddyn o ddarllen.

Ond meddylwech chi o brysur calon nawr am fywyd plentyn bach o dan oruchwyliath dyn fel Cleveland oedd yn darllen pobpeth oedd e'n lyncu, na'i dreslo fe chwaeth. Barnwch chi beth oedd bywyd plentyn bach oedd yn cael dim byd gwell yn y byd yma na bod yn destyn experiments y tad o dan y fath amgylchiadau a hynny!

Diwedd anwyl! Son am greulondeb y vivisectionists, ac am ddiodeffiaidau'r creaduriaid direswm sy'n cael eu tori yn fyw gan ddoctoriaid a phrentisiaid doctoriaid er mwyn dod i wybodaeth am rai o ddirgelion corph a chlefydau a gwenwyn a meddyginiaethau a phethau felny. Dyw diodeffaint felly ddim yn y byd at ddiodeffiaidau plentyn cynta' o dan law tad a mam sy'n gwbod dim mwy am drin plentyn nag a wyddan nhw'r ffordd i hedfan!

Rwy'n credu mod i wedi son o'r blen am starto "Cymdeithas i Attal Creulondeb at Wyr Priod Ifenc." Wrth ail feddwl, mae cymment o ishe "Cymdeithas i Attal Creulondeb at y Plentyn Cynta'."

Wn i ddim yn iawn shwd mae myn'd amboutu hynny chwaith. Prin falle gall'e ni neyd fel yr Irishman hynny oedd am gael lessons mewn canu gyda Dr Parry.

"Faint i chi'n godi am lessons canu, Dr Parry?" mynte'r Irishman. "Lessons, nawr, a nyscrit i i ganu yn debyg i Ben Davies."

"Hweigen am y lesson gynta', a hanner coron am bob un wecy'n," mynte'r doctor.

"Wel, fe ddechreu a gyda'r ail ynte," mynte'r Irishman.

J6228b

Wn i ddim p'un a lwyddws yr Irishman i gael yr ail lesson o flaen y gynta' neu bido, ond job go annodd fyse trefnu i'r ail blentyn yn mhob teulu i gael ei eni o flaen y cynta' o hyn i ma's.

A falle, hefyd, wedi ail feddwl, gall y gymdeithas gynta', cymdeithas i ddysgu merched ifenc shwd i gadw ty a shwd i dendo gwr, falle y gall hyny helpu i neyd yr ail, sef shwd i edrych ar ol y plant, yn llai angenrheidiol.

Ond ta beth, ta shwd yn y byd y gwneir y peth, mae yn eitha amlwg fod eische ei neyd e'n enbeidus!

All neb byth ddirnad faint mae'r plentyn cynta' yn mhob teulu yn gorffod ddiodef wrth ddysgu ei dad a'i fam shwd i ofalu am yr ail blentyn—a'r rest ohonyn nhw. Rhaid i fi gyd-nabod, ta beth, nag w i ddim yn ddigon o ysgolhaig i weitho'r swm ma's yn iawn. Wn i ddim p'un a allweh chi neu bido. Os gallweh chi, ry' chi'n fwy o ysgolhaig na fi, dyna i gyd sy' gen i i weyd wrtho chi.

'Roedd trueni ar 'y nghalon i, ac ar galon mishtres hefyd, wrth feddwl am y plentyn bach drws nesa', a'r peth oedd yn rhaid iddo fe, druan bach, fyn'd trwyddo fe wrth ddysgu common sense i'w dad a'i fam.

Pob bwyd ddarlense Cleveland am dano fe, pob physic i blant wel'se fe mewn advertisements, pob rhyw fath o daclins at use plentyn y dese fe am ei draws e', 'roedd yn rhaid iddo fe ei gael e' i'r plentyn bach. Felny, cyn bod y plentyn bach yn dri mish oed, 'roedd gyda Cleveland ddigon o stwff o bob math i starto shop grocer, a shop druggist, a shop baby's general provider!

Fyse o ddim dyben i fi weyd wrtho chi am y cwbl yr aeth y plentyn bach drwyddo fe, druan bach, cyn i'w dad ddysgu sense, ond fe weda i chi am un amgylchiad fel engraipht. Chai i ddim amser i weyd yn y bennod yma, ond mi gweda fe yn y nesa'.

(*In' barhau.*)

J6228c

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XIII.—CREULONDEB AT BLEN- TYN.—ATHRONIAEH Y PHYSIC.— LLAETH UN F UWCH.

Wel, fel rown i'n gweyd wrtho chi ar ddiwedd y bennod o'r blaen, rw i nawr am roi un engraipht i chi o lawer o greulondeb Cleveland at ei blentyn.

A cofiwch chi nid creulondeb dyn ciaidd oedd e. O, nage! Ta faint o olwg sy gyda chi ar eich plentyn, fe fentra i weyd na all fod dim mwy gyda chi nag oedd gan Cleveland ar ei blentyn yntau.

A wir, pan ystyrion ni, mae creulondeb cariad yn amal iawn yn fwy ac yn waeth na chreulondeb pobol real galed.

Ond peidiwch chi a nghamsynied i, chwraith. Fe all fod mwy o gariad gwirioneddol mewn creulondeb neu galedwch ymddangosiadol nag a fyse mewn tynerwch. Meddyliwch chi nawr am blentyn drwg. Chi welwch ambell i fam neu dad yn tolach plentyn felny pan dyise nhw roi eitha hwipsi iddo fe.

"Oh," wediff y fam, os gwedwch chi air wrthi am hyny. "Alla i byth cael ar y nghalon i wado John bach. Mae gen i ormod o olwg o'r hanner arno fe, yr un bach anwyl shwd ag yw e!"

Ond druan ohoni, nid gormod o olwg ond rhw fach o olwg sy genty hi arno fe wedi'r cwbl! Pe byse gyda hi ddigon o olwg arno fe, fe nese hi yr hyn fyse oreu ar ei les e, ac nid yr hyn fyse'n ymddangos yn oreu ar yr olwg gynta.

Yr un peth yn gymws gyda physic, neu foddion doctor. Fe adewiff ambell i dad neu fam i'r plentyn bach odde am oriau neu fci-warnodau yn lle rhoi phsyc iddo fe, pan fyse'r phsyc yn rhoi esmwythder iddo fe mewn ychydig iawn o amser.

"Mae'r hen phsyc yna mor gas!" mynte'r fam. "Alla i byth yn y myw a ohael ar y nghalon i neud i Mari fach ei gymryd e!"

Nid cariad gwirioneddol yw peth felna o gwbl. Fe fyse'r gwir gariad yn foddion nid yn unig dioddef ei hunan, ond gwel'd y plentyn yn dioddef hefyd—os byse'r dioddef hyny er lles iddo fe yn y pen draw.

Nawr, hware teg i Cleveland a'i wraig, nid y creulondeb sy'n codi oddiar wendid cariad, ond y creulondeb sy'n codi oddiar nerth cariad, oedd eu creulondeb nhw at yr un bach. Pan oedd yr un bach yn dioddef dan eu dwylo nhw dos dim dwt gen i nag o'e nhw'ch dou yn diodde mwy na'r plentyn wrth wel'd y plentyn yn diodde. Ond gan eu bod nhw'n credu mai er lles y plentyn roedd y cwbl roe nhw yn trafferthu eu hunain,—a gwaeth na hyny yn gallu dioddef gwel'd y plentyn yn dioddef, a roedd hyny yn llawer mwy o job.

A nawr at hyn own i'n hala—fod ishe cymysgu commonsense gyda gwybodaeth a chyda chariad hefyd lle bo plant yn y cwestiwn. Fe fyse'n well gyda Cleveland ei hunan, a'i wraig hefyd o ran hyny, sacco'i fys ei hunan yn y tan na gwneyd cam a'r plentyn.

Ond saeson nhw iddim mo'u bysedd yn y tan, er iddyn nhw neud cam ofnadw a'r plentyn—a hyny i gyda am nag oedd dim synwyr cyffredin, commonsense, gyda nhw i gymysg am ben eu cariad a'u gwybodaeth.

Fe welson ni sawl engraipht o hyny o brd i giddyl, ond dw i ddim am son nawr am ddim ond un ohonyh nhw. A dyma fe.

J6229a

Roedd y plentyn bach drws nesa yn dod yn mlaen yn gampus i'r byd, yn dod yn mlaen fel cyw'r rwydd os gwedso nhw, am spel ddiogel.

Roedd Cleveland yn credu mai o achos ei ddull e o fagu'r plentyn roedd hyn.

"There's nothing like system, you know," mynte fe. "Dos yna ddim byd at reol a threfn wrth fagu plentyn fel pobpeth arall."

"Cadw buwch, er engraipht," myntwn i yn sly fach.

"Oh, dewch! Pidwch towlu hono i ngwyneb i byth a hefyd!" mynte fe. "Roedd y system fan ny yn eitha right ond bod rhywbeth y mater ar y fawch."

"Ry chi'n gweyd y gwir," myntwn i.

Fe ddrychws arna i, felse fe mewn dwt pun a own i'n siriws ai pido, a finnau'n dryched mor sobor a'r judge.

"Wel?" mynte fe. "Shwd?"

"Oedd," myntwn i. "Roedd rhywbeth y mater ar y fawch, a dyna pam na allsech chi gael gyda hi i olchi ei thraed, a gwishgo sgitshe, a uso'r boudy fel drawing-room."

"Wel, beth oedd hyny?" mynte fe.

"Oh, dim ond taw buwch a nid dyn oedd hi!" myntwn i.

Doedd dim, welwch chi, a'i tynso fe o'i ben e, nag oedd e'n right wedi'r cwbl yn nghylch yr hen fawch—a'r un egwyddor yn gwmws oedd gydag e yn nghylch y plentyn, a chredse fe ddim llai nad effaith ei "system," os gwedws e, oedd fod y plentyn bach yn dod mlaen mor anghyffredin.

Ond tae e'n gwbod y cwbl nid o achos ond ar waetha'r system roedd yr un bach yn dod yn mlaen y mishoedd cynta. Roedd y plentyn drwy naturiaeth yn un bach cryf anghyffredin, yn ddigon cryf i wrthsefyll effaith niweidio y system am spel ddygel.

Ond bob yn dipyn fe aeth y plentyn i waeth-ygu, a hyny gyment nes y mynodd y fam, er cymaint ei ffydd yn ei gwr, alw'r doctor mewn. Trwy lwc roedd y peth wedws y doctor yn cydfyn'd i'r tipyn a rhywbeth oedd Cleveland wedi wel'd mewn rhyw hen lyfr neu giddyl, a felny fe dreisws e ei oreu i gario mas beth oedd y doctor yn weyd.

"The milk of one cow," mynte'r doctor. "Rhaid i chi fwydo'r plentyn ar laeth un fawch."

Wrth gwrs, beth oedd y doctor yn feddlwl oedd mai laeth yr un fawch ddyfse'r plentyn gael o hyd, yn lle newid y laeth o'r naill ddydd i'r llall.

Ond ta p'un. Rhyw ddiwrnod, fe drows meistres a finnau i mewn i'r drws nesa. 'Doedd gyda ni ddim neges neillduol yn y byd; ond fel bydd cymydogion yn lico rhoi tro am eu gilydd weithre.

A dyna lle 'roedd Cleveland a'i wraig yn y dining-room yn hawddgar anghyffredin.

"Shwd mae'r babi?" mynte mishtres.

"Oh, rwy'n credu ei fod e'n well," mynte Mrs Cleveland.

"Chi wyddoch, gariad, ei fod e' lawer yn well!" mynte Cleveland. "Doctor a thipyn o synwyr yn ei ben e' yw'r doctor yna."

"Beth mae e'n weyd am yr un bach?" mynte mishtres wed'yn.

"Oh," mynte Cleveland, "gweyd am i ni roi llath un fawch iddo fe."

"Eitha right," myntwn i. "Rw i'n gwbod am blant bach wedi eu gwella wrth gael eu cadw ar laeth un fawch. Dyna blentyn bach diwetha'ch chwaer," myntwn i, gan droi at mishtres.

"Ie," mynte hithau. "Dos dim dwt nag yw e'n beth da."

"There you are, love!" mynte Cleveland, gan droi at ei wraig. "Chred'se chi ddim mohono i. Falle credwch chi nawr!"

"Oh, Claude! Chi wyddoch mod i'n eich

J6229b

credu chi! Ond ro'wn i'n meddwl ei fod e'n ormod i un bach fel baby."

"Yn ormod?" mynte mishtres. "Beth yn ormod?"

"Llaeth un fuwch," mynte Mrs Cleveland.

Ond cyn i ni sylweddoli beth oedd gyda hi, dyma Cleveland yn canu'r gloch, a'r fynyd nesa' dyma'r nurse a'r plentyn bach yn ei chol yn dod mewn.

Mor gynted ag y gwelws yr un bach ei dad, dyma fe'n llefain.

"Dewch ag e' yma," mynte mishtres wrth y forwm.

A fe'i cymws e' ar ei bartfed, a dyma hi'n dechreu hware ag e', a'r un bach yn dod yn ffrinds a hi mewn mynyd.

A dyma mishtres, fel bydd menywod, chi wyddoch, yn dryched dau ei ddillad e'.

"Mrs Cleveland," mynte hi; "beth sydd ar ei fola bach e'? Mae e'n llawn ymbeidus."

"Ro'wn innau'n zweyd hyny, ond 'roedd Claude yn meddwl fod pobpeth yn all right."

"Dewch a'r plentyn i fi," mynte fe. "Mae'n bryd iddo gael ei fwyd."

"Des dim isha hwyd arno fe, a'i gylla bach e' a'i fola fe mor llawn a hyn," mynte mishtres. "Tipyn bach o fagnesia, neu ddiferyn bach o castor oil, nesa les iddo fe."

"Ond ddaw e' byth yn round a hi os na chaiff e' fe yn ei bryd," mynte Cleveland.

"Dod round a pheth?" mynte mishtres.

"A llaeth yr un fawch," mynte fe, gan dynu rhywbeth fel pwmp bach, a phib india rubber wrtho fe ma's o'r cwpbwrdd.

"Beth y chi'n feddwl?" mynte mishtres.

"Ond yw e' i gym'ryd llaeth un fuwch bob dydd, a dyw e' ddim wedi uso'r godro boreu heddy' i gyd eto," mynte'r ffwlcyn.

A 'roedd y ddou, os gwelwch yn dda, yn meddwl fod yn rhaid i'r un bach i uso llaeth un fawch i gyd! A roe nhw wedi bod yn stwffo, ac yn stwffo'r un bach druan ag e', nes prin gall'se fe gyffro. A 'roedd Cleveland wedi gweyd rhyw fath o invention i bwmpo'r llaeth i gylla'r babi pan byse fe'n pallu cym'ryd dim rhagor.

Tae chi'n clywed mishtres yn eu trin nhw pan ddeallws hi! Ond fe safiws yr un bach, a fe rows stop ar y creulondeb cariad hyny, ta beth.

(*Pw Iarhau.*)

J6229c

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XIV.—Y CEFFYL NEWYDD.—
TEILIWR CEFFYLAU.—FFORDD NEWYDD
I WISHGO CEFFYL.

Ry chi'n gwel'd nawr, rwy'n siwr o hyny, mai nid menyw gyffredin oedd gwraig ty nesa, ac mai dyn go anghyffredin oedd gwr ty nesa. Ond dy chi ddim wedi clywed y cwbl, na wedi sylweddoli gallu eithriadol y dyn ei hunan i neud camsyniadau dwl wrth dreio bod yn gall. Ond, o ran hyny, wrth dreio bod yn gall mae dyn yn myn'd yn ffol, y rhan amla. Felny roedd hi, ta beth, gyda gwr ty nesa, a'r drwg ohono fe oedd nag oedd dim posib ei argyhoeddi e mai ffwlwyn oedd e; fe fynse fe gredu o hyd nag oedd neb mor gall ag e yn y byd.

Fel rw i wedi gweyd wrtho chi o'r blaen mae'n anodd i chi gredu nawr y fath ddwli gredse fe ac y nelse fe wrth dreio gneud ei hunan, debygse fe, yn gallach na phawb. I fi gael gweyd wrtho chi nawr am dro neu ddou ddigwyddws yn ei hanes e. Roedd hyn, cofiwch, ar ol helynt yr hen fuwch, ac ar ol ei gynyg e i neud i'r babi yfed llaeth un fuwch i gyd bob dydd.

Am spel ar ol busnes yr hen fuwch doedd dim a fynse fe a phethau yn perthyn i gadw anifeiled. Roedd gweyd y gair "fuwch," yn ei glyw e, jest fel gwaeddi "llygoden" yn nghanol trwp o fenywod—fe fysen off am y cynta. A felny roedd hi gydag e. Os byse fe mewn cwmpl, ac yn moyn cael ei wared e, doedd dim ishe i chi neud dim ond tynu rhyw son am fuwch i mewn i'r sharad—fe fyse hyny yn ddigon a mwy na digon, a welsech chi ddim ond ei gwt e mewn wincad!

Wn i ddim ai shom o achos iddo ffae'u dysgu'r fuwch i fyw fel dyn, a shom am ei fod e wedi cael ei neud i ddryched mor fach yn ngolwg ei wraig yn nglyn a llaeth un fuwch i'r babi, neu beth, ond fe aeth yn gynolig i wala, a mor ishel, weithe, nes gallse chi bron meddwl bod rhyw shinc arno. Roedd ei i wel'd yn gwaethygu o'r naill ddydd i'r llall.

Allsw'n i ddim a'i wel'd e felny yn gwaethygu yn ei olwg o hyd ac o hyd, heb roi gair bach o gynghor wrtho fe, a felny fe etho yn nghyd a hi.

"Dishgwllwch yma," myntwn i wrtho, "dyw e ddim use yn y byd i chi fyn'd mlaen fel hyn."

"Wel," mynte fe, "beth sy'n bod?"

"Chi sy ddim yn iach," myntwn i.

Dyma fe'n fflamo mewn muned.

"Oh," mynte fe, "rwy i'n all right, diolch i chi. Ac heblaw hyny wyddwn i ddim eich bod chi yn ddoctor."

Dyna shwd y gwedws e'n gwmws.

Wel, wrth ei glywed e mor ddigonol, fe bendrffynes roi slap fach nice iddo.

"Wel," myntwn i, fel pe bawn i'n ail feddwl y peth, "wn i ddim ar ol ystyriaeth na edrychse hi'n well."

"Na edrychse pwy yn well?"

"Na edrychse Mrs Cleveland yn well."

"Beth y chi'n feddwl?"

"Meddwl beth w i yn weyd, yr edrychse hi'n well fel gwitw na fel gwraig."

Fe ddrychws arna i felse fe'n moyn y'n llyncu i. Ond fe gwlodd mewn muned, a dyma fe'n gofyn,

"Wel, beth y chi'n weyd fyse oreu i fi?"

"Wel," myntwn i, "beth gynghorswn i chi i neud fyse brychgan am gwpwl o oriau bob dydd."

"Does gen i ddim ceffyl," mynte fe.

J6239a

"Mae digon o geffylau i gael," myntwn innau.
"A rw i'n oredn nag os dim byd yn well at eich dolur chi na dipyn o exercise felny."

Edrych yn amheus nath e am dipyn, a wedyn fe glenshes i'r peth drwy weyd:—

"Ac heblaw hyny fe allsech fyn'd a'r wraig a'r plentyn mas ambell waith, fe fyse'n iechyd calon iddyn nhw'ch dou."

"Ody chi'n meddwl hyny?"

"Rwy'n gwbod hyny," myntwn innau.

"Wel, o'r goreu!" mynte fe. "Fe fynd i geffyl, doed a ddelo."

A dyma fe'n codi felse fe'n myn'd i edrych am geffyl y funed hyn.

On dyma fe'n troi nol wedyn oddar bwys y drws, ac yn gweyd:—

"Rwy'n sposo bydd rhaid cael ceffyl mawr iawn?"

"Oh na, fe wnaiff cobyn bach y tro yn nobl," myntwn i.

"Ond fydd dim digon o le," mynte fe.

"Digon o le yn mhle'r dyn?"

"Ar ei gefen e," mynte fe.

"Digon o le ar ei gefen e i beth?" myntwn innau wedyn.

"Ond digon o le i fi, a Mrs Cleveland, a'r babi, i ishe gyda'n giddyl ar ei gefen e!" mynte fe.

Roedd y bal yn meddwl i'r tri frochgan yr hen geffyl i gyd gyda'u giddyl!

Shwd dales i heb hwerthyn mas, mae'n anhawdd gwbod. Ond fe netho. Fe wedes wrtho fe byse un ohonyn nhw ar y tro yn ddigon, ond os lisen nhw fyn'd gyda'u giddyl byse gofyn iddo gael dogear bach, a mae hyny fyse ore iddyn nhw.

Wel, hware teg iddo fe, fe wrandaws arna i y tro hyny, a boreu ail tranoeth dyma fe yn y ngwahodd i i fyn'd i wel'd y ceffyl newydd oedd e wedi brynu.

A wir, roedd e wedi bod yn lweus i wala, wedi cwrdd ag un o'r pethau mwya anghyffredin yn y byd hyn, ta beth, dyn gonest yn gwerthu ceffyl!

Cobyn bach cryf, esmwyth, "quiet to ride or drive," ys dywed yr acshwners, — a chyda'r cwblwedi ei gael e am y talse fe.

Fe wedes innau wrtho yn meddwl ei fod e wedi cael eitha borgen, a fe wedes wrtho fe b'le byse oreu iddo fe fyn'd i ddryched am ddogear bach, a harness, a phobpeth i gael cwpla'r fusnes.

Fe fuodd hwant arna i i weyd wrtho fe dan yr un am hwilo am ryw grwtyn bach o osler, wath fe wyddwn, debygsw'n i, gnese fe botsh ohoni ta e'n cymryd at wisgho'r ceffyl ei hunan.

"Ry chi'n gwbod y ffordd i wishgo fe, wrth gwr?" myntwn i, er mwyn cael swmpo.

"Gwishgo pwy?" mynte fe.

"Gwishgo'r ceffyl," myntwn innau.

Fe ddrychws arna i fe'se fe'n dowto pun ai cellwair own i. Ry chi'n gwel'd roedd y hen chap yn cofio am yr hen fuwch, a'i sgitshe a'i sanau, ac yn hanner ofni mai treio gneud fwl ohono fe own i. Ond mae'n debyg iddo gael ei argyhoeddi wrth y ngolwg i mod i'n ddigon onest yn y peth own i wedi weyd.

"Wel," mynte fe, "a gweyd y gwir wrtha chi dw i ddim yn gwbod yn iawn pwy ddillad sy ishe arno fe, na ble mae cael teiliwr i gneud nhw."

O'r sobor anwyl! Meddylweh am ddyn yn son am deiliwr ceffylau! Wyddwn i ddim pun ai hwerthin am ei ben e, neu cymeryd tosturi arno fe neswn i. Ond fe netho'n meddwl fyny, er mwyn ei wraig fach e, i roi llaw o help iddo yn y mater hyn, ta beth.

Felny fe gynniges fyn'd gydag e i brynu ffrwyn a chyfrw, a gan ei fod e wedi son am "ddillad" i'r ceffyl, fe biges horse cloth hefyd, er mwyn iddo feddwl fod rhywbeth yn y syniad o ddillad wedi'r cwblw.

J6239b

Pan ddaeth y pethau gatre o dy'r sadler dyna lle bu cynnal aboutu gwishgo'r ceffyl. Roedd e'n rhy uchel i gydnabod na wydde fe ddim shwd oedd gneud,—ac ar yr un pryd a gormod o ofan arno fe i ddynon gal sport am ei ben e, tae e'n gneud rhyw ffrwst embed o gamsyned.

Felny, boreu tranoeth dyma fe'n galw arna i mewn i'r stabal, dan esgus gwel'd shwd oedd y ceffyl yn dryched wedi ei wishgo.

Pan etho i mewn, roedd golwg rhyfedd ar y ceffyl druan!

Roedd bit y ffrwyn o dan en y ceffyl bach yn lle yn ei ben e, a'r olwg fwya ofnadw arno fe welsoch chi a'ch llyged eriod!

Ond am y cyfrw! Y Mowredd anwl!

I chi gael deall, rown i wedi mynu martingale rhag ofan byse'r ceffyl dipyn bach yn wyllt, a Cleveland ddim yn gyfarwydd a brochgan.

Wel, roedd y bal wedi doddi'r cyfrw'r part ol yn m'laen; wedi tynu'r martingale dros ben ol y ceffyl, rhwng ei ddwy goes ol e, a doddi ei ben e yn sound wrth un o'r stirrups; roedd e wedi tynu'r crwper yn mlaen at ben y ceffyl, a'i ddodi e yn sound wrth dop y ffrwyn rhwng dou clust y ceffyl!

"Wel, odw i wedi gneud yn right?" mynte fe, gan wenu mor ddiniwed a phlentyn bach arna i.

"Ry chi wedi gneud cynnyg go lew o gynnyg cynta," myntwn i. "Ond falle byse fe'n well fel hyn."

A dyma fi'n cymhwysu'r pethau oedd e wedi eu doddi o hwith. A hware teg, fe gymrws i lesn yn ddigon tawel; a fe ddysgws y ffordd hefyd i wishgo'r ceffyl yn right cyn i fi fadel ag e.

J6239c

(I'r barhau.)

PROFIAD PAR IFANC**Sef Gofidiau'r Byd Presennol.**

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

**PROFIAD XV.—CEFFYL CALL A MISHTIR
DWL.—RHOI LESSON I'R CRWT.**

Wel, fe gym'rws Cleveland rhyw ddelight anghyffredin yn y ceffyl, a phob pyrrawn ar ol dibenu a'i fusnes, dyna lle byse fe, welwch chi, gyda'r hen geffyl, naill ai yn y stabal neu ynte yn myn'd ar ei gefen e' am ride fach, neu yn myn'd ma's am ddrive gyda'r wraig a'r babi. 'Roedd y babi erbyn hyn yn dod yn mlaen fel cyw'r wydd, os gwed'son nhw, a 'roedd mish-tres yn cym'ryd y credit i gyd iddi ei hunan am hyny, o achos, fel gwyddoch chi, iddi hi eu hadel nhw i ladd yr un bach drwy stwfflo gom-rodd arno wrth gisho cael gydag e', poor thing, gym'ryd llaeth un fuwch i gyd bob dydd.

Wrth gwrs, ddaeth y cymydog drws nesa' ddim yn eitha mishtir ar ei grefft o drin y ceffyl am spel fach. All'sech chi ddim dishgwyl i ddyn nag oedd yn gwbod y gwahaniaeth rhwng martingale a chrwper, nac yn gwybod pwy hen i'r cyfrw ddyl'se fod yn mlaen a ph'un yn ol, i fish-troli pob gwybocaeth am geffyl ar unwaith. Ond fel rwy'n gweyd wrtho chi, fe ddysgwrs, os mai gam bwyll fach 'roedd e'n dysgu, eto i gyd 'roedd e' yn dysgu, a dyna'r peth mawr wedi'r cwblwl.

Trwy lwc, a fyswn i ddim maes o'n lle tawn i'n gweyd trwy drugaredd, 'roedd y ceffyl gas e' yn un od o rwydd i drafod. All'se fe byth a bod wedi cwrdd ag un gwell at ei bwrpas e', all'swn i feddwl. Tae'r hen geffyl yn gwbod hanes a ffaeledde ei fishtir newydd, all'se fe byth a bod wedi ymddwyn yn fwy tebyg i Gristion tuagato.

'Roedd yn ddigon o sight i wel'd Cleveland a'r hen geffyl ambell waith. Chi all'sech dyngu fod y cel bach yn gwbod ac yn deall y cwblwl. 'Roedd y ceffyl dipyn bach fwy cyfarwydd a'r hewl ac a shwd i neyd ar yr hewl nag oedd ei fishtir, a chi all'sech wel'd a hanner llygad tae chi'n sylwi os mai Cleveland oedd yn esgus rheoli mai'r hen geffyl oedd yn gwbod beth ddyl'sid neyd—ac yn ei neyd e' tae beth nel'se 'i fishtir. Braidd na all'swn i gym'ryd y'n llw weithe, pan byswn ni'n cwrdd a nhw'ch dou ma's gyda'u giddyl, a Cleveland falle'n plyco'r reins llaw dde pan ddyl'se fe blyco'r llaw hwith. a'r hen geffyl yn myn'd yn gros cwmws i'r ffordd oedd y reins yn cael eu plyco, braidd na all'swn i gym'ryd y'n llw mod i' wedi gwel'd yr hen geffyl yn winco arna i ac fel'se fe'n pointo a'i glust at 'i fishtir, gystal a gweyd:—

"Dyco fe wrthi yto! Ond rw i'n deall yn nobl!"

A lwcs i fod e', neu dyn a wyr pwy ffrwt fyse Cleveland druan wedi neyd.

Wrth gwrs, ddaeth dim o Cleveland, fel gwed-es i, i wbod y cwblwl am y ceffyl a'r harness ar unwaith—er fod yr hen geffyl, hware teg iddo fe, yn gneyd pobpeth all'se fe i helpu ei fishtir. 'Roedd yn ddigon o sight i chi wel'd y ddou pan fyse Cleveland yn gwishgo'r ceffyl. 'Roedd y cel bach welsoch chi yn cadw ei lygad ar ei fishtir bob cynnyg, ac yn gofalu na chese fe ddim gneyd camsyned os gal'se fe help ta beth. Fe godse 'i gwt i'r lan i chi pan fyse i'n bryd i ddodi'r crwper, gystal a gweyd wrth Cleveland:—

"Y crwper nawr, was i!"

A fe blygse 'i hen i gael dodi'r glustog, a fe godse 'i ben wedi i gael y bit a'r ffrwyn yn right, fel mai amhosib jest iawn fyse i neb neyd camsyned wrth ei wishgo fe!

J6231a

Fe alla weyd wrtho chi am un tro weles i a'n llygid y'n hunan. 'Roedd Cleveland yn gwisgo'r ceffyl i ddodi yn y car, a wedi towt'r harness ar ei gefen e', dyma fe'n myn'd i ddodi'r bit a'r ffrwyn cyn dodi'r glustog. Nawr, fel gwddoch chi, allwch chi byth a dodi'r glustog ar ol dodi'r bit a'r ffrwyn, ond er mod i'n gwbod hyny, wedes i ddim gair o mhen er mwyn cael gwel'd shwd ymdopse Cleveland.

Pan hercodd Cleveland y bit a'r ffrwyn, a myn'd at ben y ceffyl, dyma'r hen gel yn ysgwyd ei ben felse fe'n gweyd

"Nage'r, ffwleyn! Nid hwna!"

Ond ddeallws Cleveland ddim, a dyma fe'n citsbo yn mhen y ceffyl. Ond 'roedd yr hen gel yn ffit i gwrdd ag e', a lawr ag e' i ben rhwng ei ddwy gos flaen fel na all'se fe byth ddodi'r bit rhwng ei ddannedd e'.

"Beth sy' arnat ti'r, ceffyl dwl?"

"Mae'r ceffyl yn gallach na'i fishtir," myntwn i yndw i'n hunan, er na wedes i ddim yn uchel chwaith, ond dala i watsho i gael gwel'd beth ddese ohoni.

Wel, pan wedws Cleveland hyny, dyma'r hen geffyl yn codi ei ben, ac yn dryched mewn syndod ar ei fishtir. Ry chi'n gwel'd, 'roedd y ceffyl yr un farn a finnau'n gwmws am Cleveland, ond yn unig na all'se fe ddim a gweyd beth oedd e'n feddwl am dano. O leia, all'se fe ddim a gweyd mewn geiriau—er iddo weyd yn ddigon plaen mewn ffordd arall hefyd.

Ond ta beth, dyma Cleveland yn gneyd cynnyg arni wed'yn, fel o'r blaen. Ond fyn'se'r hen geffyl ddim. Fe godws ei ben lan tua'r ceiling fel na all'se Cleveland ddim yn ei fyw gael gafel yndo i roi'r bit rhwng ei ddannedd.

"Hawyr bach!" mynte Cleveland. "Beth sydd arnat ti'r, ceffyl?"

Fe ddrychws y ceffyl arno am dipyn, a wed'yn dyma fe'n troi ac yn myn'd ei hunan at y man lle 'roedd y glustog yn hongian ar y wal, ac yn dodi ei ben ar bwys hono, gan weyd mor blaen yn ei ffordd fud e' ag y gall'sech chi neu finnau weyd a'n tafod:

"Y glustog sy' i fod gynta', os gwelwch yn dda!"

"Wel, i jaist ariod!" myntwn i, gan daro'n llaw ar y nglun. "Dyna'r ceffyl calla weles i ariod yn y mywyd!"

Fe gochws Cleveland iddi ddou clust pan welws e' hyny, a rwy'n credu iddo ddeall rhywbeth hefyd; ond ta p'un am hyny, hwerthin nath e', a gweyd:

"Mae'r ceffyl yn gwbod yn well na fi beth sy' i wishgo, debygswa i."

"Fawr job iddo," myntwn innau.

Wel, pan dynws Cleveland y glustog odd'a'r y wal, dyma'r hen geffyl yn eitha ples, ac yn gadel iddo 'i dodi hi dros ei ben e', ac wed'yn yn ddigon esmwyth iddo ddodi'r bit a'r ffrwyn a chwblwl. Fe fyse'n annodd gyda chi gredu heb i chi gael gwel'd eich hunan fel'ceso i.

Ond dyw e' ddim use credu'r chwblwl am Cleveland chwaith. Fe glywes i'r crwt sy' gydag e' yn dryched ar ol y ceffyl yn gweyd y pethau rhyfedda glywsoch chi ariod, pethau na alla i byth a'u credu nhw ta beth. Fe 'i clywes e'n gweyd fod ei fishtir unwaith yn meddwl myn'd ma's i frochgan, a'i fod e' wedi gwisgo'r cyfrw'r part ol yn mlaen. Sylws y ceffyl ddim ar y pryd gan nag oedd dim crwper gydag e' wrth y cyfrw y diwafnod hyny. Felly, fe a'ws iddo ddodi'r gengel a phobpeth yn all right. Ond ryw ffordd, fe dda'th y ceffyl i spectro nag oedd pobpeth ddim yn right, a fe drous ei ben yn ol, a fe welws fod y cyfrw y part ol yn mlaen.

Nawr, fe wyddai'r hen gel byse dim diwedd ar spri y boys pe gwelse nhw Cleveland yn myn'd ma's ar gefen ceffyl a'r cyfrw o hwith, a fe benderfynws roi stop ar ei spri nhw cyn dechreu.

J6231b

Wn i ddim a fyse Cleveland yn ddigon call i whod p'un oedd y part blaen i'r cyfrw, ac yn ddigon dwl i iskte ar y cyfrw a'i wyneb at y part blaen right i'r cyfrw, a thrwy hynny at gwt y cyfrw, ai peido. Ond fel digwyddws hi, cha's e' ddim cynnyg ar neyd hynny.

'Roedd y crwt, mynte fe, yn dryched ar 'i fishtir yn gwishgo'r ceffyl o hwith, a jest a bresto gan hwertain, ond heb weyd dim gair er mwyn cael mwy o sport.

Wel, fe ddrychws y ceffyl gynta i gyd ar ei fishtir, a wed'yn ar y crwt, felse fe am wel'd p'un oedd ddwla o'r ddou. Fe wyddai, wrth gwrs, fod y crwt yn gwbod shwd ddyl'se'r cyfrwy fod, ta beth am ei fishtir.

Pan dreiws Cleveland fyn'd ar gefen y ceffyl, ody chi'n meddwl cese fe?

Dim danger!

'Roedd y ceffyl yn baco nol round orwth 'i fishtir, a hwnw ag un droed yn y warthol ac yn here, here, hercan, a'r llall wrth ddi'yn y ceffyl round about i'r clos.

"Danco d'r ceffyl, sa'n llonydd!" mynte Cleveland, gan dynu ei droed o'r warthol o'r diwedd. "John! dere i ddala pen y ceffyl tra bo i'n myn'd ar ei gefen e'! Fe ddysga i e' i hware trices fel hyn, rwy'n siwr o hynny!"

A phan ddaeth y crwt i gitsho yn y ffrwyn, beth y chi'n feddwl nath y ceffyl?

Fe gitshws yn ei golar e' a'i ddannedd, heb neyd dim niwed iddo chwaith, a fe sgydws e'n biwr; ac yna, dyma fe'n ei dowlu e' naill ochor i ganol y bwdlac!

Wedyn, dyma fe i'r lan at ei fishtir, ac yn troi ei ben a rhwto'i drwyn yn y cyfrw,—a dyna pryd gwelws Cleveland ei gamsyned, ac y deallws e' fod y cyfrw o hwith!

Ond cofiwch chi, weles i ddim o hyn y'n hunan, ond mai stori'r crwt yw hi.

(I'n barhar.)

J6231c

PROFIAD PAR IFANC

Set Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XV.—AI TEBYG I DDYN FYDD EI LWDWN?

Wel, alle pethau fel ny ddim para'n hir heb fod son am y peth yn myn'd drwy'r ardal, nes o'r diwedd fe aib dynon i gymryd cymment o sylw o Cleveland a'i geffyl a se fe Lord Dinefor neu Earl Cawder yn brochgan neu ddreifo drwy'r lle.

A roedd Cleveland yn cymryd hyn i gyd felse fe'n ei haeddu e—a mwy hefyd Weles i neb yn y mywyd eriod allse ffeindo use i fwy o sebon meddal nag e. Roedd gofyn ei gadw fe'n woblin o'i drad i'w glyste o hyd o hyd.

Nawr yn yr amser hyn fe ddigwyddws dou dro bach w i'n bound o weyd am dany'n rhw wrtha chi. A roedd a fyne Cleveland a'r ceffyl a phob un o'r ddou.

I chi gael deall nawr, roedd Cleveland yr adeg yma wedi cymryd i lyncu fyny'n llwyr gan ddou beth—ei geffyl a'i lyfrau.

Nawr pan hyse Cleveland yn stydio'n galed roedd e'n colli ei gof a'i feddwl am jest bob peth arall. Onibai fod ei wraig yn dryched ar ei ol e brydiau bwyd dw i ddim yn meddwl y hyse fe'n cymryd i fwyd fel dyn arall. Ond roedd Mrs. Cleveland erbyn hyn yn dechreu dysgu tipyn bach am boutu cadw ty. Allse hi ddim llai o ran hyn a mистres yn byw yn ei hymyl hi ac yn myn'd mewn i gweld hi mor amal.

Ond ta beth fe ddowa i nol at hyny, falle, eto, ond son w i nawr am Cleveland a'r ceffyl.

Wel, te i fi gael gweyd y stori wrtha chi, dyma shwd y buodd hi arno fe y tro cynta w i'n son am danc.

Roedd e wedi mynd rhyw byrnawn ar g-fan y ceffyl i weld ffyrnd iddo fe oedd yn byw ryr ddwy neu dair milldir o'r dre. Fe ddishgynws wrth gat y clos, a fe dowlws y ffrwyn dros ben post y lliadiart i chi, i gael cadw'r eel bach rhag mynd ar disberod, i chi. Nawr roedd y lliadiart yn un go isbel, a fyse'i fawr o job i'r hen geffyl bach, tae e'n lico, i slipo'r ffrwyn oddam ben y post a bant ag e.

Wel, fel digwyddws hi, fe welws un o'r gwasanathynon wrth fynd hibo shwd oedd y ceffyl wedi cael ei ddodi'n sound, a beth naeth e, ond tynu'r ffrwyn bant, a'i saco hi mewn o dan reilen ucha'r lliadiart, a wedyn ei dochi am ben y post. Fel ny, fel gwyddoch chi, pwy fwy fyse'r ceffyl yn dynu sounda i gyd fyse'r ffrwyn yn mynd am y post.

Pan ddaeth Cleveland mas o'r ty, fe gi'shws yn y ffrwyn oddam ben y post, ond fe welws mewn wince dnag oedd hi ddim fel roedd e wedi ei gadel hi, ond ei bod hi wedi mynd o dan reilen ucha'r lliadiart. Dyma fe'n sefyll spel ac yn stydio'r peth mas. Roedd e wedi bod yn darllen storïaus am detectives yn Lloegr, a shwd oedd rheiny yn gneud mas shwd oedd rhyw ddrwg wedi cael ei gylawni. A nawr dyma fynte, os gwelwch yn dda, yn mynd i fod yn ddetective i gal mas shwd oedd y ceffyl wedi hala'r ffrwyn o dan reilen y lliadiart pan oedd i fishtir wedi ei adel e a'r ffrwyn dros ben y reilen.

Wel, fe ddaeth pobol y ty mas i gal dryched arno fe, a Cleveland yn go falch i allu dangos tipyn bach ar ei ddysg.

"Nawr, Mr Jones," mynte fe wrth wr y ty.

"Dyma i chi beth od."

"Beth sy'n bod?" mynte hwnw.

J6232a

"Wel, fe adewes i'r ceffyl fan hyn a'r frwyn dros ben reilen ucha'r lliart, ac am ben y post. Wel, fel y gwelwch chi, mae hi yto am ben y post, ond mae hi hefyd yn dod nol i'r ochor hyn o dan y reilen. Nawr, shwd mae esbonio peth felna?"

"Ry chi, Mr Cleveland, yn ddyn call, ac yn darllen pwer, a allwch chi ddim dishgwli i hen glympyn o ffarmwr fel ti i lwyddo ble ry chi'n feilu."

"O, dw i ddim yn gweyd y mod i wedi feilu, welwch chi," mynte fe, "ond rown i'n lico roi'r cynyg cynta i chi."

"Rwy'n od o ddiolchgar i chi," mynte Mr Jones, "ond beth y ni well o gael dyn call yn y gymdogaeth os na roiff e dipyn bach o oleuni ar ein tywyllwch ni nawr ag yn y man?"

"Eitha gwir," mynte Cleveland, gan lyncu'r cwbl i chi.

"Nawr," mynte fe. "Mae'n amlwg yn y lle cynta fod y ceffyl adewes i yr ochor tu fas i'r lliart, wedi bod yr ochor tu fwn."

"Shwd y chi'n gneud hynny maes?" mynte Jones.

"Allwch chi dim gweld shwd?" mynte Cleveland, gan ddryched am bontu ar hawb.

Onid alse neb weyd shwd, a dyma Jones yn gweyd wrtho se nag oe nhw ddim yn ddigon call i wbod.

"Wek," mynte Cleveland, "mae yma ddou brawf diamheuol fod y ceffyl wedi bod yr ochor draw i'r bwllch."

"Ie," mynte Jones. "Beth y nhw?"

"Wel, dyma ol ei draed e'r ochor draw i'r bwllch i ddechreu," mynte Cleveland.

A shiwr ei wala roedd e hefyd. Fe gawd mas wedi hynny fod y bachgen ddodws y ffwyn y ffordd reit drwy'r bwllch, wedi mynd a'r ceffyl yr ochor tu fewn tra byse fe'n gneud rhywbeth, a roedd hol carnau'r ceffyl yn y mwd yr ochor draw i'r bwllch.

"Nawr," mynte Cleveland, "mae hwna'n ddigon plaen, ond yw e?"

"Ody, debygswa i wir," mynte Jones, gan ddechreu meddwl fod rhywbeth yn mhen Cleveland, wedi'r cwbl.

"A nawr, am yr ail brawf," mynte Cleveland. "Onid peido trysto hwb amser i ol traed, waeth fe allse'r lle yma fod yn gerigog a dign ol traed i weld."

"Ie," mynte mab Jones, "neu fe allse fod fel Twm Shon Catti a'r tarw."

"Shwd oedd hynny?" mynte Cleveland.

"O, roedd wajer gan Twm byse fe'n gallu dwgdy tarw o'r boudy ar yr eira, a na allse neb neud mas ble roedd e wedi mynd."

"Fe neswn i, galei," mynte Cleveland.

"Ie, ond doe chi ddim yno, welwch chi," mynte Jones.

"Ie, wel shwd gnath e?" mynte Cleveland.

"Wel, beth nath Twm ond mynd a dou bar o hen sgidiau gwrywod dan ei gesel, a chered drwy ganol yr eira sha'r boudy, a wedi mynd miwn dyma fe'n dod i'r sgidiau, y part ol yn mlaen, am draed yr hen darw, a'i arwain e mas o'r sgubor, a nol ag e drwy'r eira, a'r tarw gydag e. Boreu tranoeth pan ath perchen y tarw mas i'r clog fe welws ol tri phar sgidiau yn do sha'r boudy, a dim ond un par yn mynd yn ol, a fe gredws yn y fan fod rhaid fod dou ddyn yn cwato yn y boudy yn rhywle. A dyma fe'n galw ar y bechgyn i ddod i hwilo, ond yn lle ffriso dou ddyn fe geswn fod y tarw yn isbe, a dim byd i ddangos shwd oedd e wedi mynd mwy na se fe wedi hedfan. A felny fe enillws Twm ei wajer."

"Mae hona'n hen stori," mynte ei dad. "Dewch i ni gael clywed shwd mae Mr Cleveland yn esbonio'r ffwyn."

"Wel," mynte Cleveland, "yr ail brawf fod y ceffyl wedi bod yr ochor draw yw fod y

J6232b

ffrwyn yn dod nol o'r ochor draw at ben y ceffyl yr ochor hyn."

"Wel i jaist ariod!" mynte mab Jones, gan daro ei forddwd a'i law nes oedd y cwbwl yn swno i gyd.

Ond fe ddrychws i dad arno fe rhag ofaniddo i brathu hi.

"A nawr," mynte Cleveland, "yr ail boint yw hwn. "Mae'r ceffyl ar ol bod yr ochor draw wedi dod yn ol i'r ochor hyn."

"Mae hynny'n ddigon plaen," mynte Jones. "Ond shwd aeth a, dyna'r pwnc!"

Fe ddrychws Cleveland yn dosturiol ar ei anwybodaeth e.

"Dere yma, was i," mynte fe wrth grwt bach oedd fan ny.

Dyma'r crwt ato fe.

"Os gyda chi damed bach o linyn?" mynte fe wrth Jones.

Fe gawspwyd tamed o linyn, a dyma Cleveland yn clymu un pen iddo yn sound wrth fotwm cot y crwt, a'r pen arall am bost y lli-diart.

"Nawr, was i," mynte fe. "Dros ben y bwleh a ti."

Fe groesws y crwt y lli-diart mewn wnead.

"Nawr," mynte Cleveland. "Dere nol drwy'r bwt mawr yna o dan y reilsen ucha."

A felly guath y crwt.

"Dyna chi!" mynte Cleveland, gan ddryched yn orfoleddus amboutu. "Dyna'r llinyn yn gwmws fel roedd y ffrowyn—a dyna shwd guath y ceffyl, y ceffyl calla yn y shir."

"Tebyg i ddyn fydd ei lwdwn," mynte Jones, gan winco ar y lleill, "a thebyg i ddyn fydd ei geffyl, mae'n debyg."

A bant a Cleveland yn nghanol hwro fawr.

(The Harlan.)

J6232c

PROFIAD PAR IFANC.

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XVI.—PUZZLE NEWYDD.— TRAWS-FUDIAD ENEIDIAU.

Wel mawr fu'r son a'r siarad drwy'r ardal i gyd am esboniad Cleveland am shwd oedd y ffrwyn wedi troi miwn o dan reilsen ucha'r lliidiart. Dyna oedd y sharad rhwng pob dou ar yr hewl, a dyna oedd gan bawb yn y committees bob nos yn efel y gof a shop y crydd. Fel gwyddoch chi dyna'r ddou le pwysica yn y wlad. Ry chi sy'n darllen y papyre yn gwbod, wrth gwrs, am rywbeth mae nhw'n alw yn "standing committees of the House of Commons," ryw fath o bwyllgoran debygsw'n i sy'n bod mewn grym ac awdurdod o hyd ac o hyd. Wel, rhyw fath o standing committee'r wlad yw'r efel a shop y crydd—a does dim nosweith byth yn pasio nag yw'r committees hyn yn cwrdd, ac yn setlo holl faterion y byd a'r Bettws.

A fel rw i'n gweyd wrtha chi, busnes Cleveland a'r ceffyl a'r ffrwyn a'r lliidiart oedd busnes y committees hyn am spel ar ol y digwyddiad wrth dy Mr Jones.

Wel yn un o'r committees hyn, fe benderfynws y boys mynse nhw roi prawf pellach ar ddoethineb Mr Cleveland, a fe feddylodd mai yn nglyn a'r ceffyl byse oreu iddyn nhw ei neud e, wath fel y gwddoch chi roedd Cleveland wedi ei lyncu fyny gan y ceffyl y dyddiau hyny.

Llawer fu e ddyfalu a dyfeisio er mwyn dod o hyd i'r ffordd creu i neud eitha prawf arno. Roedd y boys yn ddigon call i wel'd, welwch chi, na chese nhw ddim ail gynnyg arno fe, wath mai shelo nese fe ar ol y prawf mawr cynta. Felny nid peth i'w benderfyna am hast oedd e.

Ar ol llawer o sharad a phwyso ac edrych ar y mater yn ol ac yn mlaen, a round am boutu iddo, fe settlwd shwd oedd gneud—ac os do fe! Fuoedd dim shwd gynhal am wn i ariod!

Roedd y boys yn teimlo, gan fod Cleveland wedi oael prawf ar y ceffyl wrth ei frachgan e, dylse fe gael prawf arno yn y shafts y tro nesa. A dyna beth oedd yn gneud y mater yn fwy anodd, wath ambell waith mewn cymariaeth oedd Cleveland yn myn'd mas am ddrive.

Ond fel roedd y lwc, fe ddaeth y boys i wbod ei fod e'n myn'd unwaith yr wthnos am ddrive yn y dogear heibo i le bach ar ochr yr hewl, a'i fod e'n gadel y ceffyl a'u car wedi ei glymu fan ny wrth y bwlech. Doedd dim eische mwy na hyny ar y boys. Roedd y cwblw wed'yn yn right i wala genty nhw.

Felny fe fugeilwd Cleveland yn myn'd sha'r lle yma. A fel roedd e'n arfer fe adaws y ceffyl a'r car wrth y bwlech ar ochr yr hewl, gan ddim ond dod i'r reins dros ben post y lliidiart—ond gofalu ar yr un pryd i ddodi nhw mewn gynta o dan y reilsen ucha.

Ry chi'n gwel'd roedd e'n shiwr o fod yn credu fod y ceffyl yn gwbod yn well nag e shwd i ddodi'r ffrwyn yn sound, a mae dyna pam roedd e wedi gneud fel gnaeth e, debygse fe, wrth dy Jones y tro o'r blaen. Felny byth wedy'n fe gofiws Cleveland am y lesn hyny.

Wel, ta beth, fe ddodws e'r ceffyl yn sound, a miwn ag e sha'r ty, gan adel y ceffyl a'r car fan ny.

Ond mor gynted ag yr aeth e mewn i'r ty, dyma hanner dwysen o foyws, oedd wedi bod yn bugeila yr ochr draw i'r berth, yn neido mas i'r hewl.

Roe nhw wedi plano pobpeth yn barod shwd o nhw i neud.

J6233a

I ddechreu dyma ddou o henyn nhw mewn ar ol Cleveland i dy Davies y Llwyn, er mwyn cadw lawnw mewn ple, rhag ofan iddo fe ddod mas a'u dala nhw ar waith amboutu'r ceffyl a'r car.

Wedi i'r ddou fyn'd mewn a cheuad y drws, dyma'r lleill at eu gwaith nwnte gyda'r ceffyl a'r car.

Y peth cynta oedd tynu'r ceffyl mas o'r shafts.

Wedi gneud hynny fe agorwd y gat, ac fe awd a'r ceffyl tu fewn.

Yna fe gauwyd y gat, a fe facwd y ceffyl yn ol at y gat.

Wedyn dyma nhw yn cydio yn y car, ac yn sacco shafts y car rhwng dwy reilsen ganol y lliadiart.

Yna dyma nhw'n dodi'r ceffyl yn y shafts fel ny, ac yn harneso'r cwbl yn ol fel roedd e o'r blaen.

Ac yn ola i gyd dyma nhw'n towlu blaen y reins am ben y post o'r tu fewn i'r gat, ond heb eu dodi nhw rhwng reils y lliadiart.

Fel ny, fel gallwch chi ddeall, roedd pobpeth yn gwmws fel gadaws Cleveland nhw gyda dim ond dou wahaniaeth.

Yn lle bod y ceffyl a'r car y tu fas i'r gat, yr oedd y car nawr tu fas, a'r ceffyl tu fewn,—a'r lliadiart, wrth gwrw, rhyngty nhw.

A'r gwahaniaeth arall oedd fod y reins wedi myn'd i'r tu fewn i'r lliadiart yn lle myn'd o dan y reilsen ucha.

Wedi dodi pobpeth yn right i'r tipyn dyma'r boys yn hwiban, er mwyn rhoi gwboed i bobol y ty fod pobpeth yn berod, a wed'yn off a nhw rhai yr ochor hyn a'r lleill yr ochor draw am ryw ganllath ar hyd yr hewl, ond yn cadw yn ngolwg y ty o hyd.

Ry chi'n gwel'd doe nhw ddim am i Cleveland eu gwel'd nhw pan ddese fe mas, riag iddo spectro dim hyd. Ond doe nhw ddim am golli dim mo'r sport chwaith, a felny am fod o fewn cyrhaedd clyw a golwg pan ddese fe at y ceffyl a'r car.

Wel fe nath y boys yn y ty ryw esgus i bawb gael myn'd mas pan glywsen nhw'r hwiban er-wth eu partners, a dyma nhw, Cleveland, a Davies, y Llwyn, a'i wraig, a'u ddou fab, a'r ddou foy oedd wedi myn'd mewn atyn nhw, i gyd yn dod i step y drws.

"Hawyr bach!" mynte Davies, gan ddryched at gat yr hewl. "Beth yw'r ceffyl yco?"

"Ond y ngeffyl i yw e," mynte Cleveland. "Y ceffyl calla yn y shir."

"Ond beth mae e'n neud fanco," mynte Davies wed'yn.

"Ond fi gadaws e," mynte Cleveland wed'yn, heb sylwi fod y car un ochor i'r gat a'r ceffyl yr ochor arall.

"Chi tynsoch e mas o'r car guto," mynte Davies.

"Naddo i," mynte Cleveland. "Netho i ddim ond dodi'r reins am y post."

"Wel, weles i ddim peth mor od ariod," mynte Davies. "Fe allsw'n i dyngu fod y ceffyl yr ochor tu fewn a'r car yr ochor tu fas i'r gat."

"Dos dim shwd beth!" mynte Cleveland, a dyma fe off fel bollt at y gat, a'r lleill yn dilyn gam bwyll fach.

Erbyn dod at y gat, dyna beth welson nhw fel rwy'n gwerd wrtha chi, oedd y ceffyl yn y shafts yn gwmws fel arfer, ond fod y car un ochor i'r gat a'r ceffyl yr ochor arall.

A dyna lle roedd Cleveland a'i ben ar gam yn examino'r ceffyl, a'r car, a'r gat, felse fe'n dishgwyl cael esboniad gan rheini shwd oedd y peth wedi digwydd.

Erbyn hyn cyma'r boys erill yn dechreu dod hibo, felse nhw ar ryw neges i fyn'd hibo i'r Llwyn, rhai o'r ochor hyn a rhai o'r ochor arall,

J6233b

ac yn digwydd wrth shawns wel'd y ceffyl a'r car a'r dynion fan ny.

"Hawyr bach!" mynte pob un pan cdeise fe atyn nwr. "Beth sy'n bod fan hyn?"

A Cleveland yn dryched mor ddoeth a doctor of divinity, ond ddim yn gweyd dim gair am spel.

Ond o'r diwedd wrth wel'd pawb yn dryched arno fe, felse nhw'n dishgwyl rhwbeth orwtho fe, dyma fe'n gweyd:—

"Ry chi wedi clywed am Edison?"

"Y lighthouse mawr?" mynte un o'r boys yn ddifeddwl.

"Nage," mynte Cleveland, "Eddystome yw'r lighthouse. Edison wedes i."

"Oh, y dyfeisydd Americanaidd. Hwnw nath y telephone gynta," mynta un o'r boys erill.

"Ie," mynte Cleveland.

"Wel, beth am dano fe?" mynte un o fechgyn y Llwyn. "Odi chi am hala i moyn e fel galise fe esborio shwd daeth y ceffyl drwy'r bwlech?"

Fe ddrychws Cleveland yn dosturiol arno fe.

"Nage!" mynte fe. "Ond rwy wedi dod i'r penderfyniad fod rhyw Edison os llawer dydd wedi marw, ac mai hwnw sy yma nawr ar ffurf ceffyl."

Fe ddrychws pawb arno fe mewn syndod, a'r hen geffyl mwy na neb.

"Ry chi'n gwybod," mynte Cleveland wed'yn.

"Mae rhai cenedloedd yn credu mewn trawsymudiad enedïau, transmigration of souls. Hynny yw, nag yw'r enaid byth yn marw, ond pan fydd y corph bydd e'n byw yndo fe yn marw fod yr enaid yn myn'd i ryw gorph arall, corph dyn neu gorph anifail, jest yn ol fel bydd e'n haeddu. Nawr os dim doubt gen i nad rhyw ddyfeisydd mawr fel Edison sy'n byw nawr yn nghorff y ceffyl yma, a'i fod e, tawn i yn ei ddeall e, yn cynnyg ffortiwn fawr i fi."

"Yn cynnyg ffortiwn i chi? Beth y chi'n feddwl?" mynte pawb.

"Wel fel hyn. Ry chi wedi gwel'd y puzzles yma sy gentu nhw ar werth yn y ffeiriau. Shwd mai tynu dwy ring orwth eu gilydd, neu ddatod c'lwyr cariad, neu beth fel ny."

Dyma bawb yn nodu.

"Wel, os dim doubt nad puzzle fel ny yw hwn, The Patent Horse, Gate, and Car Puzzle. Tawn i'n gallu ei neud o mas, a deall shwd daeth y ceffyl a'r shafts drwy rails y lliidiart, a shwd byse'n cael nhw nol, neu gael y car ar eu hol nhw, fe allwn neud puzzle wed'yn i'w werthu yn y ffeiriau fyse'n werth degan o fil-œdd o bunnau'r flwyddyn i fi. Ond shwd mae ei neud e, dyna'r peth!"

"Wel, Mr Cleveland," mynte Davies. "Mae'n ddrwg gen i orffod gweyd wrtho chi, ond alla i ddim godde i chi a'ch ceffyl a'ch car a'ch puzzle i geued yr hewl fel hyn. Dos dim lle i neb ddod at y ty."

"Ond trueni," mynte un o'r boys, "i Mr Cleveland beido cael shawns i weithio'r problem mas. Allwch chi ddim gadel iddo gymryd mentyg y lliidiart am nosweth?"

"Oh, ie wir! Grewch Davies, gnawch!" mynte pawb.

A fel ny buodd hi. Yn lle tynu'r ceffyl o'r shafts—feddylws Cleveland ddim am hynny—fe godwd y lliidiart oddar ei hinges, gan ei adael e'n hongan wrth shafts y car; wed'yn fe facwd y ceffyl, a'r lliidiart, a'r car, yn ol i ganol yr hewl i gael lle clir shag adre.

Fe aeth Cleveland i'r car, a dyma broseshon mawr yn myn'd ar hyd yr hewl, a thwy'r dre. Cleveland mor falch a Jew ar ei focs, y boys jest bresto gan hwerthin—a'r hen geffyl ai ben sha'r ddaear felse cwilydd arno ddryched yn ngwyneb neb.

(I'w barhau).

J6233c

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XVII.—UN DYN CALL A PHAC O FFYLLIAID.

Fel y gwedes i wrtha chi roedd yr hen ceffyl yn myn'd shag adre'r noswath hyny a'i ben sha'r ddaear, yn gwmws felse fe a chwilydd arno wrth feddwl am y path.

A dos dim rhyfedd!

Meddylwch am y ffwlcyn Cleveland, na fyse fe'n meddwl am dynu'r ceffyl o'r shafts yn y fan'ny, a chael y car yn rhydd orwth y gat! Ond yn lle hyny, dyne beth nath e, fel o'n i'n gweyd wrtho chi, oedd tynu'r gat oddar ei hinges, a gadel iddi hongan ar y shafts wrth grwper yr hen geffyl o flaen y driver.

Wrth gwrs, roedd pobpeth yn nobl pan oe nhw'n myn'd lan dipyn bach o dyle, wath rodd y gat, wrth gwrs, yn gwasgu nol yn erbyn y splashboard. A roedd hi'n go lew fach pan oen nhw ar dir gweddol o wastad. Ond pan ddech-reuson nhw fyn'd lawr i'r rhiw at y dre—chi wyddoch am dani—wrth gwrs, roedd yr hen lliart yn slipo mlaen, ac yn slipo'n mlaen o hyd ar grwper y ceffyl, ac onibai bod mwy o synwyr yn yr hen geffyl nag oedd yn ei fishtir fe fyse wedi cicio'r cwbl yn rhacs.

Erbyn hyn, wrth gwrs, roedd crowd mawr o bobol wedi dod yn nghyd i weled y show, jest felse elephants Barnum a Bailey yn myn'd drwy'r lle.

A dim rhyfedd. Chi allwch wel'd elephants yn ddigon amal neno'r rheswm, ond unwaith mewn oes y gwelwch chi sight fel hon; ceffyl a dogcar gentiel, a gwibonheddig gentiel fel Cleveland yn drifo, a lliart clos yn hongan linc—di-lonc ar fon y shafts!

Doedd e'n rhyfedd yn y byd fod y crowd mawr wedi crynhoi. Pan welon nhw'r lliart yn myn'd lwmp, lwmp, yn erbyn y ceffyl, dyma rhai o'r boys yn citsho yn y lliart i'w ddala hi nol. Roedd hyny'n eitha right, ond fe aeth yn hware rhynty nhw a'r lliart, ac yn hware go arw, a fel mae'r hen hweddel yn gweyd bod hware'n troi'n hwerw, fel'ny cas un o'r boys, ta beth, wel'd, wath dyma'r hen geffyl wedi blind ar eu nonsens nhw yn hercyd cio naill ochor at un o'r rhai gwaetha ohonyn nhw, nes nag oedd dim hwant ar hwnw i hware wed'yn ar hast!

Pwy ryfedd fod yr hen geffyl, druan ag e, yn teimlo cwilydd ar ei galon am fod ei fishtir yn dangos ei human y fath ffwl, ac yn gwneyd ffwl o hano fynte hefyd fan'ny lle gweise pawb?

Wel, ta beth, pam ddespwyd at y ty, dyna lle roedd cynhal afnadr arall. Roedd y lliart oedd yn hongan ar fon shafts y car yn fwy o hyd nag oedd lled bwch y clos, a dyma hi'n full stop arnyn nhw.

Fe fynse rhai o'r rhai calla ohonyn nhw berswado Cleveland i dynu'r ceffyl o'r shafts fan'ny, ond dyma'r lleill yn gwrthwynebu, ac yn gweyd, "Nage! nage! Gadewch i Mr Cleveland gael ei ffordd! Fe fentwrn ni ddaw e mas ohoni yn right ei wala!"

A fe lyncws yntau druan ag e y cwbl i gyd fel efengyl!

"Aroswech, fechgyn," mynte fe, a dyma fe lawr o'r car, a miwn i'r ty, gan ddod nol mewn mynydd a mesur fel mesur teiliwr gydag e, ond ei fod e gryn dipyn yn fwy o hyd.

Wel dyma fe'n mesur y lliart, a'r shafts, a lled y bwch, a phobpeth, ac yn dod i'r cwbl lawr ar damaid o bapur.

Wed'yn dyma fe nol i'r ty, a mas ag e wel'yn

J6234a

a ruler a sheet o bapur gwyn arall gydag e, a dyma fe'n tynu lines ar y papur, gan fesur pob un yn ofalus wrth y tape.

"Mae'n all right, boys!" mynte fe. "Fe aiff mewn yn right ei wala?"

Dyma rhai o'r boys yn dechreu hwerthin, gan feddwl gwelsen nhw'r car yn cael ei dynu off orwth y shafts, wrth fod y lliadiart yn citsho yn y ddau bost.

Ond fe wyddwn i well.

Gan ta faint o ffwl fyse Cleveland ar gefen ceffyl, neu tu ol i geffyl, o'i gymharu a ni'r ffermws, fe wyddwn i'n eitha da ei fod e'n fishtir arno ni i gyd unwaith cese fe bensil a phapur yn ei law.

Ry chi'n gwel'd dos dim un ffwl yn ffwl i gyd, a ta faint o ffwl oedd Cleveland, nid ffwl oedd e pan ddechreus fe gownto.

A fel rwy'n gweyd wrtho chi cownto buodd e am spel, hyd nes iddo foddioni ei hunan fod pobpeth yn all right. A fe wyddwn, debygsw'n i, byse fe'n shiwr o gael y trecha ar y boys.

Fel'ny dyma fi'n tori mas, ac yn gweyd:—

"Arosweh Cleveland!"

Dyma fe'n dryched arna i, a'r boys i gyd yn gneyd yr un peth.

"Nawr, boys," myntwn i. "Ry chi'n credu'ch bod chi'n rhai call anghyffredin debycse chi."

"Eitha right," mynte un ohonyn nhw.

"O'r goreu, ynte," myntwn i. "Pun o hono chi all hala'r ceffyl a'r car mewn drwy'r bwlech yna i'r clos fel mae nhw?"

"Heb dynu'r lliadiart bant o dan y shafts?" mynte un ohonyn nhw.

"Heb dynu'r pystion o'r ddaear?" mynte un arall.

"Ie," myntwn i. "Heb dynu'r lliadiart oddar y shafts na'r pystion o'u lle."

"Naiff neb e," mynte un.

"Ddim yn dragywydd!" mynte un arall.

"Rwy't ti, Jimmy Tycoch, yn fachgen smart ymbeidus," myntwn i. "Rwy't ti'n meddwl mai ti yw'r driver goreu yn y part hyn o'r wlad."

"Dangosweh chi fy ngwell i, Mr Roberts," mynte fe.

"Dyco fe!" myntwn i, gan bointo'm bys at Cleveland.

Ar hyn dyma tawb yn hwerthin fel ffylaid.

"Eitha da!" myntwn i. "Wel, fe roia i brawf arno chi nawr. Fe ro i sofrn iti, Jimmy, neu i undyn arall yma ond Mr Cleveland, os gallwch chi neud both wedes i."

Wel, nawr, dyw sofrns ddim i'w cael yn tyfu ar ochor y cloddiau bob dydd, o leia dy nhw ddim yn y part hyn o'r wlad ta beth y nhw yn rhywle arall.

Felny dyma Jimmy yn cymeryd amser i ystyried, a dymo fe'n towlu llygad ar y lliadiart, ac yn towlu llygad ar y bwlech.

"Ga i fenthyg eich tape chi, Mr Cleveland?" mynte fe.

"Cewch, cewch," mynte hwnw, gan ei estyn e iddo.

Ond fe wyddwn i'n brun mai nid a'r tape yn ei law roedd man cryfa Jimmy. Tycoch, ta beth allse fe neud a'r reins yn ei law. Felny rown i'n ddigon esmwyth y meddwl.

Wel, fe fesurodd Jimmy a fe gas fod y lliadiart eitha troedfedd a hanner yn hwy na lled y bwlech.

"Na! Neiff e byth o hono!" mynte fe.

"Dos dim dyn ar wyneb daear all ei neud e!"

"Beth fentri di?" myntwn i, wath rown i am roi lesn fach iddo fe a'r lleill oedd wedi gneud cymint o ffwl o Cleveland.

"Fentra mhen!" mynte fe.

"Twt! Mae hwnw'n wag a gwerth dim," myntwn i. "Fentri di hweugen?"

"Gna!" mynte fe, wedi ei gynhyrfu wrth

J6234b

glywed y boys yn hwertlin am ben y'n Joe fach
i amboutu bod ei ben e'n wag.

"Eitha da!" myntwn i. "I lawr a'r arian!"

Wedi dod i'r arian lawr o'r ddwy ochor,
dyma fi'n gweyd wed'yn.

"Os yma ryw un arall licith enill hanner
sofren? Fe fentra i hweugen arall, a phwy
bynag fynoch chi, a sawl fynoch, a faint fynoch
chi, y gneiff Cleveland e, a hyny heb ddod
lawr oddiar y set."

Wel, os dy chi yn y fan yna, fe geso ugain
ohenyn nhw i fentro hweuganau, — rhai yn
clwbo dou neu dri neu bedwar gyda'u giddy i
gael gneyd y hweugen fyny, wath roedd pawb
ohenyn nhw'n credu os na allse Jimmy Tycoch
ddreifo drwy'r bwch na nese Cleveland ddim
ohono fe yn dragywydd.

Ond rown i'n credu y gnese fe ar ol iddo fe
gownto a mesur ar y papur. Ond chi gewch
wbod yr wthnos nesa shwd y buodd hi.

(I'w barhau.)

J6234c

PROFIAD PAR IFANC

Sef Gofidiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD XVIII.—DOU DDYN CALL A
CHEFFYL.—POB HEN HWEDDEL
DDIM YN WIR.

Wrth gwrs, wyddwn i yn y byd shwd oedd Cleveland yn mynd i neyd y job. Ond fe wyddwn ddou beth pwysicach na hyny.

Y peth cynta wyddwn i oedd, fel y gwedes i, ta faint o ffwl oedd Cleveland mewn pethau ereill, nag oedd e' ddim yn ffwl pan gese fe bapur a phensil a ffigyrs o'i flaen. Welas i ddim neb ariod all'se neyd gwell na chwicach gwaith gyda rheiny nag a all'se fe. A fe wyddwn, debygsw'n i, ei fod e'n shiwr o fod yn all right ar ol iddo fe witho'r ffigyrs ma's mewn du a gwyn ar y papur.

Ond dyna lle 'roedd y boys erill i gyd yn ei cholli hi. Ro'e nhw'n barnu Cleveland, wel-wch chi, wrth ei nonsens e' gyda'r hen fuwch, a chyda'r ceffyl, a chyda'r lliidiart, heb ystyried gall'se fe fod yn ddigon call mewn pethau erill.

Nawr, dos dim rhaid fod pob hen hweddel yn wir am ei bod hi'n hen hweddel. 'Doedd dim o'r hen bobol slawer dydd slawer dydd yn gwbod y cwbl chwaith. Fe all'sech feddwl wrth glywed ambell i un yn sharad fod pob doethineb ar wyneb daear yn mhenau'r hen bobol slawer dydd. Ond dyw gweyd peth felny ddim ond nonsens. Tae dynon ddim ond ystyried am funed, fe welser na all'se hyny byth a bod. A fe weda chi pa'm.

Os dodd yr hen bobol slawer dydd slawer dydd mor gall a mae rhai dynon yn gweyd eu bod nhw, shwd na fysen nhw wedi mynu cael pethau'n wahanol? Shwd na fysen nhw wedi mynid y train yn lle'r hen wagens oedd gyda nhw'n myn'd i Lunden a manau ereill? A shwd na fysen nhw'r teligriff a'r teliffon, a phethau felny yn nghyt?

Na! na! Credwch chi fi, 'doedd ddim mo'r hen bobol slawer dydd yn gwbod y cwbl chwaith,—ne nid yn ein dyddiau ni byse'r holl ddarganyddiau hyn wedi cael eu gwneyd.

A doe nhw ddim chwaith yn anffaeledig yn eu syniadau am ddynon erill. Tae chi ddim ond gwranddo ar ambell un, fe fyse'n ddigon i neyd i chi gredu fod pawb o'r hen bobol slawer dydd fel y Pab ei hunan, yn anffaeledig. Yn 'y marn i, mae un Pab ar y tro yn llawn ddigon heb gael dwsen neu ragor yn mhob plwyf!

A nawr, dyna'r hen hweddel o'wn i'n hala ati sy'n profi'n ddigon plaen nag oe nhw ddim nag yn hollwybodol nac yn anffaeledig.

"Ffol mewn un peth, ffol yn mhobpeth."

Dyna beth oedd yr hen bobol yn ei weyd, ac yn ei gredu,—ond roe nhw'n camsyned.

Fe weles i lawer dyn oedd yn ddigon o ffwl-cyn mewn llawer o bethau, ond dewch chi i ben ffair neu farchnad gydag e', a fe'ch pryn'se a fe'ch gwerth'se chi dan eich trwyn ddwsen o weith'e'r un diwarnod!

A fe weles i ambell i ferch all'sech feddwl nag oedd dim byd yn ei phen hi,—ond fe all'se droi'r dyn calla weles i 'rioed round i'w bys bach pryd y myn'se hi.

Na! na! Camsyned oe nhw wrth weyd "Ffol yn un peth, ffol yn mhobpeth."

A 'roedd Cleveland yn ddigon i brofi hyny— a fe brofws hyny hware teg iddo fe y diwarnod hyny. Fe wyddwn i yn eitha da nag oedd e' ddim yn ffwl yn mhobpeth. Ond wydden nhw ddim mo hyny,—a felny, ro'wn i'n teimlo'n go shiwr o'n hweugeinau, er, fel y gwedes i ishws, na wyddwn i ddim yn y byd mawr shwd oedd

J6235a

e'n myn'd i hala lliadiart deuddeg troedfedd mewn trwy fwch deg troedfedd.

Wel, y peth arall oedd yn gneyd i fi deimlo'n go shiwr o mhoint oedd, mai yr hen geffyl oedd yn y shafts.

Fe wyddwn fod gan yr hen geffyl olwg afn- adw ar ei fishtir er cyment o ffwl oedd e'.

A dyna chi brawf arall fod yr hen bobol slawer dydd yn ei cholli hi weithe. A fe weda chi pa'm.

"Tebyg i ddyn fydd ei lwdwn," mydde'r hen hweddel, ontawe?

Wel, fuodd dim dwlach dyn na Cleveland, am wn i, ar wyneb daear ariod—a fuodd dim call- ach ceffyl na cheffyl Cleveland rhwng shafts neu dan gyfrw ariod, fel rw i wedi dangos i chi ishws. 'Tae yr hen Barnum wedi cael gafel yn ngheffyl Cleveland, fe fyse son am dano fe—y ceffyl rwy'n feddwl, nid Cleveland,—drwy'r byd i gyd. A dyna chi ddangos mai nid tebyg i ddyn fydd ei lwdwn bob amser.

Wel, ta beth, i fi gael wado mla'n a'r hanes, fe wyddwn i fod yr hen geffyl yn gallach na'i fishtir, ac wrth ystyried hyny, ac ystyried, hefyd, fod Cleveland yn eitha fishtir ar ei fater, os gell'sid ei witho fe mewn figyrs, ro'wn i'n teimlo'n hunan mor esmwyth am yr ugain hweugain hyny a phe byse nhw yn 'y mhoced i ishws.

Wel, os dy chi yn y fan yna, fe all'swr gym- 'ryd y'n llw i'r hen geffyl winco arna i pan fen- tres i'r hweugen gynta' a Jimmy Tycoch; ac os gall'se ceffyl hwerthin, fe fyse wedi hwer- thin dros yr holl le pan geso i ugain i fentro pob o hweugain.

Welsoch chi rioed gyment o altrath mewn golwg anifel ag oedd yn hwn rhwng par oedd e'n dod lawr drwy'r crowd a'r hen lliadiart linc- lone wrth ei gwt e', a nawr pan oedd Cleveland yn myn'd i hala fe a lliadiart deuddeg troedfedd tu ol iddo fe drwy fwch deg troedfedd.

All'sech chi ddim meddwl mae'r un ceffyl oedd e'. 'Roedd e' wedi bod a'i ben sha'r llawr fel'se arno fe g'wilydd dryched yn ngwynneb neb, ond nawr dyma fe a'i ben i'r lan, a'i gluste i'r lan, ac yn dryched fel ebol teirblwydd.

Wel, pan weles i 'rhen geffyl yn dryched felny, ro'wn i'n shiwrach nag ariod, welwch chi, mod i'n all right am gael y'n arian yn ol, a thipyn bach go lew gyda nhw.

"Nawr, boys, hewl!" myntwn i, wedi gwel'd nag oedd neb arall a hweugen i fentro, a bod Cleveland a'r ceffyl yn barod.

"Ga i dynu gat y cics bant, Cleveland?" myn- twn i.

"Na!" mynte Jimmy Tycoch. "Dos dim lle i neyd hyny! Mae'r cwblwl i fod fel y mae e'!"

"Gad dy lap, y ffwl!" myntwn i. "Mae'r pystion i fod fel mae nhw, ond fe alla i dynu'r gat bant, os lica i."

Tra bues i'n dadle a Jimmy, 'roedd Cleveland yn dryched wed'yn ar ei bapur.

"Mae'n all right, Mr Roberts," mynte fe. "Gadewch y gat yn llonydd, ond agorwch hi led y pen, dyna i gyd."

J6235b

Felny, fe agorwd y gat led y pen.

Wed'yn, dyma Cleveland yn baco'r ceffyl a'r car yn ol, a'r hen geffyl yn ufuddhau, fe'se fe'n deall yn gwmws.

Wei, wedi baco nol gwpwl o latheidi, dyma Cleveland yn gweyd:

"Gee up."

Ond yn lle hala'n gwmws at ganol y bwlch, dyma fe'n cyfeirio'r ceffyl a'r car ar letgros nes cael un pen i'r lliadiart oedd yn hongan ar y shaffts mewn hibo i'r post derbyn.

"Wo!" mynte fe.

Ond 'doedd dim ishe gweyd, 'roedd yr hen geffyl yn deall yn nobl.

Dyma'r ceffyl yn symud gambwyll fach, nes cael wheel y car yr ochor nyny, jest ar bwys post gat y clos, a'r pen hyny i'r lliadiart erbyn nyn yr ochor tufewn, ac yn ymestyn rhyw ddwy drotfedd dda heibo i'r post.

"All right! Come up!" mynte Cleveland, pan welws e' fod y pen arall i'r lliadiart yn glir o bost arall y gat.

A dyma'r hen gel yn pranco fel ebol, a mewn ag e' fel bollt i ganol y clos heb i'r lliadiart gyment a thwtshed un o'r ddou bost!

Ond 'roedd yn ormod o shom i'r boys i glapo neu waeddi hwre, fel bysen nhw'n gneyd onibai fod yr ugain hanner-sofren yn gwasgu ar eu calon nhw. Ond fe netho i fyny am eu dish-tawrrwydd nhw, fel gallwch chi wbod.

"Well done! Cleveland!" myntwn i. "A well done yr hen geffyl!" a dyma fi yn ei gamol e', a'r hen geffyl yn rhwto 'i drwyn yn y nys-gwdd i yn gwmws fel'se fe'n deall—a 'roedd e' hefyd, os dim dowt!

"Nawr, Cleveland?" myntwn i. "Lawr a chi, a dewch i ni gael tynu'r ceffyl o'r shaffts, a rhoi eitha ffid o gyrch iddo fe!"

A dyma fi'n dechreu tynu'r ceffyl yn rhydd.

Ond dyma Cleveland yn neido o'r car i'n stopo i.

"Pidwch!" mynte fe.

"Be' sy' ar y dyn?" myntwn i.

"Wel," mynte fe. "Fe gaiff y ceffyl ffid o gyrch. Ond thyna i ddim mohano fe o'r shaffts. Fe a'th drwy'r barau rywffordd o'r blaen, a mae e'n ddigon call i ddod ma's yto. Gadewch iddo hyd y boreu, a fe fentra i bydd e'n rhydd o'r shaffts!"

A gwir y wedws e'!

Fe ballws y ceffyl a thwtsh y ffid gyrch,—ond fe dorws ei galon wrth wel'd ei fishtir mor ddwl.

Pan godws Cleveland boreu tranoeth, gan ddishgwi gwel'd y ceffyl yn rhydd, 'roedd y ceffyl, druan, wedi marw o gywilydd yn y shaffts, a'r hen lliadiart ar fon y shaffts yn ei ddala fe i'r lan wedi iddo drigo!

(*I'w barhau.*)

J6235c

Paper Pawb. 21 Hydref 1899.
PROFIAD PAR IFANC

Sef Golldiau'r Byd Presennol.

[Cofnodwyd Gan y Cymydog Drws Nesa.]

PROFIAD OLAF.—DIWEDD CLEVELAND!

Wel, myn'd o ddrwg i wath nath teulu drws nesa' ar ol yr anhap i'r ceffyl. Dos dim un dowl yn y byd nad tori ei galon nath y ceffyl bach, druan ag e! A 'doedd dim llawer i weyd wrtho fe chwaith, hware teg iddo! Meddyl-iwch am deimladau ceffyl respectabl wedi cael ei neyd yn destyn sport yr holl ardal fel ca's e', poor thing! Tawn i'n geffyl y'n hunan, fyswn i ddim gwell nag ynte, am wn i; chodsw'n i byth mo mhen, rwy'n siwr o hyny!

Wn i ddim a allwch chi esbonio ne bido, ond alla i ddim ta beth, shwd 'roedd hi'n digwydd fod dynon mor gall a phobol drws nesa' yn gallu gneyd y fath lol. Wath, cofiwch chi, nid rhyw rhai hanner call a dwl oe nhw. Oh, nage! Pidwch chi a chamswyned! 'Roedd Mrs Cleveland yn fenyw fach mor gall a welsoch chi ariod yn mhobpeth ond cadw ty; mewn pethau yn perthyn i'r ty, 'roedd hi'n fapa perffaith, dos yna ddim un gair arall am dani. Ac am Cleveland ei hunan, yn ei fusnes ei hunan 'doedd dim o'i drech e' i ga'l yn yr holl gwmpasodd. Fe fentwrn i e' o flaen neb, ond iddo gael papur a phensil, neu ben ag inc. Weles i ddim shwd law ar ffigiwr ariod yn 'y mywyd! Unrhyw beth mewn ffordd o gownto, dewch ati oedd hi gydag e', weles i neb all'se 'i dwtshid e' o gwbwl fan 'ny.

Ond pan ddese chi wed'yn at bethau cyffredin bywyd, 'roedd hi ar ben arno fe. Wyddo fe ddim mwy na phlentyn newydd eni—os gwydde fe gyment.

Chi wyddoch fod yna adnod yn y Beibl yn son am rywbeth sy'n llai na dim, a mae nhw'n gweyd wrtha i fod yr ysgolion sy'n dysgu Algebra a rhyw ffincs felny, eu bod nhw nawr yn dysgu'r ffordd i neyd sums a ffigyrs sy'r llai na dim, ac yn eu galw nhw yn "x minus," a "negative quantity," a rhyw enwau diert hwn. Wrth gwr, wn i ddim byd am bethau felny, ond fe all'swn i feddwl mai "x minus" fyse'r ffigwr right i ddangos synwyr cyffredin Cleveland mewn pethau tu fa's iddi fusnes e' i hunan. O leia, llai na dim weles i o'r synwyr hyny gydag e' ariod.

Ac fel ro'wn i'n gweyd wrtho chi, fe a'th o ddrwg i wath ar ol i'r hen geffyl drigo. Fel gwyddoch chi, tra buodd y ceffyl byw, 'roedd synwyr y ceffyl yn cadw dwli'r mishtir rhag dod yn rhy blaen i'r golwg. Fe fuodd synwyr y ceffyl yn drech na dwli'r mishtir fwy nag unwaith, ond yn mater y lliidiart, fe a'th Cleveland rhagddo, a fe ddishtriws y cawl i gyd, a fe dorws yr hen geffyl i galon, ac fe drigws, a dyna ddiwedd arno!

Nawr, dw i ddim yn gwbod, f'allech bod chi, beth oedd yn peri fod dyn dysgedig fel Cleveland yn myn'd mor ddwl pan byse fe'n myn'd tu fa's iddi fusnes ei hunan. Rw i wedi bod yn meddwl f'alle mai o achos ei fod e' wedi cael ei gyfyngu yn ormodol at ryw un peth, a dim wedi cael ei arfer i ddryched ar ddim byd tu fa's i hyny.

Fel hyn, nawr. Mae nhw'n gweyd wrtha i fod yn yr India sort o grefyddwyr sy'r credu eu bod nhw'n gwasanaethu Duw wrth gym'ryd llw i neillduo rhyw un aelod o'r corph oddiwrth bobpeth daearol. Mae un ohonyn' nhw, gwedwch, yn dala ei law uwch ei ben, ac yn cadw'r fraich yn y shap hyny ddydd a nos heb ei chyffro hi, nes bo'r fraich o'r diwedd yn tyfu yn y shap hyny, a nag yw hi ddim fit at ddim

J6236a

byd arall. Nawr, tae chi'n yn 'y nodi i neu chi i ddala'n braich felny, all'sen ni ddim ei dala am awr, chwaethach blwyddyn. Ond wedyn, tae chi'n dod i'r dyn hyny i neyd rhyw waith cyffredin a'r fraich hyny, all'se fe ddim, dim mwy na phlentyn newydd eni. Ac am wn i, dyna'r ffordd debyca i esbonio pa'm 'roedd Cleveland mor gall gyda ffigyrs, a mor ddwl gyda phobpeth arall. 'Roedd 'i fenydd e' wedi cael ei dodi i witho wrth ddim ond un peth, nes nag oedd e' ddim yn ffit i witho at ddim byd arall o gwbl.

Ond ta beth, fel ro'wn i'n gweyd wrtho chi, fe a'th o ddrwg i wa'th ar ol claddu'r coffyl. 'Roedd e'n gneyd ei waith pan wrth ei waith gystal ag ariod. Ond tu fa's i hyny—wft iddo.

'Roedd hi'n ddigon o farn i chi gwrdd ag e' ar yr hewl, hyny yw, os byse chi yn gadel iddo dori p'le a chi, fe'ch cad'se chi yno am awr yn hwalu'r dwli mwya' fu ariod—ac eto, all'sech chi yn eich byw a dodi'ch bys ar un point yn y peth oedd e'n weyd, a dangos fod hwnw yn rong. Fe fyse'n citsho yndo chi wrth fwtwn eich cot, ac yn declaro'r peth mwya' rhyfedd a welsoch chi eriod. A phan byse fe wrthi, 'roedd e'n anghofio pobpeth arall aboutu iddo fe.

Rwy'n cofio nobl un dydd marchnad yn Llandilo iddo fe gitsho felny yn bwtwn 'y ngat i, a finnau a thipyn o hast arna i, a ddim yn lico gneyd iddo ellwng 'i afael. Wel, beth n's i wrth wel'd ei fod e' wedi colli pob gwybodaeth am bobpeth ond y p'le oedd gydag e', ond fe dynes y nghyllell ma's o mhoced, a fe dores 'y bwtwn bant, gan ei adel e' yn ei law e', a bant a fi, gan feddwl, wrth gwrs, y gwel'se fe yn y funed 'y mod i wedi myn'd. Ond ta beth, ro'wn i'n dod nol hibo i'r fan 'ny mhen aboutu awr neu rhywbeth felny, ac os dy chi yn y fan yna, dyna lle 'roedd Cleveland a'r bwtwn rhwng ei fys a'i fawd, ac yn dala i ddeclaro yn gwmws fel 'roedd e' pan gadawes i e'! Wydde fe ddim tipyn llai nag o'wn i fan 'ny gydag e' ar hyd yr amser!

'Run fath oedd e' gyda phawb. Pan byse fe ma's am wac gyda'i wraig, 'doedd e'n sylwi ar ddim yn y byd.

Fe hwariws Lithau un tric bach anghyffredin ag e' unwaith, gan obeithio byse hi'n gallu ei dori e' o'r hen arferiad anghofus.

Roe nhw ma's am wac y'ch dou un prydawn, —hi yn cydio yn ei fraich e', wrth gwrs, ac ynte yn declaro fel arfer holl ddoethineb Solomon wrthi. 'Roedd hi, hware teg iddi, wedi gneyd eitha batl i drio para i gredu yndo fe o hyd, ond 'roedd yn ddigon o farn arni, poor thing, i orffod gwrando o hyd yn ddiddiwedd ar ei areithiau fe ar bob testyn dan haul. Wath ry' chi'n gwel'd, 'roedd e'n dala i gredu o hyd ei fod e'n gallach na phawb, ac nag oedd dim un pwnc ar wyneb daear na all'se fe rhoi mwy o oleuni arno fe na neb arall. A dyna beth oedd wedi ei ddishtriwo fe eriod. 'Doedd dim use i neb gynnyg ei argyhoeddi e', na phleddo ag e', 'roedd e'n gwbod yn well na phawb ar bob testyn a phwnc ar wyneb daear.

A meddyliwch chi nawr am fywyd y fenyw fach yn gorffod byw gyda'r fath ddyn, a hyny ddydd a nos o ddechreu'r flwyddyn i'w diwedd hi! Ond hware teg iddi, fe nath hi ei rhan gydag e' i'r diwedd. Os 'doedd hi wedi dod i amheu ai fe oedd y dyn calla yn y byd ai pido, 'doedd dim ohori wedi dangos llai iddo fe nag i neb arall nag oedd hi yn credu hyny o hyd.

Ond fel ro'wn i'n gweyd wrtho chi am y tric hwariws hi ag e'. Dyma shwd 'roedd hi. Roe nhw ma's gyda'r giddy un prydawn am wac, a hi yn citsho yn ei fraich e'. Pan oe nhw yn dod nol, ac o fewn gwaith rhyw bum' mynyd i'r ty, beth nath hi ond tynu ei llaw o'i fraich e', a slipe'n ddishtaw bach ar hyd llwybr oedd yn arwain at gefen y ty, a bant a hi nes cyr-

J6236b

haedd y ty o'i flaen e'. A ma's a hi wed'yn at
gat y ffrynt i'w gwrdd e. A gyda'i bod hi yno,
dyna lle clywse hi'r p'le mawr, a Cleveland yn
gweyd yn ian ac yn amal.

Fe gredws hi ar y cynta' fod rhyw gwmpai
gydag e'. Ond pan ddaeth e' i'r golwg, fe wel-
ws nag oedd yno neb ond fe a'i hunan! 'Roedd
ei fraich hwith e' ar gam fel'se hi'n citsho yndy
o hyd, ac ynte'n sharad yn gwmws fel'se hi
gydag e'.

'Roedd y gat yn nghau, a hithau'r ochor tu-
fewn, ac ynte'r ochor tu fa's.

Gyda'i fod e'n rhoi ei law ar y gat i'w hagog
hi, dyma'r wraig yn gweyd wrtho fe:

"Claude! B'le buoch chi?"

Dyma fe'n sefyll, ac yn dryched yn hurt
right. Yn dryched arni hi yr ochor tu fewn,
ac arno'i hunan yr ochor tu fa's, ac ar y gat
yn nghau rhyngty nhw — ac yn ffeilu a deall
shwd wa drwg oedd hi wedi gallu myn'd tu-
fewn i'r gat tra 'roedd ynte tu fa's.

Fe halws e' drwy'r nos y nosweth hyny yn
treio esbonio iddo'i hunan shwd gall'se'r wraig
fod wedi myn'd yr ochor tufewn i'r gat, a hith-
au'n nghau!

Pan wedws i'r stori wrtha i tranoeth, fe
ddetho i i'r penderfyniad fod rhaid fod ryw
shink arno fe, ond do'wn i ddim yn lico gweyd
hyny wrthi hi chwaith, er i fi dreio hinto o bell
hefyd.

Tranoeth, neu ail tranoeth i hyny, fe ddi-
gwyddws peth gwaeth fyth. 'Roedd morwm
newydd wedi dod atyn' nhw y bore hyny, ac
heb wel'd ei mshtir, ac ynte heb ei gwel'd
hithau.

Wel, pan dda'th e' gatre' yn y prydawn, a
chanu'r gloch, y forwn newydd dda'th i'r drws.

Pan welws Cleveland hi yn sefyll yn y pas-
sage, yn lle symud iddo fe gael myn'd mewn, fe
gredws ei fod e' wedi camsyned y ty, gan fod ei
gwyneb hi yn ddiert iddo fe.

"Esgusodwch fi," mynte fe. "Ai dyma lle
mae Mr Cleveland yn byw?"

"Ie, shiwr," mynte hithau, ond ddim yn
symud wed'yn.

"Ody—ody Mr Cleveland mewn?" mynte fe
wed'yn.

"Nag yw," mynte hithau.

"Oh, well," mynte fe, "fe alwa i ryw bryd
eto."

A bant ag e', a fe fuws yn cered yr hewl am
oriau hyd nes i'r wraig fyn'd i dryched am dano,
a gneyd iddo fyn'd sha'r ty gyda hi.

Fe welws hithau, erbyn hyn, fod rhywbeth
yn bound o fod ma's o le, a fe fynws ddoctor i
wel'd e'.

A'r diwedd fu iddo gael ei hala i'r asylum i
Gaerfyrddin, poer fellow, a dyna lle mae e',
myddan nhw, a phapur a phensil o foreu tan nos
yn treio gwitho ma's shwd gall'se ceffyl a shafts
car fyn'd trwy farau lliidiart, a shwd gall'se
menyw pan yn citsho yn mraich ei gwr fyn'd tu-
fewn i gat oedd ar gau, tra 'roedd yntau yn
aros y tu fa's!

Mae'r wraig yn awr, wrth orfod byw arni ei
hunan, wedi dod yn gystal menyw fach i gadw
ty a all'sech chi byth ddymuno. Ond trueni
ymbeidus na fyse hi wedi cael ei dysgu i hyny
pan yn groten,—fe fyse'n llawer gwell iddi na
llawer o'r hen filws ddysgwyd iddi yn yr ysgol.

Ac am dano ynte, druan ag e'!

Mindwch chithau na chymrwch chi'ch llyncu
i fyny gan ryw un peth nes anghofio pobpeth
arall.

[Y DIWEDD.]

J6236c

(delwedd J6236c) (21 Hydref 1899)

DIWEDD / FI / END